



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
The National Assembly for Wales

Cofnod y Trafodion
The Record of Proceedings

Dydd Mercher, 21 Mawrth 2012
Wednesday, 21 March 2012

Cynnwys
Contents

- | | |
|-----|--|
| 3 | Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ
Questions to the Minister for Finance and Leader of the House |
| 25 | Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddonaieth
Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science |
| 48 | Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer |
| 48 | Cynnig i Gymeradwyo Protocol ynghylch Newidiadau i'r Cynnig Cyllidebol
Motion to Endorse a Protocol on Changes to the Budget Motion |
| 53 | Cynnig i Ddirymu Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynnyddoedd
Etholiadau Cyffredin) 2012
Motion to Annul the Isle of Anglesey Local Authorities (Change to the Years of
Ordinary Elections) Order 2012 |
| 73 | Dadl y Ceidwadwyr Cymreig: Llywodraeth Leol
Welsh Conservatives Debate: Local Government |
| 101 | Dadl Plaid Cymru: Yr Economi
Plaid Cymru Debate: The Economy |
| 127 | Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru: Cronfeydd Strwythurol
Welsh Liberal Democrats Debate: Structural Funds |
| 155 | Cyfnod Pleidleisio
Voting Time |
| 164 | Dadl Fer: Rhagdalau'r Pris am Drydan a Nwy
Short Debate: Prepaying the Price for Electricity and Gas |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynnddi yn y Siambr.
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were
spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m. gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.
The Assembly met at 1.30 p.m. with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

The Presiding Officer: Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session.

Y Llywydd: Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ Questions to the Minister for Finance and Leader of the House

Blaenoriaethau o ran Cydraddoldeb

1. Julie Morgan: *Beth yw blaenoriaethau'r Gweinidog o ran ei swyddogaeth fel Gweinidog Cydraddoldeb. OAQ(4)0105(FIN)*

The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt): On 2 April, I will be launching my strategic equality plan and equality objectives, which will make a real difference to the lives of people living in Wales.

Julie Morgan: I thank the Minister for that response. In view of the fact that the European Commission is considering legislation to get more women into top management jobs in Europe because companies are too slow in improving the gender balance, and in view of the fact that in the top 50 companies in Wales, there are only two women in senior management positions, what does the Government plan to do to improve the number of women in top jobs in companies in Wales, and of course, in public bodies as well, where we have more influence?

Jane Hutt: I thank the Member for this question. We are taking forward our programme for government commitment to seek to introduce Norwegian-style quotas to ensure that at least 40% of those appointed to public bodies are women, and we are looking at options for that in terms of our programme for government. Also, we read with interest the European Commission plans and discussions on possible legislation to get more women into top management jobs. Clearly, companies are too slow to improve the gender balance. This is in line with what we seek to do in ensuring that women can make a difference and a contribution in top

Priorities for Equalities

1. Julie Morgan: *What are the Minister's priorities in her role as Minister for Equalities. OAQ(4)0105(FIN)*

Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt): Ar 2 Ebrill, byddaf yn lansio fy nghynllun cydraddoldeb strategol a'm hamcanion ar gyfer cydraddoldeb, a fydd yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl sy'n byw yng Nghymru.

Julie Morgan: Diolch i'r Gweinidog am yr ymateb hwnnw. Yn wyneb y ffaith bod y Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried cyflwyno deddfwriaeth i sicrhau bod mwy o fenywod yn cael swyddi rheoli uwch yn Ewrop gan fod cwmnïau'n rhy araf yn gwella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau, ac yn wyneb y ffaith mai dim ond dwy fenyw sydd mewn swydd reoli uwch yn y 50 cwmni mwyaf yng Nghymru, beth y mae'r Llywodraeth yn bwriadu ei wneud i gynyddu nifer y menywod mewn swyddi uwch mewn cwmnïau yng Nghymru, ac wrth gwrs mewn cyrff cyhoeddus hefyd lle y mae gennym fwy o ddylanwad?

Jane Hutt: Diolch i'r Aelod am y cwestiwn hwn. Rydym yn gweithredu'r ymrwymiad yn ein rhaglen lywodraethu i geisio cyflwyno cwtâu fel y ceir yn Norwy i sicrhau bod o leiaf 40% o'r rhai a gaiff eu penodi i gyrff cyhoeddus yn fenywod, ac rydym yn edrych ar opsiynau ar gyfer hynny o ran ein rhaglen lywodraethu. At hynny, bu inni ddarllen â diddordeb cynlluniau'r Comisiwn Ewropeaidd a'i drafodaethau ynghylch deddfwriaeth bosibl i sicrhau bod mwy o fenywod yn cael swyddi rheoli uwch. Yn amlwg, mae cwmnïau'n rhy araf yn gwella'r cydbwysedd rhwng y rhywiau. Mae hynny'n unol â'r hyn yr ydym yn ceisio ei wneud wrth

jobs in companies and public appointments.

sicrhau bod menywod yn gallu gwneud gwahaniaeth a chyfraniad mewn swyddi uwch mewn cwmnïau a sefydliadau cyhoeddus.

Mohammad Asghar: Forced marriages happen in many communities and many different cultures. The Westminster Government introduced forced marriage protection Orders and is currently consulting on proposals to make breaching an Order a criminal offence. What discussion has the Welsh Government had with the Westminster Government on this matter, and what are you doing to raise awareness and challenge this attitude which condones this practice?

Mohammad Asghar: Mae priodasau dan orfod yn digwydd mewn llawer o gymunedau a llawer o wahanol ddiwylliannau. Cyflwynodd Llywodraeth San Steffan orchmynion amddiffyn rhag priodasau dan orfod, ac ar hyn o bryd mae wrthi'n ymgynghori ynghylch cynigion i wneud torri gorchymyn yn drosedd. Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Llywodraeth San Steffan ynghylch y mater hwn, a beth yr ydych yn ei wneud i godi ymwbyddiaeth a herio'r agwedd hon sy'n caniatáu'r arfer hwn?

Jane Hutt: I welcome the Home Office official consultation on this very important issue; a consultation event was held in Wales recently. I also welcome the advice I receive from the Henna Foundation, which has particular knowledge, experience and expertise on this issue of forced marriage.

Jane Hutt: Rwyf yn croesawu ymgynghoriad swyddogol y Swyddfa Gartref ynghylch y mater hwn, sy'n fater pwysig iawn; cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori yng Nghymru yn ddiweddar. Croesawaf hefyd y cyngor a gaf gan Sefydliad Henna, sydd â gwybodaeth, profiad ac arbenigedd penodol ym maes priodasau dan orfod.

Lindsay Whittle: Minister, as each day goes by, I am becoming increasingly concerned about combatting ageism. Since a 99-year-old woman is going to be one of the Olympic torchbearers, is it not time, during this Olympic year, for the Welsh Government, in conjunction with the third sector, to publicise the achievement of older people who take part in sporting activities?

Lindsay Whittle: Weinidog, gyda phob diwrnod sy'n mynd heibio rwyf yn pryderu mwyfwy ynghylch brwydro yn erbyn rhagfarn ar sail oed. Gan y bydd menyw 99 oed yn un o gludwyr y fflam Olympaidd, onid yw'n bryd, yn ystod y flwyddyn Olympaidd hon, i Lywodraeth Cymru weithio ar y cyd â'r trydydd sector i dynnu sylw at gyflawniad pobl hŷn sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon?

Jane Hutt: Clearly, we welcome that, and I am sure many Members were at the event last night to welcome the torchbearers. It is about recognising the contribution of older people to sport and the opportunities available to them in terms of leisure and competition. This is clearly of interest to the Minister for Housing, Regeneration and Heritage with regard to expanding participation in sport.

Jane Hutt: Rydym yn amlwg yn croesawu hynny, ac rwyf yn siŵr bod llawer o'r Aelodau yn bresennol yn y digwyddiad neithiwr i groesawu cludwyr y fflam. Mae a wnelo hyn â chydabod y chyfraniad y mae pobl hŷn yn ei wneud i chwaraeon a'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt o ran cystadlu a gweithgareddau hamdden. Mae'n amlwg bod hyn o ddiddordeb i'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth o safbwynt ehangu cyfranogiad mewn chwaraeon.

Kenneth Skates: As part of its expansion plans, Airbus, which employs many people from my constituency, has said that it wants 25% of the 500 new jobs it intends to create

Kenneth Skates: Yn rhan o'i gynlluniau i ehangu mae cwmni Airbus, sy'n cyflogi llawer o bobl yn fy etholaeth, wedi dweud ei fod am i fenywod gael 25% o'r 500 o swyddi

this year in Broughton and Filton to go to women. As the Welsh Government seeks to develop women's careers at all levels, will you work with small, medium and large companies in Wales so that they recognise the competitive advantage that can be gained from broadening their managerial profile?

Jane Hutt: Ken Skates has brought to the fore an exemplar company, with regard to what Airbus has achieved. I welcome the news that Airbus is considering this quota of giving 25% of the 500 jobs it intends to create to women. The company could act as a role model for other areas of business to ensure that workforces are truly reflective of the population and that they are fair and balanced. I look forward to meeting with Airbus, and perhaps Ken Skates could facilitate that meeting to discuss this issue.

Gwariant Cyfalaf

2. Keith Davies: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am agwedd Llywodraeth Cymru at wariant cyfalaf. OAQ(4)0106(FIN)*

Jane Hutt: Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ein cynlluniau gwario cyfalaf yn y gyllideb ar gyfer twf a swyddi.

Keith Davies: Rwy'n deall eich bod wedi ysgrifennu at y Canghellor i atgyfnerthu'r materion a godwyd ar ôl y cyfarfod a gawsoch gydag ef a'r Gweinidogion cyllid eraill ar 6 Mawrth. Yn y cyfarfod hwnnw, rwy'n deall eich bod wedi gofyn i'r Canghellor gefnogi twf economaidd trwy gynyddu gwariant cyfalaf yn y gyllideb a gyhoeddwyd heddiw. Beth oedd ymateb y Canghellor i'ch cais?

Jane Hutt: Unfortunately, I have not yet heard from the Chief Secretary to the Treasury in response to my letter, which clearly reflected the views of businesses in Wales, as well as those of Members. We were seeking a budget for growth and jobs to stimulate the economy and ensure that we had capital resources in order to bring forward those projects that are ready to roll. I hotfooted it here straight after hearing the

newydd y mae'n bwriadu eu creu eleni ym Mrychdyn a Filton. Gan fod Llywodraeth Cymru yn ceisio datblygu gyrfaedd menywod ar bob lefel, a wnewch chi weithio gyda chwmnïau bach, canolig a mawr yng Nghymru er mwyn iddynt gydnabod y fantais gystadleuol sydd i'w hennill o ehangu proffil eu rheolwyr?

Jane Hutt: Mae Ken Skates wedi sôn am gwmni sy'n batrwm i eraill, o ran yr hyn y mae Airbus wedi'i gyflawni. Croesawaf y newyddion bod Airbus yn ystyried y cwota hwn o roi 25% o'r 500 o swyddi y mae'n bwriadu eu creu i fenywod. Gallai'r cwmni fod yn fodel rôl i feysydd busnes eraill i sicrhau bod gweithluoedd yn deg ac yn gytbwys a'u bod yn adlewyrchu'r boblogaeth yn gywir. Edrychaf ymlaen at gyfarfod ag Airbus, ac efallai y gallai Ken Skates hwyluso'r cyfarfod hwnnw i drafod y mater hwn.

Capital Expenditure

2. Keith Davies: *Will the Minister make a statement on the Welsh Government's approach to capital expenditure. OAQ(4)0106(FIN)*

Jane Hutt: The Welsh Government published our capital spending plans in the budget for growth and jobs.

Keith Davies: I understand that you have written to the Chancellor to restate the issues raised after your meeting with him and other finance Ministers on 6 March. In that meeting, I understand that you asked the Chancellor to support economic growth by increasing capital expenditure in the budget announced today. What was the Chancellor's response to your request?

Jane Hutt: Yn anffodus, hyd yn hyn, nid wyf wedi clywed gan Brif Ysgrifennydd y Trysorlys mewn ymateb i'm llythyr a oedd yn adlewyrchu'n glir barn busnesau yng Nghymru, yn ogystal â barn yr Aelodau. Roeddem yn ceisio cyllideb ar gyfer twf a swyddi i ysgogi'r economi a sicrhau bod gennym adnoddau cyfalaf er mwyn gallu gweithredu'r prosiectau hynny sy'n barod i fynd. Deuthum yma ar frys yn syth ar ôl

budget, in which there was no evidence of increased stimulus regarding infrastructure. There were some helpful prospects, to which I am sure that the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science will be responding, but no response to the call to bring forward capital and stimulate the economy. That is disappointing considering the message that came from me and other Members in the Chamber.

Ieuan Wyn Jones: Weinidog, gwyddoch nad yw comisiwn Silk yn ystyried adolygiad o'r fformiwla Barnett na'r pwerau benthyg sydd gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae'r materion hyn i'w trafod mewn trafodaethau rhynglywodraethol â Llywodraeth San Steffan. Gan nad ydym wedi cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trafodaethau hynny, a allwch chi ddweud wrth y Cynulliad ble rydym wedi ei gyrraedd, a phryd ydym yn debygol o gael datganiad mwy swyddogol yn y Cynulliad?

Jane Hutt: We are seeking, and are holding, constructive discussions on all financial issues as part of those intergovernmental talks. Our position is clear: fair funding and borrowing powers must be the priority in moving forward with the fiscal opportunities that the Silk commission is discussing. We are clear that our intergovernmental talks have to deliver on the package of reforms. That has to include genuine progress on fairer funding, the Holtham floor and borrowing powers to enable us to deliver on our budget for growth and jobs. We are not seeing such a budget from the UK coalition Government.

Ieuan Wyn Jones: Rwy'n falch iawn eich bod wedi ailadrodd eich safbwynt fel Llywodraeth ar y materion hynny. Byddai'n dda cael gwybod beth yw ymateb y Llywodraeth yn Llundain i'ch cais. Yn eich araith yng nghynhadledd ddiweddar y Sefydliad Materion Cymreig, rhoesoch enghreifftiau o'r mathau o gynlluniau y byddech yn dymuno gwario arian arnynt pe byddai hawl gennych i dynnu arian cyfalaf ymlaen. Pe byddech yn cael pwerau benthyg gan y Llywodraeth yn Llundain, a fyddech yn gwario'r arian hwnnw ar gynlluniau sydd

clywed y gyllideb, nad oedd yn ddim dystiolaeth o ysgogiad cynyddol o safbwynt seilwaith. Cafwyd rhai rhagolygon defnyddiol, ac rwyf yn siŵr y bydd y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn ymateb i'r rheini, ond ni chafwyd ymateb i'r alwad i ddwyn cyfalaf ymlaen ac ysgogi'r economi. Mae hynny'n siomedig o ystyried y neges a ddaeth oddi wrthyf fi ac Aelodau eraill yn y Siambr.

Ieuan Wyn Jones: Minister, as you know, the Silk commission is not considering a review of the Barnett formula or the borrowing powers available to the Welsh Government at present. These are matters for the intergovernmental negotiations between you and the Westminster Government. Given that we have not had an update on those negotiations, can you tell the Assembly where we have reached and when we are likely to have an official statement in the Assembly?

Jane Hutt: Rydym yn ceisio ac yn cynnal trafodaethau adeiladol ynghylch yr holl faterion ariannol yn rhan o'r trafodaethau rhynglywodraethol hynny. Mae ein safbwynt yn glir: rhaid i ariannu teg a phwerau benthyca fod yn brif flaenoriaeth wrth symud ymlaen â'r cyfleoedd cyllidol y mae comisiwn Silk yn eu trafod. Gwyddom yn iawn bod yn rhaid i'n trafodaethau rhynglywodraethol gyflawni yng nghyswllt y pecyn o ddiwygiadau. Rhaid i hynny gynnwys cynnydd gwirioneddol yng nghyswllt ariannu tecach, terfyn isaf Holtham a phwerau benthyca i'n galluogi i gyflawni yng nghyswllt ein cyllideb ar gyfer twf a swyddi. Nid ydym yn gweld cyllideb o'r fath gan Lywodraeth glymblaid y DU.

Ieuan Wyn Jones: I am very pleased that you have reiterated your view as a Government on these matters. It would be good to know how the Government in London responded to your request. In your speech to the recent Institute of Welsh Affairs conference, you outlined the kinds of projects that you would like to spend money on if you had the right to bring capital forward. If you were given borrowing powers by the Government in London, would you spend that money on projects that have been suspended or deferred, or would you look for

wedi'u hatal neu eu gohirio, neu a fydddech yn chwilio am gynlluniau newydd? Byddai'n dda cael ateb i'r cwestiwn hwnnw.

Jane Hutt: We have projects that are shovel-ready, which I have brought to the attention of the Chief Secretary to the Treasury, such as next generation broadband for Wales, enterprise zone infrastructure, the Arbed energy efficiency programme, the dualling of the A465 Heads of the Valleys road, and so on. We have projects that are deferred but which are ready to go, if we can bring capital spend forward. This is a constructive and responsible request from a Minister for finance in Wales to ensure that we are boosting the economy. However, there are other projects that my Cabinet colleagues are looking to bring forward to ensure that we can take this forward. That will include investment not just in roads and infrastructure, but in twenty-first century schools and social housing.

The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies): Minister, rail electrification is a big, topical issue. Can you confirm that this is definitely a Welsh Government priority and that you are working with the UK Government to secure European funding where that is appropriate?

Jane Hutt: Absolutely. I assure the leader of the opposition that that is the case. I know that he welcomed the fact that we had a cross-party group going to Westminster last week to make the case for rail electrification. We have made the business case, and we are ready for the announcement. Unfortunately, I heard nothing in the budget statement as I came down to the Chamber that indicated that the UK Government had responded at this point to our cross-party request. Yet, we heard quite a lot about investment in the north-east and in London, but not in rail electrification in Wales. Therefore, I hope that the leader of the opposition will be joining me and the Minister to press for an early announcement on rail electrification, not just for the Valleys lines, but to Swansea as well.

new projects? It would be good to have an answer to that question.

Jane Hutt: Mae gennym brosiectau sy'n barod i fynd, yr wyf wedi eu dwyn i sylw Prif Ysgrifennydd y Trysorlys. Mae'r prosiectau hynny'n cynnwys band eang y genhedlaeth nesaf i Gymru, seilwaith ardaloedd menter, rhaglen effeithlonrwydd ynni Arbed, gwaith deuoli ffordd A465 Blaenau'r Cymoedd, ac yn y blaen. Mae gennym brosiectau sydd wedi'u gohirio ond sy'n barod i fynd, os gallwn ddwyn gwariant cyfalaf ymlaen. Mae hwn yn gais adeiladol a chyfrifol gan Weinidog cyllid yng Nghymru i sicrhau ein bod yn rhoi hwb i'r economi. Fodd bynnag, ceir prosiectau eraill y mae fy nghydweithwyr yn y Cabinet yn awyddus i'w cyflwyno i sicrhau y gallwn fwrw ymlaen â'r gwaith hwn. Bydd hynny'n cynnwys buddsoddi mewn ysgolion ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain a thai cymdeithasol, yn ogystal â buddsoddi mewn ffyrdd a seilwaith.

Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies): Weinidog, mae trydaneiddio rheilffyrdd yn fater pwysig ac amserol. A allwch gadarnhau bod y mater hwn yn bendant yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, a'ch bod yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau cyllid Ewropeaidd lle y bo hynny'n briodol?

Jane Hutt: Yn sicr. Gallaf sicrhau arweinydd yr wrthblaid bod hynny'n wir. Gwn iddo groesawu'r ffaith i grŵp trawsbleidiol fynd i San Steffan yr wythnos diwethaf i gyflwyno'r achos dros drydaneiddio rheilffyrdd. Rydym wedi cyflwyno'r achos busnes, ac rydym yn barod am y cyhoeddiad. Yn anffodus, ni chlywais ddim yn y datganiad ynghylch y gyllideb wrth imi ddod i lawr i'r Siambr a oedd yn awgrymu bod Llywodraeth y DU wedi ymateb i'n cais trawsbleidiol hyd yn hyn. Eto i gyd, clywsom gryn dipyn am fuddsoddi yn y gogledd-ddwyrain ac yn Llundain, ond nid mewn trydaneiddio rheilffyrdd yng Nghymru. Felly, gobeithiaf y bydd Arweinydd yr Wrthblaid yn ymuno â mi a'r Gweinidog i bwysu am gyhoeddiad buan ynghylch trydaneiddio rheilffyrdd, nid ar gyfer rheilffyrdd y Cymoedd yn unig, ond ar gyfer y rheilffordd i Abertawe yn ogystal.

Peter Black: I am not sure which budget you were listening to, Minister, but, in terms of benefits for Wales, I heard an announcement of an enhanced capital allowance in Deeside, further grants for ultra-fast broadband in Cardiff, investment in mobile infrastructure on the A470, £11.7 million of Barnett consequentials, and a cut in corporation tax. This will all help businesses and the Welsh economy. On capital expenditure, we have been waiting some time now for progress on the bond issue to get more affordable housing in the social housing sector. Can you give us an indication of what progress is being made on that, please?

Jane Hutt: On the priorities that the UK Government is expressing in its budget today, it is seeking to cut the taxes of those who can afford to pay the most, and it is not using that money to support the economic renewal of Wales. I mentioned rail electrification as an example. Social housing is an important question and, to answer Peter Black, we have brought in more money for social housing through the supplementary budget, as he knows. We have brought another £45 million into the Minister's budget this year, of which £22 million is for social housing. We are working with registered social landlords to look at ways in which we can, because it is very much up to them, lever in the bond to have a robust programme for social housing next year.

Peter Black: An extra £1,100 on the personal tax allowance will help a lot of low-paid taxpayers and will give them more money to spend. Some 42,000 people will be better off as a result of that. Minister, I am afraid that you did not answer my question in relation to the bond issue. You know for a fact that this has been going on for quite some time. We do not seem to be making any progress on it. Will you please tell us what progress is being made on the bond issue in terms of social housing? How are you engaging with Community Housing Cymru on it, and when can we expect an announcement?

Peter Black: Nid wyf yn siŵr ar ba gyllideb yr oeddech yn gwranddo, Weinidog, ond o ran buddiannau i Gymru clywais gyhoeddiad y byddai lwfans cyfalaf uwch yn cael ei roi i Lannau Dyfrdwy, y byddai grantiau pellach yn cael eu rhoi ar gyfer band eang cyflym iawn yng Nghaerdydd, y byddai buddsoddiad mewn seilwaith symudol ar yr A470, y byddai £11.7 miliwn o symiau canlyniadol Barnett yn cael eu rhoi, ac y byddai gostyngiad yn y dreth gorfforaeth. Bydd hyn i gyd yn helpu busnesau ac economi Cymru. O ran gwariant cyfalaf, rydym wedi bod yn aros ers tro bellach am gynnydd o safbwynt rhyddhau bond i sicrhau bod mwy o dai fforddiadwy ar gael yn y sector tai cymdeithasol. A allwch roi syniad inni o'r cynnydd sy'n cael ei wneud ynghylch hynny, os gwelwch yn dda?

Jane Hutt: O ran y blaenoriaethau y mae Llywodraeth y DU yn eu mynegi yn ei chyllideb heddiw, mae'n ceisio torri trethi'r rhai sy'n gallu fforddio talu'r arian mwyaf, ac nid yw'n defnyddio'r arian hwnnw i gefnogi adnewyddu'r economi yng Nghymru. Cyfeiriais at drydaneiddio rheilffyrdd fel enghraifft. Mae tai cymdeithasol yn gwestiwn pwysig, ac i ateb Peter Black, fel y gŵyr, rydym wedi darparu mwy o arian ar gyfer tai cymdeithasol drwy'r gyllideb atodol. Rydym wedi rhoi £45 miliwn ychwanegol yng nghyllideb y Gweinidog eleni, ac mae £22 miliwn o'r cyllid hwnnw ar gyfer tai cymdeithasol. Rydym yn gweithio gyda landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i ystyried sut y gallwn ysgogi'r bond i gael rhaglen gadarn ar gyfer tai cymdeithasol y flwyddyn nesaf, oherwydd y landlordiaid hynny sydd i benderfynu, i raddau helaeth.

Peter Black: Bydd ychwanegu £1,100 i'r lwfans treth personol yn helpu llawer o drethdalwyr sydd ar gyflog isel, a bydd yn rhoi mwy o arian iddynt i'w wario. Bydd oddeutu 42,000 o bobl yn well eu byd o ganlyniad i hynny. Weinidog, rwy'n ofni na wnaethoch ateb fy nghwestiwn mewn perthynas â rhyddhau bond. Gwyddoch yn iawn fod hyn wedi bod yn mynd rhagddo ers amser mawr. Ymddengys nad ydym yn gwneud dim cynnydd mewn perthynas â'r mater. A wnewch chi ddweud wrthym pa gynnydd sy'n cael ei wneud ynghylch rhyddhau bond yng nghyswllt tai

cymdeithasol? Sut yr ydych yn ymgysylltu â Chartrefi Cymunedol Cymru ynghylch hyn, a phryd y gallwn ddisgwyl cyhoeddiad?

Jane Hutt: It is interesting to look at the Principality's spend and save survey. When people were asked what they felt the priority for the budget should be, one in three said that it should be a budget to stimulate the economy. They did not say that it should be a budget to ease and cut the taxes on those who can afford them most. This is a budget that will not support those on the lowest incomes, who will not even benefit from the raising of the tax threshold. However, your point about the housing bond is important, and it very much depends on the registered social landlords coming forward and being prepared to work with us to deliver on that. The Minister and I met this morning, and we are working to achieve this with our colleagues and partners in the social housing sector.

Jane Hutt: Mae'n ddiddorol edrych ar arolwg gwario a chynilo y Principality. Pan ofynnwyd i bobl beth ddylai fod yn brif flaenoriaeth ar gyfer y gyllideb yn eu barn hwy, dywedodd un o bob tri ohonynt y dylai fod yn gyllideb sy'n ysgogi'r economi. Nid oeddent wedi dweud y dylai fod yn gyllideb sy'n lleihau ac yn torri trethi ar gyfer y rhai sy'n gallu eu fforddio fwyaf. Mae hon yn gyllideb na fydd yn cefnogi'r rhai sydd ar yr incwm isaf, na fyddant yn elwa o godi'r trothwy treth hyd yn oed. Fodd bynnag, mae eich pwynt am y bond tai yn un pwysig, ac mae'n dibynnu i raddau helaeth ar a fydd y landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn barod i gamu ymlaen a gweithio gyda ni i gyflawni yng nghyswllt hynny. Cyfarfu'r Gweinidog a minnau y bore yma, ac rydym yn gweithio i gyflawni hyn gyda'n cydweithwyr a'n partneriaid yn y sector tai cymdeithasol.

1.45 p.m.

Cyllideb Tai, Adfywio a Threftadaeth

Housing, Regeneration and Heritage Budget

3. Mark Isherwood: *Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i'r gyllideb Tai, Adfywio a Threftadaeth wrth ddyrannu'r ail Gyllideb Atodol. OAQ(4)0104(FIN)*

3. Mark Isherwood: *What consideration did the Minister give to the Housing, Regeneration and Heritage budget when allocating the second Supplementary Budget. OAQ(4)0104(FIN)*

Jane Hutt: The supplementary budget that was approved by the Assembly this month provided an additional £43 million of capital funding to the housing, regeneration and heritage budget, which was an increase of over 13%.

Jane Hutt: Roedd y gyllideb atodol a gymeradwywyd gan y Cynulliad y mis hwn yn rhoi £43 miliwn ychwanegol o gyllid cyfalaf i'r gyllideb tai, adfywio a threftadaeth, a oedd yn gynnydd o dros 13%.

Mark Isherwood: The social housing grant has faced a 60% cut in real terms over the period of devolution and is still facing a cut, although it will be slightly less than was originally indicated. How, therefore, do you respond to the submission by the Council of Mortgage Lenders to your Welsh Government on meeting the housing challenge? It states that it recognises that there are other options for financing housing by working with private lenders, but remains

Mark Isherwood: Mae'r grant tai cymdeithasol wedi wynebu toriad o 60% mewn termau real dros gyfnod datganoli ac mae'n dal i wynebu toriad pellach, er y bydd ychydig yn llai na'r hyn a nodwyd yn wreiddiol. Sut, felly, yr ydych yn ymateb i'r sylwadau a gyflwynwyd i'ch Llywodraeth chi yng Nghymru gan y Cyngor Benthycwyr Morgeisi ynghylch ymateb i'r her o ran tai? Mae'r sylwadau'n datgan bod y Cyngor yn cydnabod y ceir dewisiadau eraill ar gyfer

of the view, which has been expressed to the Welsh Government, that schemes such as these are unlikely to be large in volume, making it difficult for lenders to engage. It suggests that the Welsh Government should consider making greater use of some existing schemes, such as shared ownership and the NewBuy initiative in England.

Jane Hutt: We had a useful and constructive debate on this last week, when the Minister for Housing, Regeneration and Heritage recognised that there were important schemes to explore in terms of opportunities for first-time buyers, for example. There is also the homebuy shared-equity scheme, delivered by housing associations, along with Rent First, and we are looking at opportunities offered by the local authority mortgage scheme. However, I am sure that you would recognise the need to invest in social housing and support our move to ensure that we call for an economic stimulus package. If the Chancellor had accepted my proposal to bring capital forward, that could have included capital for social housing, but he declined to do so, as outlined in his statement today.

Comisiwn Silk

4. Simon Thomas: *Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynglyn â Chomisiwn Silk. OAQ(4)0101(FIN)*

Jane Hutt: Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno tystiolaeth i'r comisiwn a nodi ein dadl dros ddiwygiadau eang i setliad ariannol Cymru, gan ddechrau gydag ariannu teg a phwerau benthyca.

Simon Thomas: Beth fydd safbwynt Llywodraeth Cymru parthed ardrethi busnes? Mae'r Gweinidog, Edwina Hart, wedi cynnal comisiwn i edrych i mewn i ddyfodol ardrethi busnes ac y mae posibilrwydd o ddatganoli ardrethi busnes o dan y comisiwn hwnnw. Ar hyn o bryd, mae ardrethi'n cael eu casglu yng Nghymru, yn mynd i'r Trysorlys lle maent yn aros mewn cronfa, ac wedyn yn dod yn ôl i

ariannu tai trwy weithio gyda benthycwyr preifat, ond mae'n dal o'r farn ei bod yn annhebygol y bydd cynlluniau o'r fath yn gynlluniau mawr eu maint, sy'n golygu y bydd yn anodd i fenthycwyr ymgysylltu â nhw, ac mae'r Cyngor wedi mynegi'r farn honno i Lywodraeth Cymru. Mae'n awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried gwneud mwy o ddefnydd o rai cynlluniau sy'n bodoli eisoes, megis perchnogaeth a rennir a'r fenter NewBuy yn Lloegr.

Jane Hutt: Cawsom ddadl ddefnyddiol ac adeiladol ynghylch hyn yr wythnos diwethaf, pan gydnabu'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth fod cynlluniau pwysig i'w harchwilio o ran cyfleoedd i brynwyr tro cyntaf, er enghraifft. Ceir y cynllun cymorth prynu, sy'n gynllun rhannu ecwiti, a ddarperir gan gymdeithasau tai, ynghyd â Rhent Gyntaf, ac rydym yn edrych ar gyfleoedd a gynigir gan gynllun morgeisi'r awdurdodau lleol. Fodd bynnag, rwyf yn siŵr y byddech yn cydnabod bod angen buddsoddi mewn tai cymdeithasol ac yn cefnogi ein hymgais i sicrhau ein bod yn galw am becyn ysgogi'r economi. Pe bai'r Canghellor wedi derbyn fy nghynnig i ddwyn cyfalaf ymlaen, gallai hynny fod wedi cynnwys cyfalaf ar gyfer tai cymdeithasol, ond gwrthododd wneud hynny, fel yr amlinellir yn ei ddatganiad heddiw.

Silk Commission

4. Simon Thomas: *What discussions has the Minister had regarding the Silk Commission. OAQ(4)0101(FIN)*

Jane Hutt: The Welsh Government has submitted evidence to the commission, setting out our case for comprehensive reforms to the Welsh financial settlement, starting with fair funding and borrowing powers.

Simon Thomas: What would the Welsh Government's stance be regarding business rates? The Minister, Edwina Hart, has conducted a commission looking into the future of business rates and there is a possibility of the devolution of business rates under the commission. At the moment, the rates are collected in Wales, they go to the Treasury where they are held in a fund, and

Gymru i gael eu hailddosbarthu. Oni fyddai'n gwneud synnwyr, er mwyn llywodraethu'n fwy effeithiol yng Nghymru, pe bai ardrethi busnes cael eu datganoli? A yw hwn yn syniad yr ydych wedi ei gynnig i gomisiwn Silk neu'n syniad yr ydych yn ei gynnig i'r Llywodraeth Brydeinig ar hyn o bryd?

Jane Hutt: I know that Simon Thomas is aware that Professor Brian Morgan is undertaking a thorough review of business rates and, as the Minister has indicated, he has an open book in terms of opportunities and issues that he is considering with an expert team. We look forward to hearing the results of that review.

Nick Ramsay: Without wishing to pre-judge the findings of the Silk commission, which I know is working hard in the area of the fiscal autonomy of this place, I am sure you would agree that it was recognised, in the wake of the Holtham commission, that it is problematic to devolve certain taxes, for example, income tax—it could be done, but it would be problematic. However, air passenger duty is seen as one taxation policy that could be more easily devolved and could be potentially beneficial to the Welsh economy. Could you update us on any discussions that you have had with colleagues on the potential devolution of this tax?

Jane Hutt: The First Minister has said that that is an area of tax that we should and could look at, along with stamp duty and other taxes that relate to our policy intentions. I am sure that the Silk commission will be looking at this issue.

The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams): Could you confirm that it was at the request of the First Minister that discussions on the Barnett floor and borrowing powers were not part of the Silk commission? Could you tell us when you will next meet the First Secretary of the Treasury to discuss those issues?

Jane Hutt: I thank the Leader of the Welsh Liberal Democrats for that question, because I am looking forward to meeting the Chief Secretary to the Treasury in April, during

then they are returned to Wales to be redistributed. Would it not make sense, in terms of the effective governance of Wales, if business rates were devolved? Is this an idea that you have proposed to the Silk commission or an idea that you are proposing to the British Government at present?

Jane Hutt: Gwn fod Simon Thomas yn ymwybodol bod yr Athro Brian Morgan wrthi'n cynnal adolygiad trylwyr o ardrethi busnes, ac fel y mae'r Gweinidog wedi nodi, mae ganddo ryddid llwyr o ran y cyfleoedd a'r materion y mae'n eu hystyried gyda thîm o arbenigwyr. Edrychwn ymlaen at glywed canlyniadau'r adolygiad hwnnw.

Nick Ramsay: Nid wyf am ragfarnu canfyddiadau comisiwn Silk, oherwydd gwn fod y comisiwn yn gweithio'n galed ym maes ymreolaeth ariannol y lle hwn, ond rwyf yn siŵr y byddech yn cytuno y cafodd ei gydnabod, yn sgîl comisiwn Holtham, bod datganoli trethi penodol yn broblemus, er enghraifft treth incwm—gellid gwneud hynny, ond byddai'n broblemus. Fodd bynnag, caiff y doll teithwyr awyr ei hystyried yn un polisi trethi y gellid ei ddatganoli'n haws ac a allai fod o fudd i economi Cymru. A allech roi'r wybodaeth ddiweddaraf inni am unrhyw drafodaethau yr ydych wedi'u cael â chydweithwyr ynghylch y posibilrwydd o ddatganoli'r dreth hon?

Jane Hutt: Mae'r Prif Weinidog wedi dweud bod hon yn un agwedd ar dreth y dylem ac y gallem edrych arni, ynghyd â tholl stamp a threthi eraill sy'n ymwneud â'n bwriadau polisi. Rwyf yn siŵr y bydd comisiwn Silk yn edrych ar y mater hwn.

Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams): A allech gadarnhau mai ar gais y Prif Weinidog y penderfynwyd peidio â chynnwys trafodaethau ynghylch terfyn isaf Barnett a phwerau benthyca yn rhan o gomisiwn Silk? A allech ddweud wrthym pryd y byddwch yn cyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys nesaf i drafod y materion hynny?

Jane Hutt: Diolch i Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru am y cwestiwn hwnnw, oherwydd rwyf yn edrych ymlaen at gyfarfod â Phrif Ysgrifennydd y

recess, to continue our intergovernmental talks, which are very constructive. Indeed, work has been done at official level by Treasury officials and my finance officials to look at the analysis in terms of convergence funding and to look at the clear evidence that has been provided by Gerry Holtham's commission. I look forward to some positive outcomes from that meeting in the next few weeks.

Trysorlys ym mis Ebrill, yn ystod y toriad, i barhau â'n trafodaethau rhynglywodraethol, sy'n drafodaethau adeiladol iawn. Yn wir, mae gwaith wedi'i wneud ar lefel swyddogion gan swyddogion y Trysorlys a'm swyddogion cyllid innau i edrych ar y dadansoddiad o ran cyllid cydgyfeirio, ac edrych ar y dystiolaeth glir a ddarparwyd gan gomisiwn Gerry Holtham. Edrychaf ymlaen at weld rhai canlyniadau cadarnhaol yn deillio o'r cyfarfod hwnnw yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.

Blaenoriaethau

Priorities

5. Paul Davies: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer y 12 mis nesaf. OAQ(4)0100(FIN)*

5. Paul Davies: *Will the Minister make a statement on her priorities for the next 12 months. OAQ(4)0100(FIN)*

Jane Hutt: My priorities continue to be supporting the economic recovery in Wales, safeguarding and improving front-line public services and protecting the most vulnerable in our communities.

Jane Hutt: Fy mlaenoriaethau o hyd yw cefnogi'r adferiad economaidd yng Nghymru, diogelu a gwella gwasanaethau rheng flaen i'r cyhoedd, ac amddiffyn y rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Paul Davies: Minister, I am sure that one of your priorities is the funding of our health service. As the financial year draws to an end, there will be a particular spotlight on local health board finances. Will the Minister confirm that she is content with the amount of funding that the Welsh Government has made available to local health boards?

Paul Davies: Weinidog, rwyf yn siŵr mai un o'ch blaenoriaethau yw ariannu ein gwasanaeth iechyd. Wrth i'r flwyddyn ariannol dynnu at ei therfyn, rhoddir sylw arbennig i faterion ariannol y byrddau iechyd lleol. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau ei bod yn fodlon â swm y cyllid y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ddarparu i fyrddau iechyd lleol?

Jane Hutt: I can confirm that. I was delighted that my supplementary budget went through last week. It included an increase in support for local health boards to enable them to move forward and break even this financial year.

Jane Hutt: Gallaf gadarnhau hynny. Roeddwn wrth fy modd bod fy nghyllideb atodol wedi cael ei derbyn yr wythnos diwethaf. Roedd yn cynnwys cynnydd yn y gefnogaeth a roddir i fyrddau iechyd lleol i'w galluogi i symud ymlaen a pheidio â mynd i ddyled yn y flwyddyn ariannol hon.

Paul Davies: I heard what you said, Minister, but some financial reports from local health boards suggest that they forecast an overall deficit position of around £30 million or £40 million at the end of the year, despite the additional funding that you have mentioned. Given the circumstances, will the Minister confirm whether the Welsh Government will provide additional resources for local health boards should they not break even at the end of this financial year?

Paul Davies: Clywais eich ymateb, Weinidog, ond mae rhai adroddiadau ariannol gan fyrddau iechyd lleol yn awgrymu eu bod yn rhagweld sefyllfa lle y ceir diffyg cyffredinol o oddeutu £30 miliwn neu £40 miliwn ar ddiwedd y flwyddyn, er gwaethaf y cyllid ychwanegol yr ydych wedi'i grybwyll. O ystyried yr amgylchiadau, a wnaiff y Gweinidog gadarnhau a fydd Llywodraeth Cymru yn darparu adnoddau ychwanegol i fyrddau iechyd lleol os byddant mewn dyled

ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon?

Jane Hutt: We have undertaken significant work with every health board in Wales to understand the financial pressures that they face. That shaped the budget settlement that we announced in the autumn: an additional £63 million of recurrent funding across the NHS in Wales was approved in the supplementary budget. I speak to the Minister for Health and Social Services and we are confident that the settlement will deliver financial sustainability.

Llyr Huws Gruffydd: Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud er mwyn sicrhau bod mwy o ymgeisyddion ar gyfer yr etholiadau lleol sy'n digwydd eleni yn dod o grwpiau sydd wedi eu tangynrychioli, er mwyn gwneud yn siŵr bod cynghorau Cymru yn wir adlewyrchu'r cymunedau maent yn eu cynrychioli?

Jane Hutt: I thank Llyr Huws Gruffydd for that question, because it is an important point for all political parties in the Chamber. It will also be one of the key equality objectives in our strategic equality plan in terms of improving the participation and democratic representation of our communities in Wales in public and political life.

William Powell: Minister, the vital importance of local health boards operating beyond their immediate administrative boundaries has recently been restated by the First Minister and by the Minister for Health and Social Services. In that context, would you please clarify your capacity as Minister for Finance to allocate funds specifically for cross-border LHB operations and support?

Jane Hutt: I work closely with the Minister for Health and Social Services on all matters in terms of financial arrangements for the health service.

Cyllid Ychwanegol i'r Portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

6. *Angela Burns:* Pa sylwadau y mae'r

Jane Hutt: Rydym wedi gwneud llawer o waith gyda phob bwrdd iechyd yng Nghymru i ddeall y pwysau ariannol sy'n eu hwynebu. Bu'r gwaith hwn yn sail i setliad y gyllideb a gyhoeddwyd gennym yn yr hydref: cymeradwywyd £63 miliwn ychwanegol o gyllid rheolaidd ar draws y GIG yng Nghymru yn y gyllideb atodol. Rwyf yn siarad â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ac rydym yn hyderus y bydd y setliad yn sicrhau cynaliadwyedd ariannol.

Llyr Huws Gruffydd: What is the Government doing to ensure that more of the candidates for the local elections taking place this year are from underrepresented groups, in order to ensure that Welsh councils truly reflect the communities that they represent?

Jane Hutt: Rwyf yn diolch i Llyr Huws Gruffydd am y cwestiwn hwnnw, gan ei fod yn bwynt pwysig i bob plaid wleidyddol yn y Siambr. Bydd hefyd yn un o'r amcanion cydraddoldeb allweddol yn ein cynllun cydraddoldeb strategol o ran gwella cyfranogiad a gwella cynrychiolaeth ddemocrataidd ein cymunedau yng Nghymru mewn bywyd cyhoeddus a bywyd gwleidyddol.

William Powell: Weinidog, yn ddiweddar mae'r Prif Weinidog a'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi datgan eto mor hanfodol bwysig ydyw i fyrddau iechyd lleol weithredu y tu hwnt i'w ffiniau gweinyddol. Yn y cyd-destun hwnnw, a wnewch chi egluro eich gallu fel Gweinidog Cyllid i ddyrannu cyllid yn benodol ar gyfer gweithrediadau a chefnogaeth drawsffiniol y byrddau iechyd lleol?

Jane Hutt: Rwyf yn gweithio'n agos gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr holl faterion sy'n ymwneud â threfniadau ariannol ar gyfer y gwasanaeth iechyd.

Additional Funding to the Health and Social Services Budget

6. *Angela Burns:* What representations has

Gweinidog wedi'u cael ynghylch darparu cyllid ychwanegol i'r portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. OAQ(4)0095(FIN)

the Minister received regarding providing additional funding to the Health and Social Services portfolio. OAQ(4)0095(FIN)

Jane Hutt: I have regular discussions with the Minister for Health and Social Services about the full range of issues facing the health and social services portfolio.

Jane Hutt: Rwyf yn cael trafodaethau rheolaidd â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am yr ystod lawn o faterion sy'n wynebu'r portffolio iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Angela Burns: Thank you for that. Minister, I was very disappointed by the response given by the Minister for health recently when she was asked about the Welsh Government's financial support for Wales Air Ambulance by my colleague Darren Millar. Therefore, I would like to ask you directly whether you share the Welsh Conservatives' admiration of and gratitude to the air ambulance and the service that it provides in saving the lives of the people of Wales. What approaches have you had from the Minister for health or her officials with regard to providing direct funding to Wales Air Ambulance so that it can continue to save Welsh lives at a cost of some £600,000, which is what it would like from you?

Angela Burns: Diolch am hynny. Weinidog, roeddwn yn siomedig iawn gan yr ymateb a roddwyd gan y Gweinidog Iechyd yn ddiweddar pan gafodd ei holi gan fy nghydweithiwr Darren Millar am y cymorth ariannol yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei roi i Ambiwlans Awyr Cymru. Felly, hoffwn ofyn i chi yn uniongyrchol a ydych chithau, fel y Ceidwadwyr Cymreig, yn edmygu'r ambiwlans awyr a'r gwasanaeth a ddarperir ganddo wrth achub bywydau pobl Cymru, ac yn diolch iddo am y gwasanaeth hwnnw? Pa geisiadau yr ydych wedi'u cael gan y Gweinidog Iechyd neu ei swyddogion ynghylch darparu cyllid uniongyrchol i Ambiwlans Awyr Cymru er mwyn iddo allu parhau i achub bywydau pobl Cymru ar gost o oddeutu £600,000, sef y swm y byddai'n dymuno ei gael gennych?

Jane Hutt: I know that the Minister for Health and Social Services shares my support for and admiration of the Wales Air Ambulance, and I am sure that that is reflected across the Chamber. It plays an important role and, indeed, is engaged fully in terms of our emergency services. Therefore, it is not only the Minister's responsibility but commitment to ensure that that is sustained.

Jane Hutt: Gwn fod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, fel minnau, yn cefnogi ac yn edmygu Ambiwlans Awyr Cymru, ac rwyf yn siŵr bod pawb o'r un farn ar draws y Siambr. Mae'r gwasanaeth yn chwarae rhan bwysig, ac yn wir rhan lawn yn ein gwasanaethau brys. Felly, yn ogystal â bod cyfrifoldeb ar y Gweinidog i sicrhau y caiff y gwasanaeth ei gynnal, mae hynny'n rhywbeth y mae'n ymrwymo iddo hefyd.

Elin Jones: Weinidog, pasiwyd Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lloegr neithiwr. A ydych chi fel Llywodraeth wedi amcangyfrif cost y newidiadau yn Lloegr i'ch cyllideb chi?

Elin Jones: Minister, the Health and Social Care Bill was passed last night. Have you as a Government estimated the cost of these changes in England to your budget?

Jane Hutt: We have not estimated the cost, but we are fearful of what it could mean in the long term because, as with many of the other initiatives coming out of the UK coalition Government—not just in terms of legislation, but other initiatives, such as the latest one on the financing of roads—we are

Jane Hutt: Nid ydym wedi amcangyfrif y gost, ond rydym yn ofni beth y gallai ei olygu yn yr hirdymor oherwydd, fel gyda llawer o'r mentrau eraill sy'n cael eu cyflwyno gan Lywodraeth glymblaid y DU—nid yn unig o ran deddfwriaeth, ond o ran mentrau eraill hefyd megis y fenter ddiweddaraf ynghylch

very concerned about what it could mean in terms of a change to the Barnett formula, particularly with regard to the possible, and now likely, privatisation of the health service in England.

Diogelu Plant

7. Christine Chapman: *Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer diogelu plant wrth bennu'r gyllideb gyffredinol ar gyfer y portffolio Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. OAQ(4)0103(FIN)*

Jane Hutt: Safeguarding children is a priority for the Welsh Government, which has been reflected in the budget for health and social services.

Christine Chapman: Minister, I was delighted earlier today to attend the launch of Action for Children's first annual report on child neglect. I was encouraged by the strong response from the Deputy Minister for Children and Social Services. The key recommendations include ensuring sufficient provision of early intervention services, providing families with information on locally available services at the earliest opportunity, and better use of data to understand the scale of neglect. Minister, we know that the UK Government has given us the worst settlement since our creation, but can you guarantee that sufficient funding has and will be allocated to this so that we can ensure the safety of all Welsh children?

Jane Hutt: I thank Christine Chapman, acknowledging her role as Chair of the important Children and Young People Committee. I was also able to pay a visit to Action for Children today and to endorse its work on safeguarding children. It does important work on raising awareness of the plight of children who suffer neglect. On early intervention, the Welsh Government is committed to funding a range of preventive

ariannu ffyrdd—rydym yn bryderus iawn ynghylch yr hyn y gallai ei olygu o ran newid fformiwla Barnett, yn enwedig o ystyried y ffaith ei bod yn bosibl, ac erbyn hyn yn debygol, y bydd y gwasanaeth iechyd yn Lloegr yn cael ei breifateiddio.

Safeguarding Children

7. Christine Chapman: *What consideration did the Minister give to the Welsh Government's priorities for safeguarding children when setting the overall budget for the Health and Social Services portfolio. OAQ(4)0103(FIN)*

Jane Hutt: Mae diogelu plant yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru, ac mae hynny wedi'i adlewyrchu yn y gyllideb ar gyfer iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

Christine Chapman: Weinidog, roeddwn yn falch iawn o gael bod yn bresennol yn gynharach heddiw yn y digwyddiad i lansio adroddiad blynyddol cyntaf Gweithredu dros Blant ar esgeuluso plant. Cefais fy nghalonogi gan yr ymateb cadarn a gafwyd gan y Dirprwy Weinidog Plant a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae prif argymhellion yr adroddiad yn cynnwys sicrhau y ceir darpariaeth ddigonol o wasanaethau sy'n ymyrryd yn gynnar, sy'n darparu gwybodaeth i deuluoedd ar y cyfle cyntaf posibl am wasanaethau sydd ar gael yn lleol, a sicrhau y gwneir gwell defnydd o ddata i ddeall graddau unrhyw esgeulustod sy'n digwydd. Weinidog, gwyddom fod Llywodraeth y DU wedi rhoi'r setliad gwaethaf inni ers creu Llywodraeth Cymru, ond a allwch sicrhau bod digon o gyllid wedi'i ddyrannu i'r mater hwn ac y bydd digon o gyllid yn cael ei ddyrannu, fel y gallwn sicrhau bod holl blant Cymru yn ddiogel?

Jane Hutt: Rwyf yn diolch i Christine Chapman, gan gydnabod ei rôl fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, sy'n bwyllgor pwysig. Cefais innau, fel chithau, y cyfle i ymweld â Gweithredu dros Blant heddiw a chymeradwyo'r gwaith y mae'n ei wneud ar ddiogelu plant. Mae'n gwneud gwaith pwysig wrth godi ymwybyddiaeth am sefyllfa plant sy'n cael eu hesgeuluso. O safbwynt ymyrryd yn gynnar, mae

programmes, including our continued investment in Families First and doubling the reach of our flagship early years Flying Start programme from 18,000 to 36,000 children. We are doing that at a time when, over the border, Sure Start centres are being cut. I was very concerned to hear the Chancellor say in his budget statement today that the Government would have to take an extra £11 billion out of the welfare benefits budget if it is going to have a CSR at the same level of cuts that we see now. That is a real worry in terms of the future prospects of children and young people. We will do everything we can to mitigate that.

Angela Burns: Minister, as someone who has quite often said that she would like to incorporate the voice of the child in setting budgets, can you please explain to the Assembly what steps were taken in setting your current budget in order to really hear what the child wanted and not simply what all the agencies and Governments wanted? After all, in every meeting of the Children and Young People Committee, we say that it is about hearing the voice of the child or young person. I would like to see how that has really affected funding here.

Jane Hutt: I thank Angela Burns for that question because children's budgeting is a new development in terms of the tools used to undertake this effectively. The Children's Commissioner for Wales, whose annual report we debated last week, is very clear that we need to improve our profile on children's budgeting. I would like to consult the committee on how we can take this forward with the forthcoming budget.

Jocelyn Davies: Minister, you will be aware that organisations concerned with the welfare of children have come together to press for better action on tackling child neglect. They

Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ariannu ystod o raglenni ataliol, gan gynnwys ein buddsoddiad parhaus mewn Teuluoedd yn Gyntaf a dyblu nifer y plant a gaiff eu cyrraedd gan ein rhaglen flaenllaw i'r blynyddoedd cynnar, Dechrau'n Deg, o 18,000 i 36,000 o blant. Rydym yn gwneud hynny ar adeg pan fo canolfannau Cychwyn Cadarn yn cael eu diddymu dros y ffin. Roedd yn chwith iawn gennyf glywed y Canghellor yn dweud yn ei ddatganiad ynghylch y gyllideb heddiw y byddai'n rhaid i'r Llywodraeth dynnu £11 biliwn yn ychwanegol allan o'r gyllideb budd-daliadau lles os bydd yn cynnal Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant gyda'r un lefel o doriadau ag a geir yn awr. Mae hynny'n bryder gwirioneddol o ran y rhagolygon i blant a phobl ifanc yn y dyfodol. Byddwn yn gwneud popeth yn ein gallu i liniaru hynny.

Angela Burns: Weinidog, fel un sydd wedi dweud yn eithaf aml y byddai'n dymuno cynnwys llais y plentyn wrth bennu cyllidebau, a allwch esbonio wrth y Cynulliad pa gamau a gymerwyd gennych wrth bennu eich cyllideb gyfredol er mwyn clywed yn iawn yr hyn yr oedd plant yn awyddus i'w weld ac nid yr hyn yr oedd yr holl asiantaethau a'r Llywodraeth yn awyddus i'w weld yn unig? Wedi'r cyfan, ym mhob un o gyfarfodydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, rydym yn dweud mai'r hyn sy'n bwysig yw gwrando ar lais y plentyn neu'r person ifanc. Hoffwn weld sut y mae hynny wedi effeithio mewn gwirionedd ar gyllid yn y fan hon.

Jane Hutt: Rwyf yn diolch i Angela Burns am y cwestiwn hwnnw, oherwydd mae cyllidebu ar gyfer plant yn ddatblygiad newydd o ran yr adnoddau a ddefnyddir i ymgymryd â'r gwaith hwn yn effeithiol. Buom yn trafod adroddiad blynyddol Comisiynydd Plant Cymru yr wythnos diwethaf, ac mae ef yn nodi'n glir iawn bod angen inni wella ein proffil ar gyllidebu ar gyfer plant. Hoffwn ymgynghori â'r pwyllgor ynghylch sut y gallwn symud hyn yn ei flaen gyda'r gyllideb sydd ar ddod.

Jocelyn Davies: Weinidog, gwyddoch fod sefydliadau sy'n ymwneud â lles plant wedi dod ynghyd i bwysu am well gweithredu yng nghyswllt mynd i'r afael ag esgeuluso plant.

argue that other forms of abuse have become the focus for Government action when neglect is the most common form of child abuse, which ruins lives, impairs development and prevents children reaching their potential. How does your budget address that problem, and why has the Government lost its focus on neglect?

Jane Hutt: That is a very strong message that is coming in particular from Action for Children today. The facts that we are maintaining investment in health and social services in cash terms, with 43% of the Welsh Government budget being invested in health and social services, and that we are safeguarding the funding for adult and children's social services mean that local government is benefiting from a better settlement than the rest of the UK. We have to focus on the policy issues of neglect and I believe that our social services Bill will provide the legislative framework for addressing these issues.

2.00 p.m.

Eluned Parrott: Minister, given the integral role of teachers in a child's upbringing and in spotting potential cases of neglect or abuse at an early stage, how do the education and health budgets interact in terms of safeguarding children?

Jane Hutt: The interaction is very clear; I can assure Eluned Parrott of that. In terms of the work that is done at ministerial level, particularly focusing on interaction in terms of additional learning needs, the integration of education and social services, the provision of school counselling and the strength of the voice of the child in terms of the Rights of Children and Young Persons (Wales) Measure 2011. These are areas where all Ministers have a role to play, particularly in terms of health, education and social services.

Dwyrain De Cymru

Maent yn dadlau bod camau gweithredu'r Llywodraeth bellach yn canolbwyntio ar fathau eraill o gamdriniaeth, er mai esgeulustod yw'r math mwyaf cyffredin o gam-drin plant, sy'n difetha bywydau, yn amharu ar ddatblygiad plant ac yn eu hatal rhag gwireddu eu potensial. Sut y mae eich cyllideb yn mynd i'r afael â'r broblem honno, a pham y mae'r Llywodraeth wedi colli ei ffocws ar esgeuluso?

Jane Hutt: Mae hon yn neges gryf iawn, a chaiff ei chyfleu'n benodol heddiw gan Weithredu dros Blant. Mae'r ffaith ein bod yn parhau i fuddsoddi mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn nhermau arian parod, gyda 43% o gyllideb Llywodraeth Cymru yn cael ei fuddsoddi mewn iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, a'r ffaith ein bod yn diogelu cyllid ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol i oedolion a phlant, yn golygu bod llywodraeth leol yn elwa o setliad gwell na gweddill y DU. Rhaid inni ganolbwyntio ar y materion polisi sy'n ymwneud ag esgeulustod, a chredaf y bydd ein Bil gwasanaethau cymdeithasol yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn.

Eluned Parrott: Weinidog, o gofio'r rôl hanfodol y mae athrawon yn ei chwarae ym magwraeth plentyn ac yng nghyswllt sylwi yn gynnar ar achosion posibl o esgeuluso neu gam-drin plant, sut y mae'r gyllideb addysg a'r gyllideb iechyd yn rhyngweithio o safbwynt diogelu plant?

Jane Hutt: Mae'r rhyngweithio yn glir iawn; gallaf sicrhau Eluned Parrott o hynny. O ran y gwaith a wneir ar lefel weinidogol, rydym yn canolbwyntio'n arbennig ar ryngweithio o safbwynt anghenion dysgu ychwanegol, integreiddio addysg a gwasanaethau cymdeithasol, darparu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion a chryfhau llais y plentyn o ran Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'r rhain yn feysydd y mae gan bob Gweinidog rôl i'w chwarae ynddynt, yn enwedig o ran iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol.

South Wales East

8. William Graham: *Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i Ddwyrain De Cymru wrth ddyrannu'r gyllideb. OAQ(4)0096(FIN)*

Jane Hutt: We are committed to supporting economic growth across the whole of Wales. We have announced nearly £305 million in additional support for the Welsh economy over the last few months.

William Graham: That was a good answer, Minister. My question relates particularly to effective skills training. Rowecord Engineering Ltd in Newport, which built the 160m roof for the Olympic aquatic centre, had great difficulty in recruiting skilled welders and fabricators. Will you indicate how your Government has directed effective funding to South Wales East to train people in skills that local industries require?

Jane Hutt: This is an important priority of this Government and it is shared by the Minister for Education and Skills, the Deputy Minister for Skills and the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science. You will know that, from 1 April, we are creating 4,000 jobs per year with our Jobs Growth Wales scheme and are providing £30 million to Skills Growth Wales to support the creation of more than 3,000 jobs over the next three years. This links to the fact that we have committed, as a result of our decision on the economic stimulus package, to spend money on apprenticeships, the young recruits programme and additional investment in the skills base for our young people.

Uned Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

9. Bethan Jenkins: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am sut y caiff perfformiad yr Uned Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ei asesu. OAQ(4)0099(FIN)*

Jane Hutt: The performance of any division within the Welsh Government is a matter for the Permanent Secretary.

8. William Graham: *What consideration did the Minister give to South Wales East when allocating the budget. OAQ(4)0096(FIN)*

Jane Hutt: Rydym wedi ymrwymo i gefnogi twf economaidd ar draws Cymru gyfan. Rydym wedi cyhoeddi bron i £305 miliwn o gymorth ychwanegol ar gyfer economi Cymru dros yr ychydig fisoedd diwethaf.

William Graham: Roedd hwnnw'n ateb da, Weinidog. Mae fy nghwestiwn yn ymwneud yn arbennig â hyfforddiant sgiliau effeithiol. Cafodd cwmni Rowecord Engineering Ltd yng Nghasnewydd, a adeiladodd y to, sy'n mesur 160m, ar gyfer y ganolfan chwaraeon dŵr Olympaidd, drafferthion mawr wrth recriwtio weldwyr a gwneuthurwyr medrus. A wnewch chi nodi sut y mae eich Llywodraeth wedi sianelu cyllid effeithiol i Ddwyrain De Cymru i hyfforddi pobl yn y sgiliau y mae eu hangen ar ddiwydiannau lleol?

Jane Hutt: Mae hon yn flaenoriaeth bwysig i'r Llywodraeth hon, a chaiff y cyfrifoldeb amdani ei rannu gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau, y Dirprwy Weinidog Sgiliau a'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth. Gwyddoch y byddwn yn creu 4,000 o swyddi'r flwyddyn gyda'n cynllun Twf Swyddi Cymru o 1 Ebrill, ac rydym yn darparu £30 miliwn i Sgiliau Twf Cymru i gefnogi'r gwaith o greu dros 3,000 o swyddi yn ystod y tair blynedd nesaf. Ceir cysylltiad rhwng hynny a'r ffaith inni ymrwymo, o ganlyniad i'n penderfyniad ynghylch y pecyn ysgogi economaidd, i wario arian ar brentisiaethau, ar y rhaglen recriwtiaid newydd ac ar wneud buddsoddiad ychwanegol yn y sylfaen sgiliau ar gyfer ein pobl ifanc.

Equality, Diversity and Inclusion Unit

9. Bethan Jenkins: *Will the Minister make a statement about how the performance of the Equality, Diversity and Inclusion Unit is assessed. OAQ(4)0099(FIN)*

Jane Hutt: Mae perfformiad unrhyw is-adran sy'n rhan o Lywodraeth Cymru yn fater i'r Ysgrifennydd Parhaol.

Bethan Jenkins: Thank you for that answer. As you will know, the 2004 review and evaluation report of projects funded by the equality policy unit stated that, due to the EPU's lack of project scrutiny and flexibility, the All-Wales Ethnic Minority Association's approach to project management was hindered rather than helped. It is not known at this time whether the EPU has taken the same approach with other umbrella organisations or what motivation there was for adopting this particular approach. Based on the evidence viewed, we can only surmise that the EPU was systematic in its lack of management of all projects for which it was responsible. Minister, what steps were taken by Ministers following the report to improve project handling by the EPU and its successor, the equality, diversity and inclusion unit?

Jane Hutt: The Wales Audit Office review of the funding of AWEMA has commenced and it will deliver a report to the Public Accounts Committee. It is important to respond to the question by saying that there is no practical link between the current equality, diversity and inclusion division and the former equality policy unit. In fact, a great majority of staff within the current equality, diversity and inclusion division have been in post for between one and two years. It is important that we see that the workload of the division is extensive, and that includes the monitoring of grants given. The division is screening all the third sector organisations that it funds under the advancing equality fund and the inclusion fund to check the effectiveness of their corporate governance.

Mohammad Asghar: Minister, to assess the performance of the equality, diversity and inclusion unit we need reliable information, to see whether we are making progress towards greater equality in Wales. The Equality and Human Rights Commission's report, 'How fair is Wales?', highlighted this and called for better use of existing data sources and more sophisticated data-

Bethan Jenkins: Diolch am yr ateb hwnnw. Fel y gwyrddoch, roedd adolygiad 2004 a'r adroddiad gwerthuso prosiectau a ariannwyd gan yr uned polisi cydraddoldeb yn nodi bod dull Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan o reoli prosiectau wedi'i lesteirio yn hytrach na'i hwyluso gan ddiffyg gwaith craffu a hyblygrwydd ar ran yr uned polisi cydraddoldeb. Ni wyddys ar hyn o bryd a yw'r uned polisi cydraddoldeb wedi cymryd yr un agwedd â sefydliadau ymbarél eraill, na beth oedd ei chymhelliant dros fabwysiadu'r dull penodol hwn o weithredu. Ar sail y dystiolaeth a welwyd, ni allwn ond dyfalu i'r uned polisi cydraddoldeb ddangos diffyg systematig wrth reoli'r holl brosiectau yr oedd yn gyfrifol amdanynt. Weinidog, pa gamau a gymerwyd gan Weinidogion yn dilyn yr adroddiad i wella'r modd y byddai'r uned polisi cydraddoldeb a'i olynydd, sef yr uned cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ymdrin â phrosiectau?

Jane Hutt: Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi dechrau ei hadolygiad o'r modd yr ariannwyd Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, a bydd y Swyddfa'n cyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus. Mae'n bwysig ymateb i'r cwestiwn trwy ddweud nad oes cysylltiad ymarferol rhwng yr is-adran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bresennol a'r uned polisi cydraddoldeb flaenorol. Yn wir, mae mwyafrif helaeth y staff yn yr is-adran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant bresennol wedi bod yn eu swydd am gyfnod sy'n amrywio o flwyddyn i ddwy flynedd. Mae'n bwysig inni weld bod llwyth gwaith yr adran yn helaeth, ac mae hynny'n cynnwys monitro'r grantiau a roddir. Mae'r is-adran yn sgrinio'r holl sefydliadau yn y trydydd sector y mae'n eu hariannu dan y gronfa hyrwyddo cydraddoldeb a'r gronfa gynhwysiant i wirio effeithiolrwydd eu trefniadau llywodraethu corfforaethol.

Mohammad Asghar: Weinidog, mae angen gwybodaeth ddibynadwy arnom er mwyn asesu perfformiad yr uned cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, i weld a ydym yn gwneud cynnydd o ran sicrhau mwy o gydraddoldeb yng Nghymru. Roedd adroddiad y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, 'Pa mor deg yw Cymru?', yn tynnu sylw at hyn, ac roedd yn galw am

collection techniques. What is the Welsh Government doing in partnership with others to improve the availability of equality data so that we can monitor progress in Wales effectively?

Jane Hutt: I thank Mohammad Asghar for that point. Of course, we work very closely with the Equality and Human Rights Commission. It will be the regulatory body for our strategic equality plan, in terms of delivering on our specific public sector duties, which apply to the whole of the public sector in Wales. With regard to data provision, the information and the reports that the commission provides for us, particularly on the equality dimension in the delivery of public services, are vital to us.

Pwerau Benthycia

10. Alun Ffred Jones: *A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cynulliad am drafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ynglŷn â phwerau benthycia. OAQ(4)0097(FIN)*

Jane Hutt: Regular discussions with the UK Government on funding reform include pressing for the Welsh Government to be allowed to use its existing borrowing powers to finance infrastructure investment.

Alun Ffred Jones: There was a statement this morning from the Secretary of State for Scotland, stating that the Scotland Bill provides for the biggest transfer of fiscal power from London since the creation of the United Kingdom, including a Scottish rate of income tax, full devolution of stamp duty, land tax, landfill tax and new borrowing powers. What exactly have you, as the Welsh Government, asked for? Have you expressed this in written form to the Treasury?

Jane Hutt: This is a key part of our intergovernmental talks, which have been

ddefnyddio ffynonellau data sy'n bodoli eisoes yn well a defnyddio technegau casglu data mwy soffistigedig. Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud mewn partneriaeth ag eraill i wella argaeledd data ynghylch cydraddoldeb fel y gallwn fonitro'r cynnydd a wneir yng Nghymru yn effeithiol?

Jane Hutt: Diolch i Mohammad Asghar am nodi'r pwynt hwnnw. Wrth gwrs, rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. Y Comisiwn hwn fydd y corff sy'n rheoleiddio ein cynllun cydraddoldeb strategol, o ran cyflawni ein dyletswyddau penodol fel corff sector cyhoeddus, sy'n berthnasol i'r sector cyhoeddus cyfan yng Nghymru. O ran darparu data, mae'r wybodaeth a'r adroddiadau y mae'r Comisiwn yn eu darparu inni, yn enwedig ynghylch y dimensiwn cydraddoldeb wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, yn hanfodol inni.

Borrowing Powers

10. Alun Ffred Jones: *Will the Minister update the Assembly on discussions between the Welsh Government and the UK Government regarding borrowing powers. OAQ(4)0097(FIN)*

Jane Hutt: Mae trafodaethau rheolaidd a gynhelir â Llywodraeth y DU ynghylch diwygio trefniadau cyllido yn cynnwys mynnu bod Llywodraeth Cymru yn cael yr hawl i ddefnyddio ei phwerau benthycia presennol i ariannu buddsoddiad mewn seilwaith.

Alun Ffred Jones: Cafwyd datganiad y bore yma gan Ysgrifennydd Gwladol yr Alban, a oedd yn nodi bod Bil yr Alban yn darparu ar gyfer yr achos mwyaf o drosglwyddo grym ariannol o Lundain ers creu'r Deyrnas Unedig, ac mae'n cynnwys creu cyfradd treth incwm yn benodol i'r Alban, datganoli'n llawn y dreth stamp, y dreth tir a'r dreth tirlenwi, a chyflwyno pwerau benthycia newydd. Beth yn union yr ydych chi, Llywodraeth Cymru, wedi gofyn amdano? A ydych wedi mynegi hynny'n ysgrifenedig i'r Trysorlys?

Jane Hutt: Mae hon yn rhan allweddol o'n trafodaethau rhynglywodraethol, y cytunwyd

agreed on, with regard to the opportunities to secure and use the borrowing powers that we already have as a result of the Welsh Development Agency powers that we inherited on merger. Clearly, those intergovernmental talks are key for some of the major infrastructure projects that we seek to take forward. I look forward to reporting back on my intergovernmental talks in due course.

Darren Millar: Minister, I would certainly contend that the National Assembly for Wales ought to have further borrowing powers. It is unreasonable that town and community councils have significant borrowing powers and, yet, this institution does not. One thing that concerns many of my constituents is the fact that, when Labour was in control of the UK Parliament, the national debt doubled. As a consequence of your previous Government's borrowing, our country is now paying £120 million per day on that debt. What assurances can you give to my constituents, concerned about the way that you may use those borrowing powers, that they will be used sensibly in the future?

Jane Hutt: The Silk commission, interestingly, undertook a poll last week that revealed that 66% of people were in favour of the Welsh Government being able to borrow money to spend on capital projects, such as building roads and hospitals. The people of Wales, like you, Darren Millar, Alun Ffred Jones and the Welsh Liberal Democrats, all agree that we should have borrowing powers, and agree that we are also taking responsibility for managing a reduced budget very effectively. The fact that I levered in another £170 million of capital spend in this financial year has demonstrated our responsibility. With regard to management of budget, last year, your Government and the Office for Budget Responsibility predicted a 2.5% growth rate, yet, today the OBR says that the growth rate is only 0.8%. What is the Government doing in Westminster to back the economic recovery of this country?

Dyraniadau o'r Cronfeydd Wrth Gefn i Fyrddau Iechyd Lleol

anynt, ynghylch y cyfleoedd i sicrhau a defnyddio'r pwerau benthyca sydd gennym eisoes o ganlyniad i bwerau Awdurdod Datblygu Cymru a etifeddwyd gennym adeg ein huno. Yn amlwg, mae'r trafodaethau rhynglywodraethol hynny'n allweddol ar gyfer rhai o'r prosiectau seilwaith mawr yr ydym yn awyddus i'w datblygu. Edrychaf ymlaen at adrodd yn ôl ar y trafodaethau rhynglywodraethol yr wyf yn eu cael maes o law.

Darren Millar: Weinidog, byddwn yn sicr yn dadlau y dylai Cynulliad Cenedlaethol Cymru gael mwy o bwerau benthyca. Mae'n afresymol bod gan gynghorau tref a chymuned bwerau benthyca sylweddol, ac eto nid oes gan y sefydliad hwn bwerau o'r fath. Un peth sy'n pryderu llawer o'm hetholwyr yw'r ffaith i'r ddyled genedlaethol ddyblu yn ystod y cyfnod pan oedd Llafur yn rheoli Senedd y DU. O ganlyniad i'r holl fenthyca a wnaed gan eich Llywodraeth flaenorol chi, mae ein gwlad bellach yn talu £120 miliwn y dydd ar y ddyled honno. Pa sicrwydd y gallwch ei roi i'm hetholwyr, sy'n pryderu am y modd y gallech ddefnyddio'r pwerau benthyca hynny, y byddant yn cael eu defnyddio'n synhwyrol yn y dyfodol?

Jane Hutt: Yn ddiddorol iawn, cynhaliodd comisiwn Silk arolwg barn yr wythnos diwethaf, a ddangosodd fod 66% o bobl o blaid caniatáu i Lywodraeth Cymru fenthyca arian i'w wario ar brosiectau cyfalaf, megis adeiladu ffyrdd ac ysbytai. Mae pobl Cymru, fel chi, Darren Millar, Alun Ffred Jones a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, i gyd yn cytuno y dylem gael pwerau benthyca, ac yn cytuno ein bod hefyd yn cymryd cyfrifoldeb am reoli cyllideb lai mewn modd effeithiol iawn. Mae'r ffaith imi ysgogi £170 miliwn arall o wariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol hon wedi dangos ein bod yn gweithredu'n gyfrifol. O ran rheoli'r gyllideb, llynedd roedd eich Llywodraeth chi a'r Swyddfa Cyfrifoldeb am Gyllidebau yn rhagweld cyfradd twf o 2.5%, ac eto heddiw mae'r Swyddfa honno'n dweud mai dim ond 0.8% yw'r gyfradd twf. Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud yn San Steffan i gefnogi adferiad economaidd y wlad hon?

Allocations from Reserves to Local Health Boards

11. Ieuan Wyn Jones: *A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddyraniadau o'r cronfeydd wrth gefn i Fyrddau Iechyd Lleol yn 2011-12. OAQ(4)0098(FIN)*

Jane Hutt: In 2011-12, we transferred £93 million from central reserves to the NHS delivery budget for local health boards.

Ieuan Wyn Jones: When the trusts were abolished and the local health boards established, there were outstanding loans of around £50 million. I am told that those loans were reclassified. Is that another way of saying that they were written off?

Jane Hutt: As Ieuan Wyn Jones will appreciate, the key point for us now is to move forward with a sustainable financial framework, which is what I believe that we have achieved, working with the Minister for Health and Social Services. The fact that we allocated £142.5 million to health in the supplementary budget is an indication of our commitment, which I know that you share, to ensure that we can continue to sustain our national publicly provided health service in Wales.

Janet Finch-Saunders: In 2009, waiting-time targets for physiotherapy services were revised to 14 weeks, with just one person waiting over that target in December of that year. However, in December 2011, 1,547 people were waiting over that target. The Chartered Society of Physiotherapy has expressed concerns over the loss of some 40 physiotherapy posts in Wales. Minister, how will you work with the Minister for Health and Social Services to ensure that your budgetary cuts are not negatively affecting important front-line health services in Wales?

Jane Hutt: Janet Finch-Saunders has not appreciated the positive impact of the additional funding that we have put into the

11. Ieuan Wyn Jones: *Will the Minister make a statement on allocations from reserves to Local Health Boards in 2011-12. OAQ(4)0098(FIN)*

Jane Hutt: Yn 2011-12 trosglwyddwyd £93 miliwn gennym o'r cronfeydd wrth gefn canolog i gyllideb gyflenwi'r GIG ar gyfer byrddau iechyd lleol.

Ieuan Wyn Jones: Adeg diddymu'r ymddiriedolaethau a sefydlu'r byrddau iechyd lleol, roedd gwerth oddeutu £50 miliwn o fenthyciadau heb eu talu. Rwyf ar ddeall bod y benthyciadau hynny wedi'u hailddosbarthu. Ai ffordd arall yw hynny o ddweud eu bod wedi'u dileu?

Jane Hutt: Fel y bydd Ieuan Wyn Jones yn ei werthfawrogi, y pwynt pwysig inni yn awr yw symud ymlaen â fframwaith ariannol cynaliadwy, a chredaf mai dyna'r ydym wedi'i gyflawni, gan weithio gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Mae'r ffaith inni ddyrannu £142.5 miliwn i iechyd yn y gyllideb atodol yn arwydd o'n hymrwymiad, a'ch ymrwymiad chi hefyd mi wn, i sicrhau y gallwn barhau i gynnal ein gwasanaeth iechyd gwladol, sy'n wasanaeth cyhoeddus, yng Nghymru.

Janet Finch-Saunders: Yn 2009, cafodd y targedau ar gyfer amserau aros am wasanaethau ffisiotherapi eu hadolygu a'u newid i 14 wythnos. Ym mis Rhagfyr y flwyddyn honno dim ond un person oedd wedi aros yn hwy na'r targed hwnnw. Fodd bynnag, ym mis Rhagfyr 2011 roedd 1,547 o bobl yn aros yn hwy na'r targed hwnnw. Mae Cymdeithas Siartredig Ffisiotherapi wedi mynegi pryderon ynghylch y ffaith i oddeutu 40 o swyddi ffisiotherapi gael eu colli yng Nghymru. Weinidog, sut y byddwch yn gweithio gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau nad yw'r toriadau yr ydych yn eu gwneud i'r gyllideb yn cael effaith negyddol ar wasanaethau iechyd rheng flaen pwysig yng Nghymru?

Jane Hutt: Nid yw Janet Finch-Saunders wedi gwerthfawrogi effaith gadarnhaol y cyllid ychwanegol yr ydym wedi'i roi i'r

health service. We could go back to the budget discussions, where the cuts that you were going to make to local government, education and the economy, had you taken forward your budget or had it been supported, would have had a detrimental impact on the health, social care and wellbeing of the people of Wales. Our investment is ensuring that we keep our publicly provided health service sustainable. In terms of what will happen and what is already happening over the border, the marketisation and competition in the delivery of health services will be not only costly but inefficient, and we see that waiting lists are already rising in England.

Aled Roberts: Weinidog, dywedoch mewn ateb i gwestiwn blaenorol eich bod yn ffyddiog na fydd y byrddau iechyd yn gorwario erbyn diwedd y flwyddyn. Ym mis Ionawr, cafwyd adroddiad bod gorwario Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr yn £6.1 miliwn ac y byddai'n cyfarfod yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth i drafod y sefyllfa ymhellach. A ydych wedi derbyn adroddiad ganddo? Beth yn union y byddwch yn ei wneud erbyn diwedd y mis os nad yw'r gorwariant o dan reolaeth?

Jane Hutt: These are questions for the Minister for Finance, not questions for the Minister for Health and Social Services. I will repeat again that, working with the Minister for Health and Social Services, we are closely monitoring the progress that each NHS organisation is making.

Trethi

12. Alun Ffred Jones: *A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw asesiad o'r trethi penodol y mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylid eu datganoli i Gymru. OAQ(4)0102(FIN)*

Jane Hutt: Rwyf o'r farn bod y ddadl dros ddatganoli trethi ar ei chryfaf pan fydd treth yn gydnaws â maes cyfrifoldeb sydd wedi'i ddatganoli.

Alun Ffred Jones: A gawn ni ychydig yn fwy o eglurder ynglŷn â pha drethi mae

gwasanaeth iechyd. Gallem fynd yn ôl i'r trafodaethau a gafwyd ynghylch y gyllideb, lle y byddai'r toriadau yr oeddech chi'n bwriadu eu gwneud i lywodraeth leol, addysg a'r economi, pe baech wedi cyflwyno eich cyllideb neu pe bai wedi cael ei chefnogi, wedi cael effaith niweidiol ar iechyd, gofal cymdeithasol a lles pobl Cymru. Mae ein buddsoddiad yn sicrhau bod ein gwasanaeth iechyd, sy'n wasanaeth cyhoeddus, yn parhau'n gynaliadwy. O ran yr hyn fydd yn digwydd a'r hyn sydd eisoes yn digwydd dros y ffin, bydd marchnadeiddio gwasanaethau iechyd a chyflwyno cystadleuaeth i'r broses o'u darparu yn gostus ac yn aneffeithlon hefyd, a gwelwn fod rhestrau aros eisoes ar gynydd yn Lloegr.

Aled Roberts: Minister, you stated in response to a previous question that you are confident that the health boards will not overspend by the end of the year. In January, there was a report that the Betsi Cadwaladr University Local Health Board overspend was £6.1 million and that it would meet during the first week of March to discuss the situation further. Have you received a report from it? What exactly will you do by the end of the month if the overspend is not under control?

Jane Hutt: Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid yw'r rhain, ac nid i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedaf eto ein bod yn gweithio gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gadw llygad barcud ar y cynnydd y mae pob un o sefydliadau'r GIG yn ei wneud.

Taxation

12. Alun Ffred Jones: *Has the Minister made any assessment of the specific taxation that the Welsh Government considers should be devolved to Wales. OAQ(4)0102(FIN)*

Jane Hutt: I believe that the case for tax devolution is strongest where a tax is well-aligned with an area of devolved responsibility.

Alun Ffred Jones: Can we have a little more clarity as to which taxes the Welsh

Llywodraeth Cymru wedi gofyn am eu datganoli a beth yw cyfanswm gwerth y trethi hynny?

Jane Hutt: We are giving evidence to the Silk commission on these important points. In fact, the commission is looking at the financial aspects of the devolution settlement and, as you know, will report later this year. We have been quite clear, and the First Minister has said, that we support devolution of those taxes to Wales as part of a wider package of reform that relates to policy responsibility. We have already mentioned air passenger duty this afternoon. I have mentioned stamp duty, land tax, the aggregates levy and landfill tax. They all fall within this category. It is important that we look at, and I am sure that we will move to cost, the impact of that in terms of the devolution of those taxes. However, we have to ensure that we move forward in terms of opportunities for wider debate in the Silk commission's considerations.

2.15 p.m.

Suzy Davies: As you say, Minister, the Silk commission is considering the matter at the moment, and many and varied opinions have been presented to it. Do you agree that it is appropriate to wait to see what is in its report before trying to distinguish between what could and what should be devolved?

Jane Hutt: The Silk commission is out and about holding public meetings. It held a public meeting only last week, and it conducted a very interesting and useful poll to test public opinion, which showed that there is a great deal of public interest in tax devolution as well as in the important points that have been made about borrowing powers. We should be engaged—as I think we shall be later on in a debate this afternoon, and as we were last week—as the people of Wales are, in discussing these important issues.

Government has asked to be devolved and what is the total value of those taxes?

Jane Hutt: Rydym yn cyflwyno tystiolaeth i gomisiwn Silk ynghylch y pwyntiau pwysig hyn. Yn wir, mae'r comisiwn yn edrych ar agweddau ariannol y setliad datganoli, ac fel y gwyddoch, bydd yn cyflwyno adroddiad yn ddiweddarach eleni. Rydym wedi bod yn eithaf clir, ac mae'r Prif Weinidog wedi dweud ein bod yn cefnogi datganoli'r trethi hynny i Gymru sy'n gysylltiedig â chyfrifoldeb polisi, yn rhan o becyn diwygio ehangach. Rydym eisoes wedi crybwyll y doll teithwyr awyr y prynhawn yma. Rwyf wedi crybwyll y dreth stamp, y dreth tir, yr ardoll agregau a'r dreth tirlenwi. Maent i gyd yn perthyn i'r categori hwn. Mae'n bwysig inni edrych ar effaith datganoli'r trethi hynny, ac rwyf yn siŵr y byddwn yn symud ymlaen i gyfrifo effaith gwneud hynny. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau ein bod yn symud ymlaen o ran y cyfleoedd i gael trafodaeth ehangach ynghylch ystyriaethau comisiwn Silk.

Suzy Davies: Fel y bu ichi ddweud, Weinidog, mae comisiwn Silk yn ystyried y mater ar hyn o bryd, a chyflwynwyd nifer o safbwyntiau amrywiol i'r comisiwn. A ydych yn cytuno ei bod yn briodol aros i weld beth sydd yn ei adroddiad cyn ceisio gwahaniaethu rhwng yr hyn a allai gael ei ddatganoli a'r hyn a ddylai gael ei ddatganoli?

Jane Hutt: Mae comisiwn Silk wrthi'n teithio o gwmpas yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus. Cynhaliodd gyfarfod cyhoeddus mor ddiweddar â'r wythnos diwethaf, a chynhaliodd arolwg barn diddorol a defnyddiol iawn i gael gwybod beth yw barn y cyhoedd. Dangosodd yr arolwg barn hwnnw fod gan y cyhoedd lawer iawn o ddi-ddordeb mewn datganoli trethi yn ogystal â'r pwyntiau pwysig a wnaed ynghylch pwerau benthyca. Dylem ninnau, fel pobl Cymru, gymryd rhan mewn trafodaethau am y materion pwysig hyn—ac rwyf yn deall y byddwn yn gwneud hynny yn y man mewn dadl y prynhawn yma, fel y gwnaethom yr wythnos diwethaf.

I go back to the point that I made earlier: inter-governmental talks are critical to getting a fairer funding base before we go down this route. I am sure that I have the backing of this Assembly, as I go to my talks and meetings with the Chief Secretary to the Treasury, in saying that we need to follow through on the recommendations of the Holtham commission to secure a funding floor to halt convergence, to get a fair funding settlement and to get the borrowing powers that we need to stimulate the economy in Wales.

Af yn ôl at y pwynt a wneuthum yn gynharach: mae cynnal trafodaethau rhynglywodraethol yn hanfodol wrth gael sylfaen ariannu decach cyn inni droedio'r llwybr hwn. Rwyf yn siŵr bod y Cynulliad hwn yn fy nghefnogi wrth imi gynnal trafodaethau a chyfarfodydd â Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys, pan fyddaf yn dweud bod angen inni weithredu argymhellion comisiwn Holtham i sicrhau terfyn ariannu isaf i atal cydgyfeirio, sicrhau setliad ariannu teg a chael y pwerau benthyca y mae eu hangen arnom i ysgogi'r economi yng Nghymru.

Cwestiynau i'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth Questions to the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science

Creu Swyddi yng Ngorllewin Cymru

I. Angela Burns: *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog creu swyddi yng ngorllewin Cymru. OAQ(4)0103(BET)*

The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science (Edwina Hart): The programme for government sets out our priorities for growth and sustainable jobs throughout Wales.

Angela Burns: You will be aware that the Institute of Chartered Accountants in England and Wales and Grant Thornton business confidence index showed this month that, for the first quarter of 2012, business confidence dropped to its lowest point for three years, obviously affecting start-up businesses and leading to less job creation, investment and training, particularly in areas such as west Wales, where there is a whole host of other issues. Minister, will you welcome the coalition Government's national loan guarantee scheme, which may aid some businesses in starting up? Also, can you outline what you will be doing to increase business confidence in areas such as west Wales, and, in particular, what might you be able to do to encourage greater take-up of the national loan guarantee scheme?

Edwina Hart: I welcome all interventions on

Job Creation in West Wales

I. Angela Burns: *What steps is the Welsh Government taking to encourage job creation in west Wales. OAQ(4)0103(BET)*

Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth (Edwina Hart): Mae'r rhaglen lywodraethu yn egluro ein blaenoriaethau ar gyfer twf a swyddi cynaliadwy ledled Cymru.

Angela Burns: Byddwch yn ymwybodol bod mynegai hyder busnesau Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr a Grant Thornton wedi dangos y mis hwn bod hyder busnesau wedi gostwng i'w bwynt isaf ers tair blynedd yn ystod chwarter cyntaf 2012, gan effeithio, mae'n amlwg, ar nifer y busnesau a oedd yn dechrau a chan arwain at greu llai o swyddi ac at lai o fuddsoddi a hyfforddiant, yn enwedig mewn ardaloedd megis y gorllewin, lle y ceir llu o broblemau eraill. Weinidog, a wnewch chi groesawu cynllun gwarantu benthyciadau cenedlaethol y Llywodraeth glymblaid, a allai gynorthwyo rhai busnesau i ddechrau arni? A allwch hefyd amlinellu beth y byddwch yn ei wneud i gynyddu hyder busnesau mewn ardaloedd megis y gorllewin, ac yn benodol, beth y gallech fod yn ei wneud i annog mwy o bobl i fanteisio ar y cynllun gwarantu benthyciadau cenedlaethol?

Edwina Hart: Rwyf yn croesawu pob

behalf of Government, whether here or at Westminster, with regard to giving confidence to businesses, because I think that that is enormously important. It is important that we start to talk up businesses in Wales, where they are leading the way in the market. I believe that our economic growth fund, our fund for creative industries and so on is giving the appropriate boost to businesses, and I very much hope that we can go forward with confidence from these difficult times into rather better times, with the encouragement of money into businesses, dealing with the issue around the banks, and dealing with the education and training agenda, which I think that we as a Government are dealing with very well, to support businesses.

Keith Davies: Fel y gwyddoch, mae rhaglen rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Gâr, sef strategaeth adfywio ar gyfer glannau Llanelli. Croesawaf ddatganiad yr wythnos diwethaf sy'n ychwanegu safle gwaith yr Hen Gastell at y fenter ar y cyd, gan ystyried ei ddefnyddio i greu canolfan hamdden newydd. Bydd hyn yn rhoi hwb pellach i'r cynlluniau a'r economi leol a bydd yn creu sawl swydd newydd.

Yn ogystal â'r arian oddi wrth Gyngor Sir Gâr a ffynonellau eraill, mae buddsoddiad o £7.5 miliwn yn dangos y weithred bositif a wnaed i'n cymunedau gan Lywodraeth Cymru ac arian yr Undeb Ewropeaidd. O ystyried yr amser caled a'r pwysau ariannol sy'n wynebu teuluoedd, ymysg y toriadau, a yw'r Gweinidog yn cytuno ar bwysigrwydd dulliau buddsoddi fel hyn a fydd yn darparu'r adfywio sydd ei angen ar ein cymunedau?

Edwina Hart: Regeneration is the key. The Minister for Housing, Regeneration and Heritage and I were particularly pleased to give our support to this joint venture in Llanelli. My officials are meeting Carmarthenshire County Council officers tomorrow to progress this development, which I think will be excellent news for the community.

Alun Ffred Jones: I welcome the economic growth grants awarded to some companies in my constituency of Arfon. Of course, not all

ymyriad ar ran Llywodraeth, boed yn y fan hon neu yn San Steffan, o safbwynt rhoi hyder i fusnesau, gan fod hynny'n hanfodol bwysig, yn fy marn i. Mae'n bwysig ein bod yn dechrau hyrwyddo busnesau yng Nghymru os ydynt yn arwain y ffordd yn y farchnad. Credaf fod ein cronfa twf economaidd, sef ein cronfa ar gyfer diwydiannau creadigol ac yn y blaen, yn rhoi'r hwb priodol i fusnesau, a gobeithiaf yn fawr y gallwn symud ymlaen gyda hyder o'r cyfnod anodd hwn i gyfnod ychydig yn well, gan annog pobl i fuddsoddi arian mewn busnesau, ymdrin â'r mater ynghylch y banciau, ac ymdrin â'r agenda addysg a hyfforddiant, sy'n rhywbeth yr ydym ni fel Llywodraeth yn ymdrin ag ef yn dda iawn, yn fy marn i, i gefnogi busnesau.

Keith Davies: As you know, there is a joint programme between the Welsh Government and Carmarthenshire County Council for the regeneration of the Llanelli coastline. I welcome the announcement made last week, adding the Old Castle site to the joint venture, with consideration given to using it for a new leisure centre. This will give a further boost to plans for the local economy and create a number of new jobs.

In addition to the funding from Carmarthenshire County Council and other sources, an investment of £7.5 million demonstrates the positive contribution made to our communities by the Welsh Government and European funding. Bearing in mind the difficult times and the financial pressures facing families, among the cuts, does the Minister agree on the importance of such investment methods in providing the regeneration needed in our communities?

Edwina Hart: Mae adfywio yn allweddol. Roeddwn i a'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn hynod o falch o allu cefnogi'r fenter hon yn Llanelli, sy'n fenter ar y cyd. Bydd fy swyddogion yn cyfarfod â swyddogion Cyngor Sir Caerfyrddin yfory i symud y datblygiad hwn yn ei flaen, a fydd yn newyddion gwych i'r gymuned, yn fy marn i.

Alun Ffred Jones: Rwyf yn croesawu'r grantiau twf economaidd a ddyfarnwyd i rai cwmnïau yn fy etholaeth i yn Arfon. Wrth

applications are successful. May I have confirmation that your officials will engage with one of those unsuccessful companies, Connect Hygiene Ltd, where 80 jobs or more hang in the balance?

Edwina Hart: I can confirm that my officials have engaged with that company and will continue to do so. If Members have approaches from companies that may have been disappointed about the allocations from the fund, if they approach me directly, I will ensure that the necessary discussions take place.

William Powell: Minister, a key element in job creation is the ongoing growth of small and medium sized businesses. Many such businesses in west Wales are currently being stifled by their lack of access to adequate broadband services. What direct initiatives are you currently undertaking in west Wales, particularly in the former Dyfed region, to tackle not spots and to ensure that residents and business owners do not receive a second-class service in comparison with their neighbours in south-east Wales?

Edwina Hart: It is important that we recognise where the not spots are and the difficulties they are causing for businesses, across not only west and mid Wales, but elsewhere, even in urban areas. We have a scheme that has been quite successful, which we have been marketing. Hopefully, when we are able to agree the contract for the roll-out of next generation broadband, we will be able to tackle some of those issues. I hope that I will have more detail on that when we return from recess.

Diwydiant Llaeth

2. Darren Millar: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gymorth i'r diwydiant llaeth yng Nghymru. OAQ(4)0110(BET)

12. Llyr Huws Gruffydd: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei blaenoriaethau ar gyfer y diwydiant llaeth.

gwrs, nid yw pob cais yn llwyddiannus. A gaf gadarnhad y bydd eich swyddogion yn ymgysylltu ag un o'r cwmnïau aflwyddiannus hynny, Connect Hygiene Ltd, lle y mae 80 neu ragor o swyddi yn y fantol?

Edwina Hart: Gallaf gadarnhau bod fy swyddogion wedi ymgysylltu â'r cwmni hwnnw, ac y byddant yn parhau i wneud hynny. Os bydd cwmnïau a oedd efallai'n siomedig ynghylch y dyraniadau a wnaed o'r gronfa yn cysylltu â'r Aelodau, gallant gysylltu â mi'n uniongyrchol a byddaf yn sicrhau bod y trafodaethau angenrheidiol yn cael eu cynnal.

William Powell: Weinidog, un elfen allweddol wrth greu swyddi yw twf parhaus busnesau bach a chanolig. Mae llawer o fusnesau o'r fath yn y gorllewin yn cael eu llesteirio ar hyn o bryd gan ddiffyg mynediad i wasanaethau band eang digonol. Pa fentrau uniongyrchol yr ydych yn eu cynnal ar hyn o bryd yn y gorllewin, yn enwedig yn yr hen Ddyfed, i fynd i'r afael â manau gwan o ran band eang a sicrhau nad yw preswylwyr a pherchnogion busnesau'n cael gwasanaeth eilradd o'u cymharu â'u cymdogion yn y de-ddwyrain?

Edwina Hart: Mae'n bwysig ein bod yn cydnabod ym mhle y mae'r manau gwan a pha anawsterau y maent yn eu peri i fusnesau, nid ar draws y gorllewin a'r canolbarth yn unig, ond hefyd mewn manau eraill, sy'n cynnwys ardaloedd trefol hyd yn oed. Mae gennym gynllun sydd wedi bod yn eithaf llwyddiannus, yr ydym wedi bod yn ei farchnata. Pan fyddwn yn gallu cytuno ar y contract ar gyfer cyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf, y gobaith yw y byddwn yn gallu mynd i'r afael â rhai o'r materion hynny. Gobeithiaf y bydd gennyf fwy o fanylion am hynny pan fyddwn yn dychwelyd ar ôl y toriad.

Dairy Industry

2. Darren Millar: Will the Minister make a statement on support for the Welsh dairy industry. OAQ(4)0110(BET)

12. Llyr Huws Gruffydd: Will the Minister make a statement on her priorities for the dairy industry. OAQ(4)0104(BET)

OAQ(4)0104(BET)

The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies): The Welsh Government supports a long-term sustainable and profitable dairy industry. I meet stakeholders from across the dairy supply chain frequently and we will hold a dairy summit in June to discuss priorities for the way forward.

Darren Millar: Thank you for that answer, Deputy Minister. You recently established the food and farming sector panel, which I very much welcome, but representation from the dairy industry and, in particular, producers within that industry, namely the processors, does not feature heavily on the panel. Will you join me in congratulating Gareth and Falmai Roberts at Llaeth y Llan in my constituency on their successful enterprise, and what will you do to redress the imbalance on the food and farming sector panel to ensure that there is adequate representation in future?

Alun Davies: I certainly will join you in congratulating Gareth and Falmai on the work that they have done in Llaeth y Llan. They have done a tremendous job there, and I know that they have received some support from the Welsh Government in doing so. The Minister for Business, Enterprise, Technology and Science made appointments to a number of sector panels, including that for food and farming. Those people are appointed as individuals, rather than as representatives of industries or sectors. You will be aware that Dai Davies is a part of that panel. He has a long track record in the dairy industry. The purpose of doing this was to bring the food and farming sectors into the mainstream of the economic work of this Government, and I hope, and I know, that farmers and the food sector are grateful to this Government for doing that.

Llyr Huws Gruffydd: Wrth gyhoeddi'r adroddiad 'Hwyluso'r Drefn' ychydig wythnosau yn ôl, pwysleisioch y pwysigrwydd o greu perthynas o ymddiriedaeth rhwng y Llywodraeth a'r

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies): Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi diwydiant llaeth sy'n broffidiol ac yn gynaliadwy yn yr hirdymor. Byddaf yn cyfarfod â rhanddeiliaid o bob rhan o'r gadwyn cyflenwi llaeth yn aml, a byddwn yn cynnal uwchgynhadledd y diwydiant llaeth ym mis Mehefin i drafod blaenoriaethau ar gyfer y ffordd ymlaen.

Darren Millar: Diolch am yr ateb hwnnw, Ddirprwy Weinidog. Yn ddiweddar, bu ichi sefydlu panel y sector bwyd a ffermio, ac rwyf yn croesawu hynny'n fawr, ond nid yw'r panel yn cynnwys cynrychiolaeth gref o'r diwydiant llaeth ac, yn enwedig, cynhyrchwyr yn y diwydiant hwnnw, hynny yw y sawl sy'n prosesu llaeth. A wnewch chi ymuno â mi i longyfarch Gareth a Falmai Roberts yn Llaeth y Llan yn fy etholaeth ar eu menter lwyddiannus, a beth y byddwch yn ei wneud i unioni'r anghydbwysedd ym mhanel y sector bwyd a ffermio i sicrhau y ceir cynrychiolaeth ddigonol yn y dyfodol?

Alun Davies: Yn sicr, hoffwn ymuno â chi i longyfarch Gareth a Falmai ar y gwaith y maent wedi'i wneud yn Llaeth y Llan. Maent wedi gwneud gwaith rhagorol yno, a gwn iddynt gael rhywfaint o gymorth gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny. Y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth fu'n penodi unigolion i nifer o baneli sector, gan gynnwys y panel ar gyfer bwyd a ffermio. Caiff y bobl hynny eu penodi fel unigolion, ac nid fel cynrychiolwyr unrhyw ddiwydiannau neu sectorau. Byddwch yn ymwybodol bod Dai Davies yn aelod o'r panel hwnnw. Mae ganddo hanes hir yn y diwydiant llaeth. Diben sefydlu'r panel oedd cynnwys y sector bwyd a'r sector ffermio ym mhrif ffrwd gwaith economaidd y Llywodraeth hon, ac rwyf yn gobeithio ac yn gwybod bod ffermwyr a'r sector bwyd yn ddiolchgar i'r Llywodraeth hon am wneud hynny.

A delay of a year before elections are held on the island is unacceptable. If any council is in need of democratic renewal, it is Ynys Môn, and the best way of ensuring democratic renewal is through holding elections.

Ieuan Wyn Jones: Rwy'n siomedig bod y Democratiaid Rhyddfrydol wedi penderfynu dod â'r mater hwn gerbron. Mae'r holl drafodaeth ynglŷn â dyfodol y cyngor sir wedi bod yn fater o bryder i bawb. Er bod y dewis yn anodd a'n bod i gyd yn siomedig ein bod yn gorfod gohirio etholiadau, nid oedd llawer o ddewis yn wynebu'r Gweinidog. Hoffwn amlinellu rhai o'r

llawer o gynghorau sir sy'n cynnwys wardiau un aelod yn unig yn wynebu'r un anawsterau gwleidyddol â'r rhai a arweiniodd at benodi comisiynwyr. Yn yr un modd, ceir cynghorau â wardiau aml-aelod nad ydynt yn gweithredu'n effeithiol.

Mae'r cyngor newydd orfod pasio cyllideb a argymhellwyd iddo gan y comisiynwyr. O ystyried y sefyllfa, a'r ffaith bod y cyngor dan oruchwyliaeth lem gan y Llywodraeth, byddai wedi bod yn amhosibl mewn gwirionedd i'r cyngor wrthod y gyllideb. Mae hynny wedi arwain at gynnydd o 4.5% yn y dreth gyngor y flwyddyn nesaf, sef y cynnydd uchaf mewn unrhyw gyngor yng Nghymru a Lloegr. Os na fydd etholiadau eleni, ac os bydd y comisiynwyr yn aros, bydd cyllideb ychwanegol yn cael ei phasio'r flwyddyn nesaf gan y cyngor ar sail sylwadau a wnaed gan y comisiynwyr. Credwn fod hynny'n gwrthod cyfle i bobl Ynys Môn bleidleisio dros weinyddiaeth o'u dewis nhw i symud yr ynys yn ei blaen dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. At hynny, prin yw'r dystiolaeth yng nghofnodion mewnol y cyngor sy'n awgrymu bod unrhyw gamau gweithredu gwirioneddol wedi'u cymryd o safbwynt ymdrechion i sicrhau bod adnewyddu democratiaid yn digwydd ymhlith y cynghorwyr presennol. Felly, os caiff etholiadau democratiaid eu cynnal y flwyddyn nesaf ac os caiff yr un cynghorwyr eu hethol unwaith eto, bydd y sefyllfa, i bob pwrpas, yn golygu na fydd unrhyw ymdrech go iawn wedi'i gwneud i newid ymddygiad sydd, mae'n amlwg, wedi bod yn bresennol yn y sir ers nifer o flynyddoedd.

Mae blwyddyn o oedi cyn i etholiadau gael eu cynnal ar yr ynys yn annerbyniol. Os oes angen adnewyddu democratiaid ar unrhyw gyngor, Ynys Môn yw'r cyngor hwnnw, a'r ffordd orau o sicrhau adnewyddu democratiaid yw drwy gynnal etholiadau.

Ieuan Wyn Jones: I am disappointed that the Liberal Democrats have decided to bring up this issue. The whole discussion about the future of the county council has been a matter of concern to all. Despite the difficult decision, and that we are all disappointed that we have had to postpone the elections, the Minister did not have much choice. I would like to outline some of the reasons why I am

rhesymau pam fy mod o'r farn mai, o'r ddau ddewis, gohirio oedd y dewis callaf.

Rydym yn sylweddoli mai'r peth pwysicaf yw sicrhau bod etholwyr Môn yn cael cyfle i ethol cynghorwyr. Rydym hefyd yn sylweddoli—rhywbeth na chafodd ei awgrymu gan Aled Roberts—bod y sefyllfa yn Ynys Môn yn unigryw. Nid yw hyn erioed wedi digwydd mewn unrhyw gyngor sir yng Nghymru o'r blaen. Oherwydd y sefyllfa roedd y cyngor yn ei hwynebu, penodwyd comisiynwyr am y tro cyntaf erioed i gymryd holl bwerau'r pwyllgor gwaith. Nid yw hynny erioed wedi digwydd o'r blaen; mae'n unigryw. Felly, nid ydym yn sôn am sefyllfa arferol wrth drafod sefyllfa cyngor sir Ynys Môn.

Rhywbeth arall roeddwn yn synnu yn ei gylch oedd nad oedd cymaint â hynny o bwysau wedi'i roi ar adroddiad annibynnol. Gwleidyddion ydym yma, a gwleidyddion yw'r cynghorwyr sir, ond mae adroddiad yr archwilydd wedi awgrymu bod angen adnewyddiad democrataidd. Mae'n awgrymu y dylai'r Gweinidog roi cyfeiriad i'r comisiynwyr ffiniau i newid y ffiniau, lleihau nifer y cynghorwyr a chael wardiau aml-aelod. Person annibynnol yw'r archwilydd, ac mae'n rhaid inni gael rhesymau clir iawn dros fynd yn erbyn y farn gwbl annibynnol y mae wedi'i datgan. Os yw'r archwilydd yn credu, yn ei gyngor i'r Gweinidog, mai'r ffordd i gael adnewyddiad democrataidd yw sicrhau bod wardiau aml-aelod yn cael eu creu, y peth gorau y gallwn ei wneud yw caniatáu amser i hynny ddigwydd.

Rwyf hefyd yn siomedig nad oedd modd trefnu'r ffiniau newydd ar gyfer etholiadau eleni. Mae hynny'n rhywbeth rwyf wedi'i fynegi fwy nag unwaith yn y Siambr hon ac yn gyhoeddus. Felly, y broblem a oedd yn wynebu'r Gweinidog, a'r rhai ohonom sydd wedi'i gefnogi yn yr hyn y mae wedi ceisio ei wneud, oedd: a ddylai gynnal yr etholiad yn awr ar yr hen ffiniau, gan olygu bod y posibilrwydd o gael adnewyddiad democrataidd yn llai na'r hyn roedd am ei weld, gan adael i'r sefyllfa fodoli am bedair blynedd arall, ynteu a ddylai ohirio am flwyddyn a chael y cyfle i sicrhau'r adnewyddiad hwnnw ymhen blwyddyn?

of the opinion that, of the two options, postponing the elections was the wisest choice.

We realise that the most important thing is to ensure that the electors of Anglesey get the opportunity to elect councillors. We also realise—something that was not suggested by Aled Roberts—that the situation in Anglesey is unique. This has never happened before in any Welsh county council. Given the situation facing the council, commissioners were appointed for the first time ever to take over all the powers of the executive. That has never happened before; it is unique. Therefore, we are not discussing a normal situation when we discuss the situation facing Anglesey council.

Another thing that surprised me was that not very much emphasis was placed on an independent report. We are politicians here, and the county councillors are politicians, but the auditor's report has suggested that democratic renewal is required. It suggests that the Minister should direct the boundary commissioners to change the boundaries, reduce the number of councillors and create multi-member wards. The auditor is independent, and we need to be very clear in our reasons for going against the truly independent views that he has expressed. If the auditor believes, in his advice to the Minister, that democratic renewal can best be achieved by ensuring that multi-member wards are created, the best thing that we can do is allow time for that to happen.

I am also disappointed that it was not possible to arrange the new boundaries in time for this year's elections. That is something that I have said more than once in this Chamber and publicly. Therefore, the problem facing the Minister, and those of us who have supported him in his endeavours, was this: should he hold an election now, on the old boundaries, meaning that the possibility of securing democratic renewal was less than he wanted to see, allowing the situation to persist for another four years, or should he postpone for a year, allowing for that renewal to take place in 12 months' time?

3.15 p.m.

Nid yw'n ddewis hawdd i ohirio etholiadau, ond, yn fy marn i, o'r ddau ddewis, mai dyna'r dewis callaf ar hyn o bryd. Rwy'n gobeithio y bydd mwyafrif yn y Cynulliad heddiw i sicrhau bod y Gorchymyn hwn yn cael ei ganiatáu. Bydd hynny'n trosglwyddo'r cyfrifoldeb i'r pleidiau gwleidyddol i gyd. Mae gan bob un o'r pleidiau yn y fan hon gyfrifoldeb i gymryd rhan yn y broses o sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu dewis fel bod, ar ôl mis Mai flwyddyn nesaf, cyfle gwirioneddol i bobl Môn gael cyngor y byddant yn falch ohono ac fel ein bod yn gweld y cyfnod o angen comisiynwyr yn dod i ben. Rydym eisiau gweld cyfnod y comisiynwyr hyn yn dod i ben a phobl Môn yn cael cyngor y gallant ymddiried ynddo. O'r ddau ddewis, yr unig ddewis call yw gohirio am flwyddyn.

Janet Finch-Saunders: I fully support today's motion and the proposal that the Isle of Anglesey Local Authorities (Change to the Years of Ordinary Elections) Order 2012 should be annulled. To deny the voters of Ynys Môn their democratic rights at this time would be a travesty. This is the first time that the Welsh Ministers' power to postpone elections has been used in such a way, and I, certainly, remain to be convinced that there are sufficient grounds for them to be invoked.

The conduct of the Welsh Government in relation to interference in the electoral process in Anglesey has so far been woeful. The entire process, since the previous Minister introduced special measures in 2009, has been blighted by a lack of accountability, slow progress towards the Government's stated aims and the complete disaffection of the nearly 70,000 inhabitants of the island. The initial reason for ministerial intervention, namely that Anglesey's governance could only be improved if the Minister for local government, his commissioners and, of course, the interim director, were put in overall control, seems to be a direct contradiction.

It is not an easy choice to delay elections, but, in my view, of the two choices, that is the wisest choice at present. I hope that there will be a majority in the Assembly today to ensure that this Order is allowed to proceed. That will transfer the responsibility to all the political parties. All of the parties here have a responsibility to participate in the process of ensuring that candidates are chosen so that, after May next year, there will be a real opportunity for the people of Anglesey to have a council that they will be proud of and so that we see this period of needing commissioners come to an end. We want to see this period of commissioners come to an end and the people of Anglesey have a council in which they can trust. Of the two choices, the only wise choice is to defer for a year.

Janet Finch-Saunders: Rwyf yn cefnogi cynnig heddiw'n llwyr, sy'n cynnig y dylai Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012 gael ei ddirymu. Byddai gwrthod cyfle i bleidleiswyr Ynys Môn arfer eu hawliau democrataidd ar hyn o bryd yn ddirmyg. Dyma'r tro cyntaf i bŵer Gweinidogion Cymru i ohirio etholiadau gael ei ddefnyddio yn y fath fodd, ac nid wyf fi, yn sicr, wedi fy argyhoeddi o hyd bod rheswm digonol dros ddefnyddio'r pŵer hwnnw.

Mae ymddygiad Llywodraeth Cymru yng nghyswllt ymyrraeth yn y broses etholiadol yn Ynys Môn wedi bod yn destun gofid hyd yn hyn. Mae'r broses gyfan, ers i'r Gweinidog blaenorol gyflwyno mesurau arbennig yn 2009, wedi cael ei handwyo gan ddiffyg atebolrwydd, cynnydd araf tuag at gyflawni'r amcanion a nodwyd gan y Llywodraeth, a'r ffaith bod bron i 70,000 o drigolion yr ynys wedi'u dadrithio'n llwyr. Mae'r rheswm gwreiddiol dros ymyrraeth weinidogol, sef mai'r unig ffordd y gallai dulliau llywodraethu Ynys Môn gael eu gwella oedd pe bai'r Gweinidog dros lywodraeth leol, ei gomisiynwyr ac, wrth gwrs, y cyfarwyddwr dros dro, yn cael rheolaeth llwyr ar yr ynys, yn ymddangos yn enghraifft o wrthddweud uniongyrchol.

Analysis of the facts shows that progress has been sluggish: 38% of Ynys Môn's performance indicators declined last year, council tax is set to rise by 4.5% next year and the Wales Audit Office's latest report says that improvements in governance may not be sustained in the medium term, that the local authority's financial outlook is challenging and that improvements in children's services have been slow to emerge.

With regard to the question of democracy for the people of Ynys Môn, clearly the Welsh Government has let them down. So far, there have been two separate reports on the electoral arrangements on Ynys Môn, and the Welsh Government's failure to implement either is delaying the process of democratic renewal on the island. The first Local Government Boundary Commission for Wales review reported on 31 August 2010. However, this review was not acted upon by the Minister, who went on to commission a second report in March 2011. The second boundary commission report contained a new direction from the Minister on multi-member wards, which differed from the direction in the first report, which was to consider the desirability of multi-member electoral divisions throughout the county. In relation to the first direction, in the earlier review, point d) states:

'it is considered that decisions to alter the existing pattern of multi and single member electoral divisions should only be taken where such proposals for alteration are broadly supported by the electorate in so far as their views can be obtained in fulfilment of the consultation requirement contained in Section 60 of the Act'.

Yet he is denying them the right to do this.

The subsequent report, however, completely fails to consider the desirability of multi-member electoral divisions—rather, it is the outcome. In the entire report, not a single reference is made to whether the boundary

Mae dadansoddi'r ffeithiau yn dangos bod cynnydd wedi bod yn araf: gwelwyd dirywiad yn 38% o ddangosyddion perfformiad Ynys Môn y llynedd, disgwylir i'r dreth gyngor gynyddu 4.5% y flwyddyn nesaf, a dywed adroddiad diweddaraf Swyddfa Archwilio Cymru ei bod yn bosibl na fydd gwelliannau o ran llywodraethu'n cael eu cynnal yn y tymor canolig, bod rhagolygon ariannol yr awdurdod lleol yn heriol a bod gwelliannau mewn gwasanaethau plant wedi bod yn araf yn dod i'r amlwg.

O ran y cwestiwn sy'n ymwneud â democratiaeth i bobl Ynys Môn, mae'n amlwg bod Llywodraeth Cymru wedi eu siomi. Hyd yn hyn, cafwyd dau adroddiad ar wahân ynghylch y trefniadau etholiadol ar Ynys Môn, ac mae methiant Llywodraeth Cymru i weithredu'r naill na'r llall yn arafu'r broses adnewyddu democrataidd ar yr ynys. Cyflwynodd adolygiad cyntaf y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru adroddiad ar 31 Awst 2010. Fodd bynnag, ni weithredodd y Gweinidog ar sail yr adolygiad hwnnw, ac aeth yn ei flaen i gomisiynu ail adroddiad ym mis Mawrth 2011. Roedd ail adroddiad y comisiwn ffiniau yn cynnwys cyfarwyddyd newydd gan y Gweinidog ynghylch wardiau aml-aelod, a oedd yn wahanol i'r cyfarwyddyd yn yr adroddiad cyntaf, sef y dylid ystyried pa mor ddymunol fyddai cael adrannau etholiadol aml-aelod ar draws y sir. O ran y cyfarwyddyd cyntaf, yn yr adolygiad cynharaf, mae pwynt ch) yn datgan:

'ystyrir na ddylid gwneud penderfyniadau i newid patrwm presennol adrannau etholiadol sydd ag un neu sawl aelod oni bai bod yr etholaeth yn gyffredinol yn cefnogi'r newid cyn belled y gellir gofyn am eu barn yn unol â'r gofyniad i ymgynghori yn Adran 60 y Ddeddf'.

Eto i gyd, mae'n gwrthod rhoi'r hawl iddynt wneud hynny.

Mae'r adroddiad dilynol, fodd bynnag, yn methu'n llwyr ag ystyried pa mor ddymunol fyddai cael adrannau etholiadol aml-aelod—yn hytrach, dyna'r canlyniad. Yn yr adroddiad cyfan, ni chyfeirir o gwbl at b'un a

commission considered the retention of single-member electoral divisions and whether they would be a better option in some areas of the island. That contrasts starkly with the recommendations made by the boundary commission only a year earlier. Serious question marks linger over the electoral arrangements for Ynys Môn. Those questions are all the more pressing when one considers the controversy surrounding the boundary commission in recent months. Perhaps it would be good for us to have a debate on this in the near future.

It is clear from the current state of affairs, therefore, that the current justification for a postponement of elections on Ynys Môn is the result of the mistakes of the Minister and the Welsh Government. Intervention has failed to improve the situation on the island. The Minister's mishandling of the boundary review has certainly put democratic renewal out of kilter with the long-established timetable for local government elections.

Finally, postponement would deal another hammer blow to accountability and democracy on Ynys Môn. There are candidates on the island currently waiting to have their chance to take office in order to drive the process of change forward. There are residents who want to exercise their democratic right. Postponement would deny them this opportunity and strip them of this fundamental right.

Mike Hedges: I oppose the motion and support the decision made previously by the Minister on the date of the elections to Anglesey council. Postponing elections is not a decision that should be taken lightly. It extends a council beyond the time for which it has an electoral mandate, and it does not give the electorate an opportunity to judge councillors on how they have managed the council. For any other council but Anglesey, I would have opposed the postponement of the elections.

Anglesey is different. [*Laughter.*] It is the only council in Wales to have commissioners from outside put in to run it. I am still a member of a council in which five-hour

ystyriodd y comisiwn ffiniau gadw adrannau etholiadol un aelod a ph'un a fyddai adrannau o'r fath yn ddewis gwell mewn rhai ardaloedd o'r ynys. Mae hynny'n gwbl groes i'r argymhellion a wnaed gan y comisiwn ffiniau flwyddyn yn unig yn gynharach. Mae cwestiynau difrifol yn parhau ynghylch y trefniadau etholiadol ar gyfer Ynys Môn. Mae'r cwestiynau hynny'n bwysicach fyth o ystyried y ffaith bod y comisiwn ffiniau wedi bod yn destun trafod yn ystod y misoedd diwethaf. Efallai y byddai'n dda inni gael dadl ynghylch hynny yn y dyfodol agos.

Mae'n amlwg o'r sefyllfa sydd ohoni, felly, bod y cyfiawnhad ar hyn o bryd dros ohirio etholiadau ar Ynys Môn wedi deillio o gangymeriadau'r Gweinidog a Llywodraeth Cymru. Nid yw ymyrryd wedi llwyddo i wella'r sefyllfa ar yr ynys. Mae'r modd y mae'r Gweinidog wedi camreoli'r adolygiad ffiniau yn sicr wedi golygu nad yw'r broses adnewyddu democrataidd yn cyd-fynd â'r amserlen sydd wedi'i phennu ers amser maith ar gyfer etholiadau llywodraeth leol.

Yn olaf, byddai gohirio yn ergyd arall i atebolrwydd a democratiaeth ar Ynys Môn. Ceir ymgeiswyr ar yr ynys ar hyn o bryd sy'n aros am eu cyfle i gael eu hethol er mwyn gyrru'r broses o newid yn ei blaen. Ceir trigolion sydd am arfer eu hawl ddemocrataidd. Byddai gohirio yn golygu bod y cyfle hwnnw'n cael ei wrthod iddynt a'u bod yn cael eu hamddifadu o'r hawl sylfaenol hon.

Mike Hedges: Rwyf yn gwrthwynebu'r cynnig ac yn cefnogi'r penderfyniad a wnaed yn flaenorol gan y Gweinidog ynghylch dyddiad yr etholiadau i gyngor Ynys Môn. Nid yw gohirio etholiadau yn benderfyniad y dylid ei gymryd ar chwarae bach. Mae'n golygu bod cyngor yn cael ei ymestyn y tu hwnt i'r cyfnod y mae ganddo fandad etholiadol ar ei gyfer, ac nid yw'n rhoi cyfle i'r etholwyr farnu cynghorwyr ar y modd y maent wedi rheoli'r cyngor. Ar gyfer unrhyw gyngor arall heblaw Ynys Môn, byddwn wedi gwrthwynebu gohirio'r etholiadau.

Mae Ynys Môn yn wahanol. [*Chwerthin.*] Hwn yw'r unig gyngor yng Nghymru i gael comisiynwyr o'r tu allan i'w redeg. Rwyf yn parhau'n aelod o gyngor lle y mae

council meetings are the norm—we actually had one that went into the following day—there is continual argument and bickering, children’s social services have been in special measures, and the council keeps the ombudsman service busy almost on its own, yet this council has had no action taken against it by the Minister, and the electorate will give its decision in May. Anglesey is different. It was not the Minister who decided that something had to be done; it was the auditor general. Following his recommendation, the then Minister for Social Justice and Local Government appointed commissioners to run the Isle of Anglesey County Council. It was not a case of the Minister deciding that he did not like Anglesey council or the way it was being run and taking action. It was done following a decision by the auditor general, who most people hold in high regard and believe works outside the political process.

The commissioners have assumed—
[*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order.

Mike Hedges: The commissioners have assumed all of the functions of the council’s executive and are scrutinised by the council and its committees just as the executive was previously. The commissioners bring a wealth of experience and expertise to the council. It is sad that we have to have a council run by commissioners taking executive functions; it has not happened anywhere else in Wales. We have a lot of councils in Wales that have problems, but Anglesey seems to have gone that little bit further. Remember: Anglesey is a very small authority, with a lot of single-member wards. Many of its members are elected unopposed; 300 to 400 votes are enough to get most people elected. It is almost a case of getting all of your family and friends to vote for you and you are elected. Very few people stand under party labels there and work under party rules. We need to allow the boundary commission to finish its work and then let the

cyfarfodydd pum awr o’r cyngor yn arferol—a dweud y gwir, cawsom un cyfarfod a barodd hyd drannoeth—mae pobl yn cweryla ac yn ymgecru’n barhaus, mae gwasanaethau cymdeithasol i blant wedi bod yn destun mesurau arbennig, ac mae’r cyngor yn cadw’r gwasanaeth ombwdsmon yn brysur bron ar ei ben ei hun. Er hynny, nid yw’r Gweinidog wedi cymryd camau gweithredu yn erbyn y cyngor hwn, a bydd yr etholwyr yn gwneud eu penderfyniad ym mis Mai. Mae Ynys Môn yn wahanol. Nid y Gweinidog benderfynodd bod yn rhaid gwneud rhywbeth; yr archwilydd cyffredinol benderfynodd hynny. Yn dilyn ei argymhelliad, penododd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ar y pryd gomisiynwyr i redeg Cyngor Sir Ynys Môn. Nid y Gweinidog benderfynodd nad oedd yn hoffi cyngor Ynys Môn neu’r ffordd yr oedd yn cael ei redeg, a’i fod am gymryd camau gweithredu. Cymerwyd camau gweithredu yn dilyn penderfyniad gan yr archwilydd cyffredinol, y mae’r rhan fwyaf o bobl yn ei barchu’n fawr ac yn credu ei fod yn gweithio y tu allan i’r broses wleidyddol.

Mae’r comisiynwyr wedi ymgymryd â—
[*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn.

Mike Hedges: Mae’r comisiynwyr wedi ymgymryd â holl swyddogaethau pwyllgor gwaith y cyngor, ac mae’r cyngor a’i bwyllgorau yn craffu arnynt hwy yn union fel yr oeddent yn craffu ar y pwyllgor gwaith yn flaenorol. Mae’r comisiynwyr yn dod â chyfoeth o brofiad ac arbenigedd i’r cyngor. Mae’n drist bod yn rhaid inni gael cyngor a gaiff ei redeg gan gomisiynwyr sy’n ymgymryd â swyddogaethau gweithredol; nid yw hynny wedi digwydd yn unman arall yng Nghymru. Mae gennym lawer o gynghorau yng Nghymru sydd â phroblemau, ond ymddengys fod Ynys Môn wedi mynd ychydig ymhellach. Cofiwch: mae Ynys Môn yn awdurdod bach iawn sydd â llawer o wardiau un aelod. Caiff llawer o aelodau’r cyngor eu hethol yn ddiwrthwynebiad; gan amlaf mae 300 i 400 o bleidleisiau’n ddigon i sicrhau bod unigolyn yn cael ei ethol. Mae bron yn fater o gael eich holl deulu a’ch holl ffrindiau i bleidleisio drosoch er mwyn

electorate decide. Let them decide at the right time and under new boundaries and larger wards. The Minister has made the right decision; let us support him.

Mark Isherwood: The Welsh Government Order to delay Anglesey's council elections by one year is a bad Order and it must be annulled. [*Laughter.*] This is too serious for laughter. The Isle of Anglesey council has been dogged by scandal since its formation in 1996. Serious allegations relate mainly to planning and to grants, and specifically to the council's senior management and corporate governance. However, only in his statement last month did this Minister finally acknowledge that these areas need radical reform. Until now, the rhetoric from Welsh Government has all been about democratic renewal to tackle 'chronic political infighting and misbehaviour'. Strangely, this has been targeted primarily at those councillors who are seeking to expose failings in corporate governance and who are calling for transparency and accountability.

The previous Welsh Government appointed an interim managing director to tackle the island's political problems. He became one of the most expensive public servants in the UK. His accommodation on the island was owned by someone who was previously sacked as the council's director of housing and property after his department was damned by the district auditor—he himself was subsequently elected as a councillor, but he lost his seat after the external auditors intervened when it was alleged that his group of four members were driving a coach and horses through the island's planning regime.

Three weeks ago, the Public Services Ombudsman for Wales dropped a case against Anglesey councillor Elwyn Schofield on the grounds that the evidence was contradictory and largely uncorroborated.

sicrhau eich bod yn cael eich ethol. Prin iawn yw'r bobl sy'n sefyll dan labeli pleidiau ac sy'n gweithio'n unol â rheolau plaid. Mae angen inni ganiatáu i'r comisiwn ffiniau orffen ei waith ac yna gadael i'r etholwyr benderfynu. Gadewch iddynt hwy benderfynu ar yr adeg iawn ac ar sail ffiniau newydd a wardiau mwy o faint. Mae'r Gweinidog wedi gwneud y penderfyniad cywir; gadewch inni ei gefnogi.

Mark Isherwood: Mae Gorchymyn Llywodraeth Cymru i ohirio etholiadau cyngor Ynys Môn am flwyddyn yn Orchymyn gwael, a rhaid ei ddirymu. [*Chwerthin.*] Mae hwn yn fater rhy ddifrifol i chwerthin yn ei gylch. Mae sgandal wedi bod yn canlyn cyngor Ynys Môn ers ei sefydlu yn 1996. Mae honiadau difrifol yn ymwneud yn bennaf â chynllunio a grantiau, ac yn benodol ag uwch-reolwyr y cyngor a threfniadau llywodraethu corfforaethol. Fodd bynnag, dim ond yn ei ddatganiad y mis diwethaf y cydnabu'r Gweinidog hwn o'r diwedd fod angen diwygio'r meysydd hyn yn radical. Hyd nawr, mae holl rethreg Llywodraeth Cymru wedi bod yn sôn am adnewyddu democrataidd i fynd i'r afael ag 'ymladd mewnol gwleidyddol a chamymddwyn... rhemp'. Yn rhyfedd iawn, mae'r rethreg wedi'i hanelu'n bennaf at y cynghorwyr hynny sy'n ceisio amlygu gwendidau mewn trefniadau llywodraethu corfforaethol ac sy'n galw am dryloywder ac atebolrwydd.

Penododd Llywodraeth flaenorol Cymru reolwr-gyfarwyddwr dros dro i fynd i'r afael â phroblemau gwleidyddol yr ynys. Daeth yn un o weision cyhoeddus drutaf y DU. Roedd ei lety ar yr ynys yn eiddo i rywun a ddiswyddwyd yn flaenorol o'i swydd fel cyfarwyddwr tai ac eiddo'r cyngor, ar ôl i'w adran gael ei chondemnio gan yr archwilydd dosbarth—cafodd ef ei hun ei ethol yn gynghorydd wedi hynny, ond colodd ei sedd ar ôl i'r archwilydd allanol ymyrryd pan honnwyd bod ei grŵp o bedwar aelod yn chwalu cyfundrefn gynllunio'r ynys.

Dair wythnos yn ôl, gollyngodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru achos yn erbyn un o gynghorwyr Ynys Môn, Elwyn Schofield, ar y sail bod y dystiolaeth yn anghyson a'i bod, i raddau

This case was brought by the former interim managing director, who also obliged council group leaders to sign terms of engagement that forced them to publicly and robustly condemn this councillor and other named councillors. That ultimately led to the appointment of commissioners, the postponement of local elections and drastic local boundary changes. When I questioned the First Minister about this, he said he did not wish to comment.

In March 2011, the auditor general reported that, despite progress made by the council, the council's underlying weaknesses in corporate governance remained, conflict was once again having a corrosive effect, and democratic renewal was required. However, almost half of the council's elected members were already newly elected. This conflict derived directly from the ongoing failure to address the weaknesses of corporate governance. The interim managing director left last April.

Last March, the Minister announced that he was replacing the elected executive with commissioners paid £500 a day. The first two commissioners he announced were a Flintshire Labour colleague, criticised for presiding over a series of scandals at Flintshire County Council—all documented by independent reports—and the man who was chief executive of the then Labour Cardiff County Council when it was rocked by a multi-million pound scandal over unlawful expenses. When I met leading Anglesey councillors last December, they told me that

'the problem was always corporate governance in an Officer led Council, not members with horns on their heads'.

They said:

helaeth, heb ei chadarnhau. Cafodd yr achos hwn ei ddwyn gan y rheolwr-gyfarwyddwr dros dro blaenorol, a aeth ati hefyd i orfodi arweinwyr grwpiau'r cyngor i lofnodi telerau ymgysylltu a oedd yn eu gorfodi i gondemnio'n gyhoeddus ac yn bendant y cynghorydd hwn a chynghorwyr eraill a enwyd. Arweiniodd hynny yn y pen draw at benodi comisiynwyr, gohirio etholiadau lleol a gwneud newidiadau sylweddol i ffiniau lleol. Pan holais y Prif Weinidog ynghylch hynny, dywedodd nad oedd yn dymuno gwneud sylw.

Ym mis Mawrth 2011, er gwaethaf y cynnydd a wnaed gan y cyngor, dywedodd yr archwilydd cyffredinol fod gwendidau sylfaenol y cyngor o ran trefniadau llywodraethu corfforaethol yn parhau, bod gwrthdaro unwaith eto'n cael effaith andwyol, a bod angen proses adnewyddu democrataidd. Fodd bynnag, roedd bron i hanner aelodau etholedig y cyngor eisoes yn rhai a oedd newydd eu hethol. Roedd y gwrthdaro hwn yn deillio'n uniongyrchol o'r methiant parhaus i fynd i'r afael â gwendidau mewn trefniadau llywodraethu corfforaethol. Ymadawodd y rheolwr-gyfarwyddwr dros dro fis Ebrill diwethaf.

Fis Mawrth diwethaf, cyhoeddodd y Gweinidog ei fod yn penodi comisiynwyr a gaiff eu talu £500 y dydd, yn lle'r pwyllgor gwaith etholedig. Roedd un o'r ddau gomisiynydd cyntaf a gyhoeddwyd yn gydweithiwr Llafur o Sir y Fflint, a feirniadwyd am fod mewn awdurdod adeg cyfres o sgandalau yng Nghyngor Sir y Fflint—mae'r cyfan wedi'i gofnodi gan adroddiadau annibynnol—ac roedd y llall yn ddyd a oedd yn brif weithredwr Cyngor Sir Caerdydd, a oedd dan arweinyddiaeth Lafur ar y pryd, pan gafodd y cyngor ei siglo gan sgandal gwerth miliynau o bunnoedd ynghylch treuliau anghyfreithlon. Pan gyfarfûm â chynghorwyr amlwg ar Ynys Môn fis Rhagfyr diwethaf, bu iddynt ddweud wrthyf

mai'r broblem erioed oedd trefniadau llywodraethu corfforaethol mewn Cyngor a gâi ei arwain gan Swyddogion, nid aelodau sydd â chyrn ar eu pennau.

Bu iddynt ddweud hefyd bod:

‘Councils in the rest of Wales are being allowed four years to change their electoral boundaries, but Anglesey was only being given 4 weeks just before Christmas’.

It was therefore impossible, they said, to complete and implement the review by May 2012 and they should be allowed their May 2012 elections on existing boundaries like the rest of Wales.

The Presiding Officer: Order. I ask you to refer to the actual Order and not so much to the background, please.

Mark Isherwood: I think that the one leads to the other, Presiding Officer.

The Presiding Officer: I am asking you to refer to the Order.

Mark Isherwood: They added that they need a four-year council with an electoral mandate in place to oversee the inward migration and inward investment expected over the next few years, and

‘to avoid the allegation that the Minister is trying to rig the electoral system’.

Although the auditor general had recommended a review of the number of councillors and the introduction of multi-member wards, the boundary commission proposed that Anglesey should become the only council in Wales with all multi-member wards. When I questioned the Minister about this, he suggested that I write to the boundary commission. It replied that its draft proposals met the Minister’s criteria. However, as we have heard, the Minister’s direction to the boundary commission had stated that it should, in the first instance, consider the desirability of multi-member electoral divisions throughout the county.

Why, then, is there no evidence in the draft proposals that the boundary commission considered the desirability of multi-member electoral divisions instead of merely designing a scheme of such divisions? Why was a timetable set for the boundary commission that did not permit the usual receipt and consideration of representations

Cynghorau yng ngweddill Cymru yn cael pedair blynedd i newid eu ffiniau etholiadol, ond mai dim ond cyfnod o 4 wythnos cyn y Nadolig yr oedd Ynys Môn yn ei gael.

Felly, meddent, roedd yn amhosibl cwblhau a gweithredu’r adolygiad erbyn mis Mai 2012, a dylent gael cynnal eu hetholiadau ym mis Mai 2012 ar sail y ffiniau presennol, fel gweddill Cymru.

Y Llywydd: Trefn. Gofynnaf ichi gyfeirio at y Gorchymyn ei hun a chyfeirio llai at y cefndir, os gwelwch yn dda.

Mark Isherwood: Rwyf o’r farn bod y naill yn arwain at y llall, Lywydd.

Y Llywydd: Rwyf yn gofyn ichi gyfeirio at y Gorchymyn.

Mark Isherwood: Bu iddynt ychwanegu bod arnynt angen cyngor pedair blynedd â mandad etholiadol i oruchwyllo’r mewnfudo a’r mewnfuddsoddi a ddisgwylir dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, ac

i osgoi’r honiad bod y Gweinidog yn ceisio rigio’r system etholiadol.

Er bod yr archwilydd cyffredinol wedi argymhell y dylid adolygu nifer y cynghorwyr a chyflwyno wardiau aml-aelod, cynigiodd y comisiwn ffiniau y dylai Ynys Môn gael wardiau aml-aelod yn unig—yr unig gyngor o’r fath yng Nghymru. Pan holais y Gweinidog ynghylch hynny, awgrymodd y dylwn ysgrifennu at y comisiwn ffiniau. Atebodd y comisiwn bod ei gynigion drafft yn bodloni meini prawf y Gweinidog. Fodd bynnag, fel y clywsom, roedd cyfarwyddyd y Gweinidog i’r comisiwn ffiniau wedi datgan y dylai, yn y lle cyntaf, ystyried pa mor ddymunol fyddai cael adrannau etholiadol aml-aelod ar draws y sir.

Pam, felly, nad oes tystiolaeth yn y cynigion drafft i ddangos bod y comisiwn ffiniau wedi ystyried pa mor ddymunol fyddai cael adrannau etholiadol aml-aelod yn lle dylunio cynllun ar gyfer adrannau o’r fath? Pam y cafodd amserlen ei phennu ar gyfer y comisiwn ffiniau, nad oedd yn caniatáu cael ac ystyried sylwadau yn y modd arferol cyn

before the finalising of draft proposals? The Minister should reconsider his own actions in Anglesey and the justification for his own interventions, on which this was based.

Yr Arglwydd Elis-Thomas: Rwyf yn sefyll yma i siarad ar y mater hwn oherwydd fy mod yn gresynu at yr agwedd sydd wedi cael ei dangos gan nifer o Aelodau'r Cynulliad. Mae arnaf ofn eich bod wedi anghofio lle cychwynnodd y broses hon. Rydych wedi anghofio hefyd, pan ydym yn sôn am Archwilydd Cyffredinol Cymru, Huw Vaughan Thomas, ein bod yn sôn am un o'r bobl fwyaf profiadol mewn llywodraeth leol yng Nghymru, ac, yn wir, mewn gweinyddiaeth gyhoeddus o bob math. Rwyf yn gyfarwydd iawn ag ef fel prif weithredwr llwyddiannus yng Ngwynedd ac yna yn sir Ddinbych. Roedd ei benderfyniad i ymgymryd â swydd archwilydd cyffredinol yn benderfyniad a gymerodd ef, yn sicr yn fy marn i, oherwydd ei fod yn awyddus i weld gwella ansawdd llywodraeth yng Nghymru. Nid wyf wedi trafod hyn yn fanwl ag ef, ond rwyf yn sicr mai gyda gofid mae ef wedi argymhell yr hyn a wnaeth dros flwyddyn yn ôl bellach, sef yr ymyrraeth a arweiniodd at lle yr ydym heddiw.

Nid digwyddiad sydyn ac nid mympwy'r Gweinidog llywodraeth leol sydd y tu ôl i hyn. Mae'r broses wedi dirywio yn gyson ac felly credaf fod cyfrifoldeb ar y Cynulliad hwn, sydd, wedi'r cyfan, yn gyfrifol am benodi'r archwilydd cyffredinol ac am archwilio'i waith, i gymryd o ddifrif yr hyn mae ef yn ei argymhell a'r hyn wnaeth y Gweinidog dros lywodraeth leol ar sail cyngor gofalus swyddogion yn dilyn yr adroddiad hwnnw.

3.30 p.m.

Pan siaradodd Huw Vaughan Thomas am ei argymhellion flwyddyn yn ôl, mynegodd ei siomedigaeth nad oedd yr ymyrraeth weinidogol wedi llwyddo i sicrhau adferiad mewn modd cynaliadwy. Yr hyn yr ydym yn sôn amdano—a dyma'r pwynt pwysicaf—yw gofalu am ddemocratiaeth leol yng Nghymru. Nid mater o fynd i'r bwth i bleidleisio yw democratiaeth. Mae'r fath beth â diwylliant democrataidd yn bod, ac mae hwnnw'n gallu

llunio fersiwn derfynol o'r cynigion drafft? Dylai'r Gweinidog ailystyried ei weithredoedd ei hun yn Ynys Môn a'r cyfiawnhad dros ei ymyriadau ei hun, a oedd yn sail i hyn.

Lord Elis-Thomas: I stand here to speak on this matter because I regret the attitude demonstrated by a number of Assembly Members. I am afraid that you have forgotten where this process began. You have also forgotten that, when we are talking about the Auditor General for Wales, Huw Vaughan Thomas, we are talking about one of the most experienced people in local government in Wales, and, indeed, in public administration of all kinds. I am most familiar with him as a successful chief executive in Gwynedd and subsequently Denbighshire. His decision to take up the post of auditor general was one that he took, certainly in my view, because he was eager to see an improvement in the quality of government in Wales. I have not discussed this in detail with him, but I am sure that it was with regret that he recommended what he recommended over a year ago now, namely the intervention that has led to where we are today.

It is not a sudden event or a whim of the Minister for local government that lies behind this. The process has deteriorated consistently and therefore I believe that this Assembly, which, after all, is responsible for the appointment of the auditor general and for scrutinising his work, has a responsibility to take seriously what he recommends and what the Minister for local government did on the basis of the careful advice of officials following that report.

When Huw Vaughan Thomas talked about recommendations a year ago, he expressed his disappointment that the ministerial intervention had not succeeded in securing a sustainable renewal. What we are talking about—and this is the most important point—is protecting local democracy in Wales. Democracy is not a matter of going into a booth to vote. There is such a thing as democratic culture, and that can fail. It can

methu. Mae'n gallu methu yn nhermau gweinyddiad llywodraeth leol, ac mae hefyd yn gallu methu yn nhermau'r drafodaeth ddemocrataidd a'r math o bobl sy'n teimlo'r awydd i sefyll i'w hethol i gyngor oherwydd natur y diwylliant y maen nhw'n ei weld yn y cyngor hwnnw. Heb fynd i fanylu am y sefyllfa yn Ynys Môn, gresynaf orfod dweud—a chefnogaf y cyfan y mae'r Aelod lleol, fy nghyfaill Ieuan Wyn Jones, wedi'i ddweud am y mater hwn—fod diwylliant gwleidyddol Ynys Môn wedi cael ei barlysu, o bosibl ers blynnyddoedd. Felly, mae'n rhaid wrth y foment hon o adfywiad democrataidd.

Rhaid inni ei gymryd o ddifrif pan fydd yr archwilydd cyffredinol yn argymhell i ni, a phan fydd y Gweinidog yn cadarnhau, ei bod hi'n rhan o'n cyfrifoldeb ni fel Cynulliad Cenedlaethol i ofalu am ein democratiaeth leol a chaniatáu adnewyddu democrataidd. Rwy'n synnu bod y pleidiau eraill yn y Senedd hon fel pe baent yn awyddus i gael etholiad ar unrhyw delerau, nid ar delerau all sicrhau effeithlonrwydd ac atebolrwydd gwirioneddol democratiaeth ar Ynys Môn. Rwyf felly yn gwrthwynebu'r cynnig ac yn cefnogi'r Gweinidog.

Antoinette Sandbach: I am very grateful for some of the issues that Lord Elis-Thomas has raised in the Chamber today. I have no doubt that the auditor general was right to commission a report, but the direction from the Minister to the commissioners, who were looking to the Local Government Boundary Commission for Wales, in March 2011 was prescriptive, and the commission was directed in the first instance to consider the desirability of multi-member electoral divisions throughout the county. It is notable that the delay, which has meant that these elections cannot take place, was due in no small part, to the Minister for Local Government and Communities sacking the members of the boundary commission and replacing them. The report was due to have been laid no later than 30 September 2011, and, in fact, the boundary commission did not issue its draft proposals until November. People have a regular democratic right to give their verdict on their council at the ballot box, and this mandate has been removed from the voters of Ynys Môn. Meanwhile, the Welsh Government and Ynys Môn

fail in terms of the administration of local government, and it can also fail in terms of the democratic discussion and the type of people who feel the urge to stand for election to a council because of the nature of the culture that they see within that council. Without going into detail about the situation on Anglesey, I regret having to say—and I support everything that the local Member, my colleague Ieuan Wyn Jones, has said on this matter—that the political culture of Anglesey has been paralysed, possibly for many years. Therefore, this moment of democratic renewal is essential.

We must take it seriously when the auditor general recommends to us, and when the Minister confirms, that it is part of our responsibility as a National Assembly to protect our local democracy and allow democratic renewal. I am surprised that the other parties in this Senedd seem to be keen to have an election on any terms, not on terms that would ensure efficiency and true democratic accountability on Anglesey. I therefore oppose the motion and support the Minister.

Antoinette Sandbach: Rwyf yn ddiolchgar iawn am rai o'r materion y mae'r Arglwydd Elis-Thomas wedi'u codi yn y Siambr heddiw. Nid wyf yn amau nad oedd yr archwilydd cyffredinol yn iawn i gomisiynu adroddiad, ond roedd cyfarwyddyd y Gweinidog i'r comisiynwyr, a oedd yn troi at y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru, ym mis Mawrth 2011 yn argymhellol, a chafodd y comisiwn gyfarwyddyd yn y lle cyntaf i ystyried pa mor ddymunol fyddai cael adrannau etholiadol aml-aelod ar draws y sir. Mae'n werth nodi bod yr oedi, sydd wedi golygu na all yr etholiadau hyn fynd rhagddynt, wedi digwydd i raddau helaeth am fod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau wedi diswyddo aelodau'r comisiwn ffiniau ac wedi penodi eraill yn eu lle. Roedd disgwyl i'r adroddiad gael ei gyflwyno erbyn 30 Medi 2011 fan bellaf, ond, mewn gwirionedd, ni chyhoeddodd y comisiwn ffiniau ei gynigion drafft tan fis Tachwedd. Mae gan bobl hawl ddemocrataidd reolaidd i ddatgan eu barn am eu cyngor yn y blwch pleidleisio, ac mae'r mandad hwnnw wedi'i gymryd oddi ar

County Council have made decisions that will have a huge impact on the residents of Anglesey, and which those residents are powerless to do anything about this year because they have been denied the right to judge the council at the ballot box.

If there was an election in May, would the council have imposed the biggest council tax hike in the whole of the United Kingdom, at 4.5%? I do not think so. Would it have decided just days after this announcement to advertise four brand new senior management posts with a combined salary of more than £400,000 a year? I do not think so. Who is footing the bill for all of this? The answer, of course, is the council tax payers—the voters of Anglesey. Clearly, there are problems in Ynys Môn, but is the democratic process one of those problems? At the last council election, 25% of the council seats changed hands. The council was refreshed by the voters, so it is not as if the electorate did not use their democratic right to give their verdict on the conduct of the council at the ballot box. The people of Anglesey have the right to ask why its council is the only one in Wales to have multi-member wards imposed on it by the Welsh Government. Does this make the system more democratic, or do multi-member wards serve to widen the gap between the councillor and the constituent? Does this make political campaigning prohibitively expensive for independent candidates? Is the imposition of multi-member wards by the Minister really happening because the Minister does not like the results of the election in Anglesey? Postponing the election does not solve any of the problems; all it does is to remove the democratic right of the electorate. I urge my fellow Assembly Members to support this motion.

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I wish to oppose the motion in the name of Peter Black and Aled Roberts. It would be disastrous for the Isle of Anglesey if the Assembly were to

bleidleiswyr Ynys Môn. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru a Chyngor Sir Ynys Môn wedi gwneud penderfyniadau a fydd yn cael effaith enfawr ar drigolion Ynys Môn, ac na all y trigolion hynny wneud dim byd yn eu cylch eleni oherwydd bod yr hawl i farnu'r cyngor yn y blwch pleidleisio wedi'i gwrthod iddynt.

Pe bai etholiad ym mis Mai, a fyddai'r cyngor wedi cyflwyno'r cynnydd mwyaf mewn treth gyngor yn y Deyrnas Unedig gyfan, sef cynnydd o 4.5%? Nid wyf yn credu. A fyddai wedi penderfynu, ychydig ddyddiau'n unig ar ôl y cyhoeddiad hwn, hysbysebu pedair o swyddi newydd sbon ar gyfer uwch-reolwyr gyda chyflog cyfun o dros £400,000 y flwyddyn? Nid wyf yn credu. Pwy sy'n talu'r pris am hyn i gyd? Yr ateb, wrth gwrs, yw'r sawl sy'n talu'r dreth gyngor—pleidleiswyr Ynys Môn. Mae'n amlwg bod problemau yn Ynys Môn, ond a yw'r broses ddemocrataidd yn un o'r problemau hynny? Yn etholiad diwethaf y cyngor, etholwyd cynghorwyr newydd yn 25% o seddi'r cyngor. Cafodd y cyngor ei adnewyddu gan y pleidleiswyr, ac roedd yr etholwyr, felly, wedi defnyddio eu hawl ddemocrataidd i fynegi eu barn am ymddygiad y cyngor yn y blwch pleidleisio. Mae gan bobl Ynys Môn yr hawl i ofyn pam mai eu cyngor nhw yw'r unig un yng Nghymru lle y mae wardiau aml-aelod wedi'u gorfodi arno gan Lywodraeth Cymru. A yw hynny'n gwneud y system yn fwy democrataidd, ynteu a yw wardiau aml-aelod yn fodd i ehangu'r bwlch rhwng y cynghorydd a'r etholwr? A yw hynny'n golygu bod ymgyrchu gwleidyddol yn rhy ddrud i ymgeiswyr annibynnol? A yw'r ffaith bod y Gweinidog yn cyflwyno wardiau aml-aelod yn digwydd mewn gwirionedd am nad yw'r Gweinidog yn hoffi canlyniadau'r etholiad yn Ynys Môn? Nid yw gohirio'r etholiad yn datrys yr un o'r problemau; y cyfan a wna yw cymryd hawl ddemocrataidd yr etholwyr oddi arnynt. Rwyf yn annog fy nghyd-Aelodau o'r Cynulliad i gefnogi'r cynnig hwn.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Hoffwn wrthwynebu'r cynnig yn enw Peter Black ac Aled Roberts. Byddai'n drychinebus i Ynys Môn pe bai'r Cynulliad yn cymeradwyo'r

approve the motion at this late stage. The start of the election timetable is only days away, and, in tabling this motion, the Liberal Democrats demonstrate how little they understand of the challenges facing Anglesey, as regards democratic renewal being intrinsic to recovery. The only people who might be well prepared for an election in May would be the sitting councillors, some of whose performance over recent years is the very reason why intervention proved necessary.

Political parties and individuals would have no time to select their candidates in the proper way, and individuals who might have been interested would have assumed that the elections will not be until next year, on the basis of the Order that I presented. Committee clerks will have planned their meetings for the year ahead. In other words, it would result in elections without proper preparation, which even electoral officers on the island would find difficult to organise. Indeed, I have received a letter from Anglesey's returning officer today, saying that there is a more serious risk of failure if they were mandated to run the elections in 2012. If elections were held in May, the lack of preparation would mean that we would probably see all the worst aspects of previous elections on Anglesey—elected representatives whose profiles fail to reflect the diversity of the electorate, particularly as regards age and gender; and too many councillors being elected unopposed and without a serious contest. In short, a council that does not represent the views of islanders properly and that is not adequately accountable to them. That is not in the interest of democracy. What is more, it could seriously risk undoing all the progress made by the council in recent months.

The decision to delay was not taken lightly, Presiding Officer. In March of last year, the Auditor General for Wales issued a report in which he stated that there was a particular need for democratic renewal in Anglesey. The county currently consists of almost entirely single member divisions, with many

cynnig yn hwyr fel hyn. Mae dechrau amserlen yr etholiad ddyddiau'n unig i ffwrdd, ac wrth gyflwyno'r cynnig hwn, mae'r Democratiaid Rhyddfrydol yn dangos cyn lleied y maent yn ei ddeall am yr heriau sy'n wynebu Ynys Môn, o ran y ffaith bod adnewyddu democrataidd yn rhan hanfodol o adferiad yr ynys. Yr unig bobl a allai fod wedi paratoi'n dda ar gyfer etholiad ym mis Mai fyddai'r cynghorwyr sydd yno eisoes, a pherfformiad rhai ohonynt dros y blynyddoedd diwethaf yw'r union reswm pam yr oedd yn angenrheidiol ymyrryd.

Ni fyddai pleidiau gwleidyddol ac unigolion wedi cael amser i ddewis eu hymgeiswyr yn y ffordd briodol, a byddai unigolion a allai fod wedi bod â diddordeb mewn sefyll wedi tybio na fyddai'r etholiadau'n cael eu cynnal tan y flwyddyn nesaf, ar sail y Gorchymyn a gyflwynais. Bydd clerod pwyllgorau wedi cynllunio eu cyfarfodydd ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mewn geiriau eraill, byddai'n arwain at etholiadau na baratowyd yn briodol ar eu cyfer, a byddai hyd yn oed swyddogion etholiadol yr ynys wedi'i chael yn anodd eu trefnu. Yn wir, cefais lythyr gan swyddog canlyniadau Ynys Môn heddiw, oedd yn dweud bod y risg o fethu'n fwy difrifol pe baent yn cael eu mandadu i gynnal yr etholiadau yn 2012. Pe bai etholiadau'n cael eu cynnal ym mis Mai, byddai diffyg paratoi'n golygu y byddem, yn ôl pob tebyg, yn gweld holl agweddau gwaethaf etholiadau blaenorol ar Ynys Môn yn dod i'r amlwg—cynrychiolwyr etholedig y mae eu proffiliau'n methu ag adlewyrchu amrywiaeth yr etholwyr, yn enwedig o ran oedran a rhyw; a gormod o gynghorwyr yn cael eu hethol yn ddiwrthwynebiad a heb gystadleuaeth ddifrifol. Yn gryno, cyngor nad yw'n cynrychioli barn yr ynyswyr yn gywir ac nad yw'n ddigon atebol iddynt. Nid yw hynny o fudd i ddemocratiaeth. Yn ogystal, roedd risg ddifrifol y gallai ddadwneud yr holl gynnydd a wnaed gan y cyngor yn ystod y misoedd diwethaf.

Ni chafodd y penderfyniad i ohirio ei wneud ar chwarae bach, Lywydd. Ym mis Mawrth y llynedd, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru adroddiad lle'r oedd yn nodi bod angen penodol am adnewyddu democrataidd yn Ynys Môn. Ar hyn o bryd, adrannau un aelod sydd yn y sir bron yn gyfan gwbl, ac

of them uncontested in 2008. Some Members are clearly not well informed at all. The Auditor General for Wales recommended that Welsh Ministers should request the Local Government Boundary Commission for Wales to review the proposals to ensure that the changes proposed adequately address the need for democratic renewal in Anglesey. The Auditor General for Wales—not me—also recommended that if it were not possible to complete and implement the timetable and review by May 2012, Welsh Ministers should instead use their powers to delay the election until 2013.

I take the recommendations of the auditor general very seriously and I strongly recommend that the Conservatives and Liberal Democrats should do so, too. They should not be ignored. The commission's report was, of course, delayed by its reorganisation last year, as the Member for North Wales rightly stated. However, I do not remember hearing any complaints from his party's benches when I asked for the commission to be renewed. As we suggested in the draft report, it is likely that the commission will propose fairly radical changes to the electoral map of the county, and, as with all reviews, time will be needed to consider any representations before deciding on implementation. We also want to see competition for available seats—whether that is through political parties putting forward more candidates or by actively seeking local people to run for independent membership. One of the Anglesey commissioners has been leading the work on that, and I hope that the elections in 2013 will be well contested.

The commissioners I appointed to oversee the council have made good progress, but their work is not yet done, and, therefore, they will be in place for some time to come. This would be a bad time for elections to take place, and I want to see a new Isle of Anglesey County Council that is capable of running the island's affairs in a proper and effective way, as it is elected to do. Some people may think that the appointment of commissioners negates local democracy

etholwyd llawer o'u cynrychiolwyr yn ddiwrthwynebiad yn 2008. Mae'n amlwg nad yw rhai o'r Aelodau yn gwybod fawr ddim am y sefyllfa. Argymhellodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y dylai Gweinidogion Cymru ofyn i'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru adolygu'r cynigion er mwyn sicrhau bod y newidiadau arfaethedig yn ddigonol i fynd i'r afael â'r angen am adnewyddu democrataidd yn Ynys Môn. Archwilydd Cyffredinol Cymru—nid fi—a argymhellodd hefyd, pe na bai'n bosibl cwblhau a gweithredu'r amserlen a'r adolygiad erbyn mis Mai 2012, y dylai Gweinidogion Cymru ddefnyddio eu pwerau'n hytrach i ohirio'r etholiad tan 2013.

Rwyf yn cymryd argymhellion yr archwilydd cyffredinol yn wirioneddol o ddifrif, ac rwyf yn argymhell yn gryf y dylai'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol wneud hynny hefyd. Ni ddylid eu hanwybyddu. Bu oedi o safbwynt cael adroddiad y comisiwn, wrth gwrs, oherwydd ei ad-drefnu y llynedd, fel y dywedodd yr Aelod dros Ogledd Cymru yn gywir ddigon. Fodd bynnag, nid wyf yn cofio clywed unrhyw gwynion gan feinciau ei blaidd pan ofynnais i'r comisiwn gael ei adnewyddu. Fel y bu inni awgrymu yn yr adroddiad drafft, mae'n debygol y bydd y comisiwn yn cynnig newidiadau eithaf radical i fap etholiadol y sir, ac, fel yn achos pob adolygiad, bydd angen amser i ystyried unrhyw sylwadau cyn penderfynu ynghylch gweithredu. Rydym hefyd am weld cystadleuaeth am y seddi sydd ar gael—boed drwy'r ffaith bod pleidiau gwleidyddol yn cyflwyno mwy o ymgeiswyr neu drwy chwilio'n weithredol am bobl leol i sefyll fel ymgeiswyr annibynnol. Mae un o gomisiynwyr Ynys Môn wedi bod yn arwain y gwaith ar hynny, a gobeithiaf y bydd cystadleuaeth dda yn yr etholiadau yn 2013.

Mae'r comisiynwyr a benodais i oruchwylio'r cyngor wedi gwneud cynnydd da, ond nid yw eu gwaith ar ben eto, ac, felly, byddant yn aros yno am dipyn o amser i ddod. Byddai hon yn adeg wael i etholiadau gael eu cynnal, ac rwyf am weld Cyngor Sir newydd yn Ynys Môn, sy'n gallu cyflawni busnes yr ynys yn briodol ac yn effeithiol, fel y caiff ei ethol i'w wneud. Efallai fod rhai pobl yn meddwl bod penodi comisiynwyr yn dirymu democratiaeth leol, oherwydd bod

because some powers are taken away from the elected members. I believe that that is a narrow-minded approach.

I want to deal with some of the issues that Members have raised today around the procedure of setting the budget. Clearly, some of the Members who spoke have not been informed of the true facts. The commissioners had a series of meetings with the council to understand the process for setting the new budget. The original recommendation was for the increase to be around 5%, but after discussions with the full council, it was reduced to 4.5%. Indeed, the vote was taken to full council and the decision ratified; in fact, one of the Liberal Democrat members supported this process in voting for the 4.5% increase. I believe that to be pretty democratic, and I am surprised that the Members opposite do not.

Over the course of the next year, it will be possible to return to some of the decision-making processes of the council's own executive.

Antoinette Sandbach *rose—*

Carl Sargeant: I will take your intervention in a second.

However, it is not possible to return immediately, because that would risk the recovery of the island.

Antoinette Sandbach: I have been informed that local councillors were told that if they did not back this increase in council tax, the elections would be postponed even further. What is your view on that?

Carl Sargeant: The Member may feel free to make accusations in this Chamber, but she cannot substantiate that with any evidence at all. If she has some evidence, she should write to me; but she does not, and therefore the issue that she raises is fantasy.

Elections are a costly affair, and if elections were forced to take place in May, by the time

rhai pwerau'n cael eu cymryd oddi ar yr aelodau etholedig. Credaf fod agwedd o'r fath yn gul.

Hoffwn ymdrin â rhai o'r materion a godwyd gan yr Aelodau heddiw ynghylch y weithdrefn ar gyfer pennu'r gyllideb. Mae'n amlwg nad yw rhai o'r Aelodau a siaradodd wedi cael y ffeithiau cywir. Cafodd y comisiynwyr gyfres o gyfarfodydd gyda'r cyngor i ddeall y broses ar gyfer pennu'r gyllideb newydd. Roedd yr argymhelliad gwreiddiol yn argymhell cynnydd o oddeutu 5%, ond ar ôl trafodaethau gyda'r cyngor llawn, cafodd ei ostwng i 4.5%. Yn wir, aethpwyd â'r bleidlais at y cyngor llawn a chafodd y penderfyniad ei gadarnhau; a dweud y gwir, cefnogodd un o aelodau'r Democratiaid Rhyddfrydol y broses honno drwy bleidleisio o blaid y cynnydd o 4.5%. Credaf fod hynny'n eithaf democrataidd, ac rwyf yn synnu nad yw'r Aelodau gyferbyn yn credu hynny.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd yn bosibl dychwelyd at rai o brosesau pwyllgor gwaith y cyngor ei hun ar gyfer gwneud penderfyniadau.

Antoinette Sandbach *a gododd—*

Carl Sargeant: Derbyniaf eich ymyriad mewn eiliad.

Fodd bynnag, nid yw'n bosibl dychwelyd atynt ar unwaith, oherwydd byddai hynny'n peryglu adferiad yr ynys.

Antoinette Sandbach: Rwyf wedi clywed bod cynghorwyr lleol wedi cael gwybod y byddai'r etholiadau'n cael eu gohirio ymhellach fyth pe na baent yn cefnogi'r cynnydd hwn yn y dreth gyngor. Beth yw eich barn am hynny?

Carl Sargeant: Efallai fod yr Aelod yn teimlo ei bod yn rhydd i wneud cyhuddiadau yn y Siambr hon, ond ni all brofi hynny ag unrhyw dystiolaeth o gwbl. Os oes ganddi rywfaint o dystiolaeth, dylai ysgrifennu ataf; ond nid oes dystiolaeth ganddi, ac, felly, ffantasi llwyr yw'r mater y mae'n ei godi.

Mae etholiadau'n gostus, a phe bai etholiadau'n cael eu gorfodi i ddigwydd ym

that we have received the report of the boundary commission for Wales—

Janet Finch-Saunders *rose*—

The Presiding Officer: Order. Will you take another intervention?

Carl Sargeant: Gladly, in a minute.

Welsh Ministers have the power under the Local Government Act 1972 to call fresh elections through an Order implementing the commission's proposals. I would have to seriously consider using that power, leading to a second set of elections, as the members may be considering my taking that action. That would cost anything up to £200,000 in addition to the cost of two elections in two years in Anglesey.

Janet Finch-Saunders: Okay—

The Presiding Officer: No, I am sorry—not 'okay'. We have been through this before.

Janet Finch-Saunders: Minister, this annulment that we are asking for is about bringing democracy back to Ynys Môn. Why have you included the community councils in your deliberations when technically this is about Ynys Môn's county council? There is great unhappiness about the fact that you have banded it all together. That is a question that I have been asked to ask you.

Carl Sargeant: I am grateful for the Member's contribution. The Member seems to be suggesting that I withhold community councils from the Order against the directions of the auditor general, which I am disappointed she does not support. The fact is that if I called elections in 12 months' time for the county council and this year for the community council, there would be a twofold cost. I do not think that that is appropriate. It is appropriate that we bring them together. What she is suggesting is an additional cost for the constituents of Anglesey of at least £200,000, and I do not think that that would be money well spent.

mis Mai, erbyn inni gael adroddiad y comisiwn ffiniau i Gymru—

Janet Finch-Saunders *a gododd*—

Y Llywydd: Trefn. A wnewch chi dderbyn ymyriad arall?

Carl Sargeant: Gwnaf, mewn munud.

Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer dan Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 i alw etholiadau newydd trwy Orchymyn sy'n gweithredu cynigion y comisiwn. Byddai'n rhaid imi ystyried o ddifrif defnyddio'r pŵer hwnnw, a fyddai'n arwain at ail gyfres o etholiadau, gan fod yr aelodau efallai'n ystyried y byddaf yn cymryd y cam gweithredu hwnnw. Byddai hynny'n costio hyd at £200,000 yn ychwanegol at gost dau etholiad mewn dwy flynedd ar Ynys Môn.

Janet Finch-Saunders: Iawn—

Y Llywydd: Na, mae'n ddrwg gennyf—nid yw'n 'iawn'. Rydym wedi bod drwy hyn o'r blaen.

Janet Finch-Saunders: Weinidog, mae'r dirymu hwn yr ydym yn gofyn amdano'n ymwneud â sicrhau bod democratiaeth yn dychwelyd i Ynys Môn. Pam yr ydych wedi cynnwys y cynghorau cymuned yn eich trafodaethau, oherwydd, yn dechnegol, mae a wnelo hyn â chyngor sir Ynys Môn? Ceir anfodlonrwydd mawr ynghylch y ffaith eich bod yn ymdrin â'r cyfan gyda'i gilydd. Mae'n gwestiwn y gofynnwyd imi ei ofyn ichi.

Carl Sargeant: Rwyf yn ddiolchgar am gyfraniad yr Aelod. Ymddengys fod yr Aelod yn awgrymu y dylwn beidio â chynnwys cynghorau cymuned yn y Gorchymyn, yn groes i gyfarwyddiadau'r archwilydd cyffredinol, yr wyf yn siomedig nad yw'n eu cefnogi. Y ffaith amdani yw, pe bawn yn galw etholiadau ymhen 12 mis ar gyfer y cyngor sir ac eleni ar gyfer y cynghorau cymuned, byddai'r gost yn ddeublyg. Nid wyf yn credu bod hynny'n briodol. Mae'n briodol ein bod yn dod â hwy at ei gilydd. Byddai'r hyn y mae'n ei awgrymu yn gost ychwanegol i etholwyr Ynys Môn, a fyddai'n cyfateb i o leiaf £200,000, ac nid wyf yn

credu y byddai gwario swm o'r fath yn ddefnydd da o arian.

To finalise my contribution, Llywydd, elections are the bedrock of democracy and should not be delayed without good reason, but I believe, given the instruction and direction from the auditor general, that I am acting appropriately. I hope that Members will support the Order that I have laid, and reject the amendments of the Liberal Democrats. Members will be aware of the difficult actions that we sometimes have to take, and sometimes the Members on the opposition benches should act more responsibly. They should take notice of the auditor general. A good friend of mine, Peter Law, often used to refer to the opposition as 'toerags'; I would definitely not do that, Llywydd, but he may have had a point. *[Laughter.]*

I gloi fy nghyfraniad, Lywydd, etholiadau yw sylfaen democratiaeth, ac ni ddylid eu gohirio heb reswm da, ond credaf, o ystyried cyfarwyddyd yr archwilydd cyffredinol, fy mod yn gweithredu'n briodol. Rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau yn cefnogi'r Gorchymyn yr wyf wedi'i gyflwyno ac yn gwrthod gwelliannau'r Democratiaid Rhyddfrydol. Bydd yr Aelodau yn ymwybodol o'r camau gweithredu anodd y mae'n rhaid weithiau inni eu cymryd, ac weithiau dylai'r Aelodau ar feinciau'r wrthblaid weithredu'n fwy cyfrifol. Dylent gymryd sylw o'r archwilydd cyffredinol. Yn aml, byddai ffrind da imi, sef Peter Law, yn defnyddio'r gair 'toerags' i gyfeirio at yr wrthblaid; yn bendant, ni fyddwn i'n gwneud hynny, Lywydd, ond efallai fod ganddo bwynt. *[Chwerthin.]*

3.45 p.m.

The Presiding Officer: I am glad to hear that you would not do that.

Y Llywydd: Rwyf yn falch o glywed na fyddech chi'n gwneud hynny.

Peter Black: Now we know: if you disagree with the Minister, you are being irresponsible. I do not believe that that is the case here; I think that we are being responsible. I refer to the comments from the Member for Ynys Môn, Ieuan Wyn Jones, when he said that he was disappointed that this motion was being brought forward. I believe that, on principle, if we are going to defer elections, then at the very least, Assembly Members should vote on the matter. I think that that is responsible and is absolutely right.

Peter Black: Rydym yn gwybod nawr: os ydych yn anghytuno â'r Gweinidog, rydych yn ymddwyn yn anghyfrifol. Nid wyf yn credu bod hynny'n wir yn yr achos hwn; rwyf yn credu ein bod yn ymddwyn yn gyfrifol. Cyfeiriaf at sylwadau'r Aelod dros Ynys Môn, Ieuan Wyn Jones, pan ddywedodd ei fod yn siomedig bod y cynnig hwn yn cael ei gyflwyno. O ran egwyddor, os ydym yn bwriadu gohirio etholiadau, credaf y dylai Aelodau'r Cynulliad o leiaf bleidleisio ar y mater. Credaf fod hynny'n gam cyfrifol sy'n hollol gywir.

The situation in Anglesey is unique, which is why we need to tread carefully and ensure that we do not forego the democratic principles, which is what we are doing by proceeding with this Order. The auditor general, who, by the way, is unelected, wants democratic renewal—that is precisely what we suggest and what we propose here as part of this motion.

Mae'r sefyllfa yn Ynys Môn yn unigryw, a dyna pam y mae angen inni droedio'n ofalus a sicrhau nad ydym yn ymwrthod â'r egwyddorion democrataidd, sef yr hyn a wnawn wrth fwrw ymlaen â'r Gorchymyn hwn. Mae'r archwilydd cyffredinol, nad yw, gyda llaw, wedi'i ethol, am weld adnewyddu democrataidd—dyna'r union beth yr ydym yn ei awgrymu a'r union beth yr ydym yn ei gynnig yma yn rhan o'r cynnig hwn.

Janet Finch-Saunders referred to Anglesey having a 4.5% rise in council tax and said

Cyfeiriodd Janet Finch-Saunders at y ffaith bod Ynys Môn yn wynebu cynnydd o 4.5%

that its performance indicators are slipping, and yet there is no chance for local people to vote on who should take that matter forward. Mike Hedges said that this is an extraordinary measure for extraordinary circumstances, but we need to know when we are going to trust the electorate. It seems to me that what this Minister does not do is trust the electorate to make decisions on their own behalf as to who should represent them on Ynys Môn council.

The Minister says that this debate is late in the day. We have only been able to table it because of his lateness in tabling the Order. It is because the Local Government Boundary Commission for Wales delayed the tabling its report that the Government has gone down this route. These are matters of delay on behalf of the Government and not on behalf of the Welsh Liberal Democrats in tabling this motion.

The Minister's own actions have led to a position whereby the people of Anglesey are being denied their say on who represents them. Democracy is about empowerment and not about diktats from the centre. The question is: what do we mean by 'democratic renewal'? In my view, it means a democratic election in which voters can judge matters for themselves. Yet the residents of Ynys Môn are being denied that, which is why we believe that this Order has to be overturned. We have supported the intervention and the auditor general's judgment on this issue, but it is argued that we cannot allow this issue to continue without elections. If elections took place, it would not mean the end of the intervention board, as the Minister indicated, but would give the board the opportunity to work with councillors with a fresh mandate and those councillors could demonstrate the support of the electorate. Decisions are being taken that would not have been considered if there were elections this year. That cannot be right and we believe that if we are to restore any credence to the democratic process, we have to have elections in Anglesey along with the other 21 councils on 3 May.

yn y dreth gyngor, a dywedodd fod dangosyddion perfformiad yr ynys yn dirywio, ac eto i gyd nid oes cyfle i bobl leol bleidleisio ynghylch pwy ddylai symud y mater hwnnw yn ei flaen. Dywedodd Mike Hedges fod hwn yn fesur anghyffredin ar gyfer amgylchiadau anghyffredin, ond mae angen inni wybod pryd rydym yn bwriadu ymddiried yn yr etholwyr. Mae'n ymddangos i mi nad yw'r Gweinidog hwn yn ymddiried yn yr etholwyr i wneud penderfyniadau ar eu rhan eu hunain ynghylch pwy ddylai eu cynrychioli ar gyngor Ynys Môn.

Dywed y Gweinidog fod y ddadl hon yn hwyr yn y dydd. Yr unig reswm pam yr ydym wedi gallu cyflwyno'r ddadl o gwbl yw oherwydd ei fod ef wedi cyflwyno'r Gorchymyn yn hwyr. Dim ond oherwydd bod y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru wedi gohirio cyflwyno ei adroddiad y mae'r Llywodraeth wedi dilyn y llwybr hwn. Y Llywodraeth sydd wedi bod yn araf, nid Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wrth gyflwyno'r cynnig hwn.

Mae camau gweithredu'r Gweinidog ei hun wedi arwain at sefyllfa lle y caiff cyfle ei wrthod i bobl Ynys Môn gael dweud eu dweud ynghylch pwy sy'n eu cynrychioli. Mae a wnelo democratiaeth â grymuso; nid oes a wnelo â dictadau o'r canol. Y cwestiwn yw: beth rydym yn ei olygu wrth 'adnewyddu democrataidd'? Yn fy marn i, mae'n golygu etholiad democrataidd lle y gall pleidleiswyr farnu materion drostynt eu hunain. Eto i gyd, mae trigolion Ynys Môn yn cael eu hamddifadu o'r cyfle hwnnw, a dyna pam yr ydym o'r farn bod yn rhaid gwyrddroi'r Gorchymyn hwn. Rydym wedi cefnogi'r ymyrraeth a barn yr archwilydd cyffredinol am y broblem hon, ond dadleuir na allwn adael i'r broblem hon barhau heb etholiadau. Pe bai etholiadau'n cael eu cynnal, ni fyddai'n golygu diwedd y bwrdd ymyrraeth, fel y nododd y Gweinidog, ond byddai'n rhoi cyfle i'r bwrdd weithio gyda chynghorwyr â mandad ffres, a gallai'r cynghorwyr hynny ddangos cefnogaeth yr etholwyr. Mae penderfyniadau'n cael eu cymryd na fyddent wedi cael eu hystyried pe bai etholiadau eleni. Ni all hynny fod yn iawn, a chredwn, os ydym am adfer unrhyw hygrededd i'r broses ddemocrataidd, fod yn rhaid inni gael etholiadau yn Ynys Môn ar yr un pryd â'r 21

cyngor arall ar 3 Mai.

The Presiding Officer: The proposal is to agree the motion. Does any Member object? I see that there are objections. I therefore defer all voting on this item until voting time.

Y Llywydd: Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod. Felly, gohiriaf bob pleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

Dadl y Ceidwadwyr Cymreig Welsh Conservatives Debate

Llywodraeth Leol Local Government

The Presiding Officer: I have selected amendments 1 and 4 in the name of Jane Hutt, amendment 2 in the name of Jocelyn Davies and amendment 3 in the name of Peter Black. If amendment 1 is agreed, amendments 2 and 3 will be deselected. If amendment 2 is agreed, amendment 3 will be deselected.

Y Llywydd: Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 4 yn enw Jane Hutt, gwelliant 2 yn enw Jocelyn Davies a gwelliant 3 yn enw Peter Black. Os caiff gwelliant 1 ei gytuno, bydd gwelliannau 2 a 3 yn cael eu dad-ddethol. Os caiff gwelliant 2 ei gytuno, bydd gwelliant 3 yn cael ei ddad-ddethol.

Cynnig NDM4946 William Graham

Motion NDM4946 William Graham

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi pwysigrwydd llywodraeth leol yn gweithredu mewn modd sy'n dryloyw ac yn atebol i'r bobl y mae'n eu cynrychioli;

1. Notes the importance of local government acting in a manner which is both transparent and accountable to the people it represents;

2. Yn credu y byddai cyflwyno refferenda ar gynnydd arfaethedig uwch na 3.5 y cant yn y dreth gyngor flynyddol yn gwella tryloywder, atebolrwydd a democratiaeth yng Nghymru; a

2. Believes that the introduction of referenda on proposed annual council tax increases above 3.5% would enhance transparency, accountability and democracy in Wales; and

3. Yn croesawu camau a gymerir gan rai awdurdodau lleol yng Nghymru i gyhoeddi pob gwariant dros £500.00, ac yn annog pob awdurdod lleol yng Nghymru i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i'r cyhoedd.

3. Welcomes steps taken by some local authorities in Wales to publish all expenditure over £500.00, and encourages all local authorities in Wales to make this information public.

Janet Finch-Saunders: I move the motion.

Janet Finch-Saunders: Cynigiaf y cynnig.

I am proud to move this motion on what I believe to be a debate that truly encapsulates the real meaning of true, accountable and democratic local government.

Rwyf yn falch o gynnig y cynnig hwn ar ddadl sydd, yn fy marn i, yn crynhoi'n wirioneddol beth yw gwir ystyr llywodraeth leol sy'n ddemocrataidd, yn atebol ac yn gywir.

In these times of austerity, it is vital that the taxpayers of Wales are able to see where their money is being spent. Not only does this empower people to hold their elected representatives and local authorities to account, but this kind of transparency can rejuvenate feelings of enfranchisement among the electorate and instil in them a greater trust and belief in local government.

Welsh Conservative led councils in Wales have worked to improve the situation by introducing innovative new measures to increase openness. All three now run Twitter feeds and Monmouthshire County Council runs question time sessions on Twitter. They also allow members of the public to photograph or film council meetings. That, again, is something that I feel is essential in terms of accountability and which, considering the case of Jacqui Thompson, other councils could and should learn from. It is important that people feel properly engaged with their local government. The internet offers so much potential to improve that.

Last year, I asked the Minister for Local Government and Communities what level of cost savings he expected local authorities to achieve year on year until 2014. He replied that he expected local authorities to have financial strategies in place to deliver the savings necessary, without defining what the necessary savings were. I do not believe in micromanaging local authorities from Cardiff, but I believe that the Minister and this Assembly should take an active role in facilitating greater efficiency and accountability. Today's motion is the logical next step in that process.

In relation to amendments 1 and 3, while I appreciate that election time is when local government is held truly accountable, transparency and openness should be a priority throughout the council term. The importance of this cannot be overstated, as has been demonstrated—

Yn y cyfnod hwn o galedi, mae'n hanfodol bod trethdalwyr Cymru yn gallu gweld ble mae eu harian yn cael ei wario. Yn ogystal â galluogi pobl i ddwyn eu cynrychiolwyr etholedig a'u hawdurdodau lleol i gyfrif, gall y math hwn o dryloywder beri i etholwyr deimlo o'r newydd eu bod wedi'u breinio â hawl i bleidleisio, a meithrin ynddynt fwy o ymddiriedaeth a chred mewn llywodraeth leol.

Mae cynghorau yng Nghymru a gaiff eu harwain gan y Ceidwadwyr Cymreig wedi gweithio i wella'r sefyllfa drwy gyflwyno mesurau newydd arloesol i'w gwneud yn fwy agored. Mae pob un o'r tri bellach yn darparu gwybodaeth ar Twitter, ac mae Cyngor Sir Fynwy yn cynnal sesiynau holi ac ateb ar Twitter. Maent hefyd yn caniatáu i aelodau'r cyhoedd ffilmio cyfarfodydd y cyngor neu dynnu lluniau ohonynt. Mae hynny, eto, yn fy marn i, yn rhywbeth sy'n hanfodol o ran atebolrwydd ac, o ystyried achos Jacqui Thompson, yn rhywbeth y gallai ac y dylai cynghorau eraill ddysgu ohono. Mae'n bwysig bod pobl yn teimlo eu bod yn cael ymgysylltu'n iawn â llywodraeth leol. Mae'r rhyngwyd yn cynnig cymaint o botensial i wella hynny.

Y llynedd, gofynnais i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau pa lefel o arbedion cost yr oedd yn disgwyl i awdurdodau lleol eu cyflawni flwyddyn ar ôl blwyddyn tan 2014. Atebodd ei fod yn disgwyl i awdurdodau lleol roi strategaethau ariannol ar waith i gyflawni'r arbedion angenrheidiol, heb ddiffinio beth oedd yr arbedion angenrheidiol. Nid wyf yn credu mewn microreoli awdurdodau lleol o Gaerdydd, ond credaf y dylai'r Gweinidog a'r Cynulliad hwn chwarae rôl weithredol mewn hwyluso mwy o effeithlonrwydd ac atebolrwydd. Cynnig heddiw yw'r cam rhesymegol nesaf yn y broses honno.

O ran gwelliannau 1 a 3, er fy mod yn sylweddoli mai adeg etholiadau y bydd llywodraeth leol yn cael ei dwyn i gyfrif mewn gwirionedd, dylai gweithredu mewn modd tryloyw ac agored fod yn flaenoriaeth drwy gydol tymor y cyngor. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd hynny, fel y dangoswyd—

Ann Jones: Why is it that so many councils, including Denbighshire, which is Tory-independent run, are putting so many things into part 2 to stop people knowing what is going on?

Janet Finch-Saunders: That is, again, all part of the transparency agenda. With respect to my colleague, I hope that she will support us when we bring issues like that to the Chamber to open up transparency. This motion addresses that.

Ann Jones *rose*—

The Presiding Officer: Are you taking a further intervention?

Janet Finch-Saunders: No, I need to carry on. [*Interruption.*]

The Presiding Officer: Order. She is not taking further interventions.

Janet Finch-Saunders: As has been demonstrated by the debate on the local development plan at Monmouthshire County Council, which lasted 14 hours as members of the public were invited to contribute, the public clearly wants to have a say more often than once every four years during an election—in the case of Ynys Môn, the public is not even allowed that this year.

Twelve years after the Freedom of Information Act 2000 became law, the second point of our motion calls on the Welsh Government to build upon that spirit of openness and transparency. The Welsh Conservatives want to see all local authorities in Wales publishing all expenditure over £500. The Beecham review in 2006 found that the public sector in Wales has been too defensive about publishing performance and recommended that high priority be given to citizen-centred scrutiny in governance. However, that requirement has not yet been placed on local government in Wales. Bucking the trend, however, all three Conservative-led councils in Wales are currently leading the way in publishing expenditure, with Monmouthshire County

Ann Jones: Pam y mae cynifer o gynghorau, gan gynnwys Sir Ddinbych, sy'n cael ei redeg gan y Toriaid a chynghorwyr annibynnol, yn rhoi cynifer o bethau yn rhan 2 i atal pobl rhag gwybod beth sy'n digwydd?

Janet Finch-Saunders: Mae hynny, eto, i gyd yn rhan o'r agenda dryloywder. O ran fy nghydweithiwr, rwyf yn gobeithio y bydd yn ein cefnogi pan fyddwn yn dod â materion tebyg i'r rheini i'r Siambr i sicrhau mwy o dryloywder. Mae'r cynnig hwn yn mynd i'r afael â hynny.

Ann Jones *a gododd*—

Y Llywydd: A ydych yn derbyn ymyriad arall?

Janet Finch-Saunders: Nac ydw, mae angen imi barhau. [*Torri ar draws.*]

Y Llywydd: Trefn. Nid yw'n derbyn mwy o ymyriadau.

Janet Finch-Saunders: Fel y dangoswyd gan y ddadl ar y cynllun datblygu lleol yng Nghyngor Sir Fynwy, a barodd 14 awr gan fod aelodau'r cyhoedd wedi'u gwahodd i gyfrannu, mae'n amlwg bod aelodau'r cyhoedd am gael dweud eu dweud yn fwy aml nag unwaith bob pedair blynedd yn ystod etholiad—yn achos Ynys Môn, nid yw'r cyhoedd hyd yn oed yn cael gwneud hynny eleni.

Ddeuddeg mlynedd wedi i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ddod i rym, mae ail bwynt ein cynnig yn galw ar Lywodraeth Cymru i adeiladu ar yr ysbryd hwnnw o fod yn agored ac yn dryloyw. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig am weld holl awdurdodau lleol Cymru yn cyhoeddi gwybodaeth am bob gwariant dros £500. Nododd adolygiad Beecham yn 2006 fod y sector cyhoeddus yng Nghymru wedi bod yn rhy amddiffynnol ynghylch cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad, ac argymhellodd fod blaenoriaeth uchel yn cael ei rhoi ym maes llywodraethu i waith craffu sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Fodd bynnag, hyd yma, nid yw'r gofyniad hwnnw wedi'i osod ar lywodraeth leol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae pob un o'r tri chyngor a gaiff eu harwain gan Geidwadwyr yng

Council publishing all expenditure over £1.

Nghymru yn mynd yn groes i'r duedd honno, ac yn arwain y ffordd yng nghyswllt cyhoeddi gwybodaeth am wariant, gyda Chyngor Sir Fynwy yn cyhoeddi gwybodaeth am bob gwariant dros £1.

In relation to amendments 4, and the Minister's concerns that the task of publishing all expenditure over £500 would be onerous, given that this information should be available to the public following a freedom of information request, local authorities should be prepared to make this information available. Furthermore, new technology, such as social media and the internet, are making the publishing of expenditure over £500 anything but onerous. Rather, they offer a relatively inexpensive means of disseminating information and could quite possibly be cheaper than the £160 on average that it costs local government to process an FOI request. Publishing expenditure without the need for an FOI request would let the public expose extravagance and would constitute a bold step towards boosting transparency and accountability.

O ran gwelliannau 4, a phryderon y Gweinidog y byddai'r dasg o gyhoeddi gwybodaeth am bob gwariant dros £500 yn feichus, o ystyried y dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i'r cyhoedd yn dilyn cais rhyddid gwybodaeth, dylai awdurdodau lleol fod yn barod i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael. At hynny, mae technoleg newydd, megis cyfryngau cymdeithasol a'r rhyngwyd, yn golygu bod cyhoeddi gwybodaeth am wariant dros £500 ymhell o fod yn feichus. Yn hytrach, maent yn cynnig ffordd gymharol rad o rannu gwybodaeth, ac mae'n bosibl iawn y gallai fod yn rhatach na'r £160 y mae'n ei gostio ar gyfartaledd i lywodraeth leol brosesu cais rhyddid gwybodaeth. Byddai cyhoeddi gwybodaeth am wariant heb yr angen am gais rhyddid gwybodaeth yn caniatáu i'r cyhoedd dynnu sylw at afradlondeb, a byddai'n gam mawr tuag at hybu tryloywder ac atebolrwydd.

In 2010-11, local authorities in Wales spent over £630,000 on official cars and chauffeurs. Rhondda Cynon Taf and Blaenau Gwent each spent £90,000, while Bridgend spent £75,000 and Neath Port Talbot £70,000. I wonder whether the Minister was aware of those figures until I mentioned them. Local authorities spent an average of £1.5 million on printing and paper costs, but Swansea spent £0.5 million. Given that this is public money, this kind of information should be made available through online publishing, to enable processes to be examined and efficiencies to be identified.

Yn 2010-11, gwariodd awdurdodau lleol yng Nghymru dros £630,000 ar geir swyddogol a gyrwyr. Gwariodd Rhondda Cynon Taf a Blaenau Gwent £90,000 yr un, gwariodd Pen-y-bont ar Ogwr £75,000 a gwariodd Castell-nedd Port Talbot £70,000. Tybed a oedd y Gweinidog yn ymwybodol o'r ffigurau hynny cyn imi sôn amdanynt. Ar gyfartaledd, gwariodd awdurdodau lleol £1.5 miliwn ar gostau argraffu a phapur, ond gwariodd Abertawe £0.5 miliwn. O gofio mai arian cyhoeddus yw hwn, dylai'r math hwn o wybodaeth fod ar gael trwy ei chyhoeddi ar-lein, er mwyn i brosesau gael eu harchwilio ac er mwyn i arbedion effeithlonrwydd gael eu hadnabod.

There is a great appetite for information among the public at large. At present, far from being the preserve of political junkies and journalists, 52% of FOI requests come from individuals. Open, accountable and transparent local government will result in proportionate savings, not burdens. The Localism Act 2011 provides local residents with a power to approve or veto excessive council tax rises. The Welsh Conservatives

Mae awydd mawr am wybodaeth ymhlith y cyhoedd yn gyffredinol. Ar hyn o bryd, nid newyddiadurwyr a phobl sy'n dilyn gwleidyddiaeth yn frwd yw'r unig rai o bell ffordd sy'n cyflwyno ceisiadau rhyddid gwybodaeth, oherwydd daw 52% o geisiadau rhyddid gwybodaeth oddi wrth unigolion. Bydd llywodraeth leol agored, atebol a thryloyw yn arwain at arbedion cymesur yn hytrach nag at feichiau. Mae Deddf

believe that introducing referenda on council tax hikes over 3.5% would help make local councils more accountable and more responsive to their communities, and would put pressure on councils to justify properly the reasons behind the rise.

Carl Sargeant: I thank the Member for giving way. Could the Member tell me how many council referenda there will be in England this year?

Janet Finch-Saunders: We are in Wales, as you should know. [*Laughter.*] I will write to you on that. [*Laughter.*]

As elected representatives, we in this Chamber and in local authorities across Wales have a duty to ensure that public money is spent appropriately and that public affairs are conducted openly. Against the backdrop of austerity and ever-increasing demands by the public for information, current practices on the part of local government are out of step with the public mood. Schedule 12A to the Local Government Act 1972 on exempt information is all too readily used, and perhaps a clarification of the law in that regard should be looked into, so that transparency can be further enhanced—that would cover the point that Ann Jones AM was making earlier.

I hope to see real support for our motion today to show the people of Wales that we are serious about offering them value for money, and open and accountable governance at all levels, starting closest to home with local government.

During the past few weeks, we have called for a council tax freeze and improved business rate relief. This week, we are calling for respect. The people of Wales need to see that their local authorities are there to work for them, to provide the best possible services to them and to get the best value for our taxpayers' money.

Lleoliaeth 2011 yn rhoi'r grym i drigolion lleol gymeradwyo codiadau eithafol yn y dreth gyngor neu roi feto arnynt. Mae'r Ceidwadwyr Cymreig o'r farn y byddai cyflwyno refferenda ar godiadau o dros 3.5% yn y dreth gyngor yn helpu i wneud cynghorau lleol yn fwy atebol ac yn fwy ymatebol i'w cymunedau, ac y byddai'n rhoi pwysau ar gynghorau i gyfiawnhau'n iawn y rhesymau dros y cynnydd.

Carl Sargeant: Diolch i'r Aelod am ildio. A allai'r Aelod ddweud wrthyf faint o refferenda a gynhelir gan gynghorau yn Lloegr eleni?

Janet Finch-Saunders: Rydym ni yng Nghymru, fel y dylech chi wybod. [*Chwerthin.*] Ysgrifennaf atoch ynglŷn â hynny. [*Chwerthin.*]

Fel cynrychiolwyr etholedig, mae gennym ni yn y Siambr hon ac mewn awdurdodau lleol ledled Cymru ddyletswydd i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei wario'n briodol a bod busnes cyhoeddus yn cael ei gyflawni'n agored. Yn erbyn y cefndir o galedi a galwadau cynyddol gan y cyhoedd am wybodaeth, nid yw arferion presennol llywodraeth leol yn cyd-fynd â ffordd y cyhoedd o feddwl. Mae cynghorau lleol yn barod iawn i ddefnyddio Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 ar wybodaeth eithriedig, a hwyrach y dylid ystyried egluro'r gyfraith yn y cyswllt hwnnw er mwyn sicrhau mwy o dryloywder eto—byddai hynny'n ymdrin â'r pwynt yr oedd Ann Jones AC yn ei wneud yn gynharach.

Rwyf yn gobeithio gweld cefnogaeth go iawn i'n cynnig heddiw er mwyn dangos i bobl Cymru ein bod o ddifrif ynghylch cynnig gwerth am arian iddynt a dull agored ac atebol o lywodraethu ar bob lefel, gan ddechrau gyda'r lefel sydd agosaf at y bobl, sef llywodraeth leol.

Yn ystod yr ychydig wythnosau diwethaf, rydym wedi galw am rewi'r dreth gyngor a chynnig gwell rhyddhad ardrethi i fusnesau. Yr wythnos hon, rydym yn galw am barch. Mae angen i bobl Cymru weld bod eu hawdurdodau lleol yno i weithio drostynt, darparu'r gwasanaethau gorau posibl ar eu cyfer a chael y gwerth gorau am arian ein

trethdalwyr.

Gwelliant 1 Jane Hutt

Dileu pwynt 2 ac yn ei le rhoi:

Yn cydnabod bod pennu'r dreth gyngor yn fater i awdurdodau lleol unigol a bod y tryloywder a'r atebolrwydd yn cael eu cynnal drwy'r blwch pleidleisio bob pedair blynedd.'

Gwelliant 4 Jane Hutt

Dileu pwynt 3 ac yn ei le rhoi:

'Yn croesawu camau a gymerir gan gynghorau yng Nghymru i sicrhau mwy o dryloywder ond yn cydnabod bod angen gwneud yn siŵr fod y beichiau gweinyddol a roddir ar awdurdodau lleol yn sgîl mwy o dryloywder yn gymesur â hynny.'

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I move amendments 1 and 2 in the name of Jane Hutt.

Gwelliant 2 Jocelyn Davies

Ym mhwynt 2 dileu popeth cyn 'yn gwella' a rhoi yn ei le 'Yn credu y byddai cyflwyno system Pleidlais Sengl Drosgrwyddadwy ar lefel llywodraeth leol'.

Llyr Huws Gruffydd: I move amendment 2 in the name of Jocelyn Davies.

It is fair to say that no-one would wish to see a 3.5% tax increase, or any increase. However, as we are constantly reminded, we live in difficult times, and there is an economic reality that needs to be faced. However, all councils will have to justify their records and face a verdict at the ballot box on 3 May this year, and they will have to defend their record on council tax.

Introducing a legal requirement for local referenda would be inappropriate. It would hamstring local authorities and would not allow them to respond flexibly to financial pressures. I am not against increasing transparency or having more public information made available on council

Amendment 1 Jane Hutt

Delete point 2 and replace with:

'Recognises that the setting of council tax is a matter for individual local authorities and transparency and accountability for this is delivered via the ballot box every four years.'

Amendment 4 Jane Hutt

Delete point 3 and replace with:

'Welcomes steps towards increased transparency taken by councils in Wales but recognises the need to ensure that administrative burdens placed on local authorities as a result of increased transparency are proportionate.'

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Cynigiau welliannau 1 a 2 yn enw Jane Hutt.

Amendment 2 Jocelyn Davies

In point 2 delete all before 'would enhance' and replace with 'Believes that the introduction of the Single Transferable Voting system at local government level'.

Llyr Huws Gruffydd: Cynigiau welliant 2 yn enw Jocelyn Davies.

Mae'n deg dweud na fyddai neb yn dymuno gweld cynnydd o 3.5% yn y dreth, neu unrhyw gynnydd o gwbl. Fodd bynnag, fel y cawn ein hatgoffa o hyd, rydym yn byw mewn cyfnod anodd, ac mae angen wynebu realiti economaidd. Fodd bynnag, bydd pob cyngor yn gorfod cyfiawnhau eu penderfyniadau a wynebu dyfarniad yn y blwch pleidleisio ar 3 Mai eleni, a bydd yn rhaid iddynt amddiffyn eu penderfyniadau yng nghyswllt y dreth gyngor.

Byddai cyflwyno gofyniad cyfreithiol ar gyfer referenda lleol yn amhriodol. Byddai'n llesteirio awdurdodau lleol ac ni fyddai'n caniatáu iddynt ymateb yn hyblyg i bwysau ariannol. Nid wyf yn erbyn cynyddu tryloywder neu ddarparu mwy o wybodaeth i'r cyhoedd am wariant cynghorau, ac rwyf

spending and I recognise that there is a debate to be had on publishing information on expenditure so that the public can see how money is being spent. However, it would be self-defeating if it involved introducing more bureaucracy to local councils. Many of them are already facing staffing pressures in Wales, and the selection of a £500 figure seems a bit arbitrary. You remind us that we are living in austere times and we need cost savings, but the danger is that that will mean that we will have to take money away from services.

Andrew R.T. Davies: I am most grateful to the Member for giving way. Will you not recognise that, in Monmouthshire, they have had a council tax freeze and yet they are still able to publish every item of expenditure over £1 and, in the Vale of Glamorgan, they are to publish every item of expenditure over £500? You talk about bureaucracy and expense, but it is proven that it can be done.

Llyr Huws Gruffydd: That is not the unique preserve of Conservative-run councils. I would refer to Caerphilly as well, in terms of council tax levels.

The danger, when it comes to referenda, is that they can easily be hijacked: they can be fought on very different issues. If a referendum is legally linked to a local authority's council tax rate and its ability to raise revenue, there could be significant consequences if the referendum became distorted or was made party political. The best way to ensure local democracy and transparency is for the electorate to have its say every four years in council elections.

I move now to the amendment. You will know that Plaid Cymru favours the single transferable vote as the most proportional method of election. STV offers the best of both worlds: not only would we get scientifically proportional results, where every vote counted equally, but we would also still have the constituency or ward link for local councillors. We are already used to multimember wards across local government in Wales, and people in Wales are familiar with the habit of voting for multiple

yn cydnabod bod dadl i'w chael ynghylch cyhoeddi gwybodaeth am wariant fel y gall y cyhoedd weld sut y mae arian yn cael ei wario. Fodd bynnag, byddai'n gwbl groes i'r bwriad pe bai'n golygu creu mwy o fiwrocratiaeth i gynghorau lleol. Mae llawer ohonynt eisoes yn wynebu pwysau staffio yng Nghymru, ac mae dewis ffigur o £500 yn ymddangos braidd yn fympwyol. Rydych yn ein hatgoffa ein bod yn byw mewn cyfnod o galedi a bod angen arbedion cost arnom, ond y perygl yw y bydd hynny'n golygu y bydd yn rhaid inni gymryd arian oddi ar wasanaethau.

Andrew R.T. Davies: Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r Aelod am ildio. A wnewch chi gydnabod bod Sir Fynwy yn gallu cyhoeddi gwybodaeth am bob eitem o wariant dros £1 er iddynt rewi'r dreth gyngor, a bod disgwyl ym Mro Morgannwg iddynt gyhoeddi gwybodaeth am bob eitem o wariant dros £500? Rydych yn sôn am fiwrocratiaeth a'r gost, ond profwyd bod modd ei wneud.

Llyr Huws Gruffydd: Nid yw hynny'n unigryw i gynghorau a gaiff eu rhedeg gan Geidwadwyr. Byddwn yn cyfeirio at Gaerffili yn ogystal, o ran lefelau'r dreth gyngor.

Pan ddaw'n fater o refferenda, y perygl yw y gallant gael eu camddefnyddio'n hawdd: gellir eu hymladd ar faterion gwahanol iawn. Os caiff refferendwm ei gysylltu'n gyfreithiol â chyfradd treth gyngor awdurdod lleol a'i allu i godi refeniw, gallai fod canlyniadau sylweddol pe bai'r refferendwm yn cael ei ystumio neu'i droi yn destun gwleidyddiaeth bleidiol. Y ffordd orau o sicrhau democratiaeth a thryloywder yn lleol yw i'r etholwyr gael dweud eu dweud bob pedair blynedd mewn etholiadau cynghorau.

Symudaf yn awr at y gwelliant. Gwyddoch fod Plaid Cymru yn ffafrio'r bleidlais sengl drosglwyddadwy fel y dull mwyaf cyfrannol o ethol cynrychiolwyr. Mae'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy yn cynnig y gorau o ddau fyd: yn ogystal â rhoi canlyniadau sy'n gyfrannol o safbwynt gwyddonol, lle y caiff pob pleidlais ei chyfrif yn gyfartal, byddai'n golygu hefyd bod cynghorwyr lleol yn cadw'r cyswllt ag etholaeth neu ward. Rydym eisoes yn gyfarwydd â wardiau aml-aelod ar draws

candidates. It is used for elections elsewhere in the British isles; in Scotland, Northern Ireland and the Republic of Ireland, the system is used, and those are countries that have profiles that are similar to the rural and urban profile of Wales. It is also used in Australia, Canada, Hong Kong and in Wales in other contexts. For example, students' unions routinely use the STV system.

llywodraeth leol yng Nghymru, ac mae pobl Cymru yn gyfarwydd â'r arfer o bleidleisio ar gyfer mwy nag un ymgeisydd. Caiff y system ei defnyddio ar gyfer etholiadau mewn mannau eraill yn Ynysoedd Prydain; caiff ei defnyddio yn yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon, ac mae'r rheini'n wledydd sydd â phroffiliau tebyg i broffil gwledig a threfol Cymru. Caiff ei defnyddio hefyd yn Awstralia, Canada, Hong Kong ac yng Nghymru mewn cyd-destunau eraill. Er enghraifft, mae'n arferol i undebau myfyrwyr ddefnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy.

4.00 p.m.

Therefore, we can see that, across the board, advanced democratic countries are using STV. It would favour no party over any other. There would be an even playing field for every party and it would enrich democracy. With STV, people's votes would deliver a wide range of participation, enhancing the debate at the local level and forcing more local politicians to work together and to seek common ground. Members may remember that the Richard commission made a number of recommendations back in 2004, which have gone on to influence the development of Welsh democracy, and STV for local elections was one of those recommendations. Although the report was ultimately shelved by the Labour Party, or Labour politicians—presumably because it was too progressive—most, if not all, of its arguments have stood the test of time. It is time for Wales to move forward with STV. It would make local government elections fairer and more democratic. I urge you to support the amendment.

Felly, gallwn weld, yn gyffredinol, bod gwledydd democrataidd datblygedig yn defnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Ni fyddai'n ffafrio'r naill blaid dros y llall. Byddai'n cynnig chwarae teg i bob plaid a byddai'n cyfoethogi democratiaeth. Gyda'r bleidlais sengl drosglwyddadwy, byddai pleidleisiau pobl yn arwain at ystod eang o gyfranogiad, gan gyfoethogi'r ddadl ar lefel leol a gorfodi mwy o wleidyddion lleol i weithio gyda'i gilydd a cheisio tir cyffredin. Efallai y bydd yr Aelodau yn cofio bod comisiwn Richard wedi gwneud nifer o argymhellion yn ôl yn 2004, sydd wedi mynd ymlaen i ddylanwadu ar y modd y mae democratiaeth Cymru wedi datblygu, ac un o'r argymhellion hynny oedd defnyddio'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy ar gyfer etholiadau lleol. Er i'r adroddiad gael ei roi o'r neilltu yn y pen draw gan y Blaid Lafur, neu gan wleidyddion Llafur—a hynny, yn ôl pob tebyg, am ei fod yn rhy flaengar—mae'r rhan fwyaf, os nad y cyfan, o'i ddadleuon wedi sefyll prawf amser. Mae'n bryd i Gymru fwrw ymlaen â'r system pleidlais sengl drosglwyddadwy. Byddai'n gwneud etholiadau llywodraeth leol yn decach ac yn fwy democrataidd. Rwyf yn eich annog i gefnogi'r gwelliant.

Gwelliant 3 Peter Black

Mewnosod ar ddiwedd pwynt 2 'ond yn credu, wrth i deuluoedd cyffredin wynebu cyfnod anodd, nad yw cost uwch cynnal refferenda lleol yn flaenoriaeth'.

Peter Black: I move amendment 3 in my

Amendment 3 Peter Black

Insert at end of point 2 'but believes that, while ordinary families are facing tough times, the increased cost of running local referendums is not a priority'.

Peter Black: Cynigiau welliant 3 yn fy enw i.

name.

Having stood here and argued in favour of democratic renewal for local elections, I do not want to support a motion that undermines those local elections by changing the nature of the representative democracy that we have in this country. I am not a particular fan of referenda, but the principle that we have established so far is that they are held only on matters relating to constitutional affairs. We had one on Europe in 1975, although I am a bit too young to remember that one, and various devolution referenda have taken place in Scotland and Wales in 1979, 1997 and recently. Those referenda have been limited to constitutional matters.

There is a danger that, when you start to go down the route of holding referenda on a particular matter of policy—and the ultimate policy decision of any local council is how much money you raise and how you spend that money—you start to change the nature of that democracy. If you can hold it on the subject of council tax, why can a referendum not be held on whether a new road is built in a certain place, whether there should be a tip to dispose of our rubbish, or to look at the way in which a particular service should be delivered. Suddenly, you find that the role of local councillors is not worth having. That then starts to extend to the Assembly and to Parliament.

We have a long tradition of representative democracy in this country. I am not prepared to overturn that tradition lightly on the basis of the motion before us. However, I am more than happy to support points 1 and 3 of the motion, in relation to having a more transparent and accountable local government and publishing expenditure over £500, which would provide the sort of information that allows people to make value judgments when it comes to voting for local councillors when they have the opportunity every four or five years—or very rarely in the case of Anglesey.

The other issue, which goes to the nub of our amendment, is the cost of holding referenda.

Having some of the swift and simple changes that we are calling for today become best practice initiatives will unleash an army of armchair auditors and, quite rightly, make those charged with spending public money think twice about whether they are going to get best value for money. Throwing open the council's books will also open doors to new business opportunities for local authorities and encourage greater innovation. You only have to look at Monmouthshire, a beacon of local government in Wales, to see what has been achieved there. It is the first Welsh open data authority and the first authority to accept freedom of information requests by Twitter. It is the only authority in Wales to be shortlisted for this year's National Endowment for Science, Technology and the Arts creative councils award. It is also the first local authority to have a wholly-owned community interest company. In my opinion, that is what councils across Wales should be doing and aspiring to do.

Minister, as the daughter of a grocer, Mrs Thatcher would undoubtedly support the shopping list that I am bringing before you today. I just hope that you can see the real value of what is on that list.

The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant): I can assure the Member that I am not the daughter of a

ehangach trwy ddefnyddio YouTube a darlledu ar-lein. Yn wir, cafodd ei gyfarfod cyntaf ym mis Ionawr ei ddarlledu'n fyw ar y rhyngwyd, gyda 948 o bobl yn gwyllo. Ar ôl y cyfarfod, bu 1,412 o bobl eraill yn gwyllo cyfarfod llawn y cyngor. Mae hynny'n golygu bod 2,360 o bobl ym Mhowys yn unig wedi gwyllo'r cyfarfod. Mae'n bosibl iawn bod a wnelo pwnc y cyfarfod â hynny, ond roedd, serch hynny, yn foment hanesyddol i Bowys. Ar ôl siarad ag etholwyr sy'n defnyddio cyfryngau o'r fath, gwn eu bod yn teimlo iddynt ymwneud gymaint yn fwy â'r broses ddemocrataidd. Dylai'r cyhoedd fod yn gallu gweld i ble mae'r arian yn mynd a beth y mae'n ei ddarparu.

Bydd troi rhai o'r newidiadau cyflym a syml yr ydym yn galw amdanynt heddiw yn fentrau arfer gorau yn arwain at greu byddin o archwilwyr cadair freichiau ac, yn gywir ddigon, bydd yn gwneud i'r rhai sy'n gyfrifol am wario arian cyhoeddus feddwl ddwywaith ynghylch a ydynt yn mynd i gael y gwerth gorau am arian. Bydd agor llyfrau'r cyngor hefyd yn agor drysau i gyfleoedd busnes newydd ar gyfer awdurdodau lleol ac yn annog mwy o arloesi. Nid oes yn rhaid ichi edrych ymhellach na Sir Fynwy, sy'n enghraifft ddisglair o lywodraeth leol yng Nghymru, i weld beth sydd wedi'i gyflawni yno. Hwn yw'r awdurdod data agored cyntaf yng Nghymru a'r awdurdod cyntaf i dderbyn ceisiadau rhyddid gwybodaeth trwy Twitter. Hwn yw'r unig awdurdod yng Nghymru sydd ar y rhestr fer ar gyfer gwobr cynghorau creadigol y Gwaddol Cenedlaethol ar gyfer Gwyddoniaeth, Technoleg a'r Celfyddydau eleni. Hwn hefyd yw'r awdurdod lleol cyntaf i fod â pherchnogaeth lwyr ar gwmni buddiannau cymunedol. Yn fy marn i, dyna y dylai cynghorau ledled Cymru fod yn ei wneud a dyna y dylent fod yn anelu i'w wneud.

Weinidog, fel merch i groser, byddai Mrs Thatcher, yn sicr, yn cefnogi'r rhestr siopa yr wyf yn ei chyflwyno ger eich bron heddiw. Ni allaf ond gobeithio y byddwch yn gallu gweld gwir werth yr hyn sydd ar y rhestr honno.

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant): Gallaf sicrhau'r Aelod nad wyf yn ferch i groser.

grocer. *[Laughter.]* I do not know whether that gives any comfort to the Chamber.

I ask Members to reject the main motion and amendment 2 in the name of Jocelyn Davies. I believe that transparency and accountability come from a strong and open democratic process. Jocelyn's amendment suggests that changing the voting system would enhance transparency and accountability and democracy in Wales. However, I think that the point has been missed that there may or may not be merits in altering the method by which people are elected to local government. Any suggestion that this will make things more transparent or accountable, or that it will improve the way democracy works, is simply untrue.

4.30 p.m.

For example, a key issue with our democratic local process is that we do not have enough candidates to stand in many parts of Wales. Those elected are often retired, white males. Changing the voting system will not address this. We need all political parties, local authorities, the Electoral Commission and others to lift the level of understanding and interest among people, so that a greater range of groups would be interested in standing for election. We are already addressing better engagement through reforms introduced by the Local Government (Wales) Measure 2011. These include the publication of the council's annual report, as mentioned by Jenny earlier, greater public involvement with scrutiny, and ensuring councillors are properly supported to fill their roles.

Turning to the council tax referendum, I support the principle of greater local engagement and decisions on council tax levels. Many councils across Wales already consult local people during their council tax setting processes. Janet Finch-Saunders does not have to respond to me by letter to the question I asked, which was how many referenda would be taking place in England, which is the protocol that she supports. The answer is none; none at all. The fact that she wants to introduce something that is not

[Chwerthin.] Wn i ddim a yw hynny'n gysur i'r Siambr.

Gofynnaf i'r Aelodau wrthod y prif gynnig a gwelliant 2 yn enw Jocelyn Davies. Credaf fod tryloywder ac atebolrwydd yn dod o broses ddemocrataidd gadarn ac agored. Mae gwelliant Jocelyn yn awgrymu y byddai newid y system bleidleisio yn gwella tryloywder ac atebolrwydd a democratiaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, credaf fod y pwynt wedi'i golli, sef y gallai neu na allai rhinweddau fod yn perthyn i newid y dull a ddefnyddir i ethol pobl i lywodraeth leol. Mae unrhyw awgrym y bydd hynny'n arwain at fwy o dryloywder neu atebolrwydd, neu y bydd yn gwella'r modd y mae democratiaeth yn gweithio, yn hollol anghywir.

Er enghraifft, un broblem allweddol gyda'n proses ddemocrataidd leol yw nad oes gennym ddigon o ymgeiswyr i sefyll mewn sawl rhan o Gymru. Mae'r rheini a gaiff eu hethol yn aml yn ddynion gwyn sydd wedi ymddeol. Ni fydd newid y system bleidleisio yn mynd i'r afael â hynny. Mae angen i'r pleidiau gwleidyddol i gyd, awdurdodau lleol, y Comisiwn Etholiadol ac eraill godi lefel y ddealltwriaeth a'r diddordeb ymysg pobl, er mwyn i ystod fwy eang o grwpiau ddangos diddordeb mewn sefyll ar gyfer etholiad. Rydym eisoes yn mynd i'r afael â gwella gwaith ymgysylltu trwy ddiwygiadau a gyflwynwyd gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae'r rhain yn cynnwys cyhoeddi adroddiad blynyddol y cyngor, fel y crybwyllwyd yn gynharach gan Jenny, cynnwys y cyhoedd yn fwy helaeth mewn gwaith craffu, a sicrhau bod cynghorwyr yn cael eu cefnogi'n briodol i gyflawni eu rôl.

Gan droi at y refferendwm ar y dreth gyngor, rwyf yn cefnogi'r egwyddor o gael mwy o ymgysylltu lleol a phenderfyniadau lleol am lefelau'r dreth gyngor. Mae llawer o gynghorau ledled Cymru eisoes yn ymgynghori â phobl leol yn ystod eu proses o bennu lefel y dreth gyngor. Nid oes yn rhaid i Janet Finch-Saunders ysgrifennu ataf gydag ateb i'r cwestiwn a ofynnais, sef faint o refferenda fyddai'n cael eu cynnal yn Lloegr, sef y protocol y mae hi'n ei gefnogi. Yr ateb yw dim; dim un. Mae'r ffaith ei bod am

happening in England but nonetheless is being legislated for, is somewhat bizarre to say the least.

Each local authority must set its own council tax to support the delivery of other services that it is responsible for, without placing an undue burden on the council tax payer. Councillors must weigh up these two issues and take into account the views of people they represent and what they are elected to do. As the Member for North Wales mentioned earlier, these people will be judged on their decisions at the ballot box. We have had some successes, given that council tax rates are 19% lower in Wales. This fact leads me to question whether the Tories understand this issue or are just repackaging the English Conservative policy to try to please their leader in London. Can they not think of their own, new ideas, ideas appropriate in the devolved context, where council tax rates are already—and I will tell the Chamber again—19% lower in Wales?

Andrew R.T. Davies *rose—*

Carl Sargeant: I will give way to the leader of the opposition.

The Deputy Presiding Officer: Order. It is Andrew R.T. Davies first. There are two others waiting, **but one at a time, please.**

Andrew R.T. Davies: Do you not recognise, Minister, that council tax has increased by 140% in Wales since 1997? The base rate was lower anyway, therefore we have seen a 140% tax rise since 1997.

Carl Sargeant: I welcome the Member's contribution. However, again, his question is so misplaced. Band D rating in Wales is much lower than it is in England. Again, council tax rates in Wales are 19% lower than those in England.

The Deputy Presiding Officer: It is your choice, Minister, as to who intervenes next.

gyflwyno rhywbeth nad yw'n digwydd yn Lloegr, ond y deddfir ar ei gyfer serch hynny, braidd yn rhyfedd, a dweud y lleiaf.

Rhaid i bob awdurdod lleol bennu ei dreth gyngor ei hun i gefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau eraill y mae'n gyfrifol amdanynt, heb roi baich gormodol ar y sawl sy'n talu'r dreth gyngor. Mae'n rhaid i gynghorwyr bwysu a mesur y ddau fater hynny ac ystyried barn y bobl y maent yn eu cynrychioli a'r hyn y cânt eu hethol i'w wneud. Fel y crybwyllodd yr Aelod dros Ogledd Cymru yn gynharach, caiff y bobl hyn eu barnu ar sail eu penderfyniadau yn y blwch pleidleisio. Rydym wedi cael rhai llwyddiannau, o gofio bod cyfraddau'r dreth gyngor 19% yn is yng Nghymru. Mae'r ffaith honno'n fy arwain i amau a yw'r Toriaid yn deall y mater hwn, ynteu ai dim ond ceisio ailbecynnu polisi'r Ceidwadwyr yn Lloegr y maent er mwyn ceisio plesio eu harweinydd yn Llundain. Oni allant feddwl am eu syniadau newydd eu hunain, syniadau sy'n briodol i'r cyd-destun datganoledig, lle y mae cyfraddau'r dreth gyngor eisoes yn—a dywedaf wrth y Siambr unwaith eto—19% yn is yng Nghymru?

Andrew R.T. Davies *a gododd—*

Carl Sargeant: Ildiaf i arweinydd yr wrthblaid.

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Andrew R.T. Davies sydd gyntaf. Mae dau arall yn aros, **ond un ar y tro, os gwelwch yn dda.**

Andrew R.T. Davies: Onid ydych yn cydnabod, Weinidog, bod y dreth gyngor wedi codi 140% yng Nghymru er 1997? Roedd y gyfradd sylfaenol yn is beth bynnag, felly rydym wedi gweld cynnydd o 140% yn y dreth er 1997.

Carl Sargeant: Croesawaf gyfraniad yr Aelod. Fodd bynnag, unwaith eto, mae ei gwestiwn mor gyfeiliornus. Mae'r gyfradd band D yng Nghymru lawer yn is nag y mae yn Lloegr. Unwaith eto, mae cyfraddau'r dreth gyngor yng Nghymru 19% yn is na'r rheini yn Lloegr.

Y Dirprwy Lywydd: Cewch chi ddewis, Weinidog, pwy sy'n ymyrryd nesaf.

Carl Sargeant: I will take anyone.

Carl Sargeant: Cymeraf unrhyw un.

The Deputy Presiding Officer: You are looking at Nick Ramsay, so I will call Nick Ramsay.

Y Dirprwy Lywydd: Rydych yn edrych ar Nick Ramsay, felly galwaf ar Nick Ramsay.

Nick Ramsay: I will not hold that against you, Minister. You are teasing us are you not, Minister? You know the figures very well. I know that you have an expert handle on that brief of yours in terms of council tax figures. Is not the issue with council tax not the level at which it is in Wales, as compared with England, but the fact that the rate of increase in Wales has been much greater as compared with England? I know that you know that that is the case.

Nick Ramsay: Ni fyddaf yn dal hynny yn eich erbyn, Weinidog. Rydych yn ein pryfocio, onid ydych, Weinidog? Gwyddoch y ffigurau'n dda iawn. Gwn fod gennych afael ddeheuig ar eich briff o ran ffigurau'r dreth gyngor. Onid yw'n wir nad lefel y dreth yng Nghymru o'i chymharu â Lloegr yw'r broblem â'r dreth gyngor, ond yn hytrach y ffaith bod cyfradd y cynnydd yng Nghymru wedi bod yn fwy o lawer o'i chymharu â Lloegr? Gwn eich bod yn gwybod bod hynny'n wir.

Carl Sargeant: I do not think that I am trying to tease the Member. I just want to offer the Member the facts. If you want to say in your manifesto that you wish to place council tax band D in Wales at the same level as it is in England then please go to the electorate with that. What we are doing in Wales is reducing that level by 19%.

Carl Sargeant: Nid wyf yn meddwl mai ceisio pryfocio'r Aelod yr wyf. Y cyfan yr wyf am ei wneud yw cynnig y ffeithiau i'r Aelod. Os ydych am ddweud yn eich manifesto eich bod yn dymuno gosod band D y dreth gyngor yng Nghymru ar yr un lefel ag y mae yn Lloegr, da chi, dywedwch hynny wrth yr etholwyr. Yr hyn yr ydym ni'n ei wneud yng Nghymru yw gostwng y lefel honno 19%.

Kenneth Skates *rose*—

Kenneth Skates *a gododd*—

Carl Sargeant: I would be happy to give way to the Member if there is time.

Carl Sargeant: Rwyf yn fodlon ildio i'r Aelod os oes amser.

Kenneth Skates: Thank you, Minister, for giving way. Would you agree with me that the opposition would do well to look at where propositions are currently used for tax purposes, including California, where the infamous proposition 13 led to an unprecedented cut of 40% in funding for schools? We may wonder whether the Conservatives would like to follow that method here.

Kenneth Skates: Diolch, Weinidog, am ildio. A fydddech yn cytuno â mi y byddai'n beth da i'r wrthblaid edrych ar y manau hynny lle y caiff cynigion eu defnyddio ar hyn o bryd at ddibenion treth, gan gynnwys California, lle yr arweiniodd y cynnig 13 enwog at doriad digynsail o 40% mewn cyllid i ysgolion? Tybed a fyddai'r Ceidwadwyr yn dymuno dilyn yr un drefn yn y fan hon?

Carl Sargeant: The Member raises an important point. I am not sure that the Conservatives understand local government at all. If they did, they could suggest to their counterparts in Westminster that, rather than making the massive cut in England, they follow our lead by providing 1.3% of

Carl Sargeant: Mae'r Aelod yn codi pwynt pwysig. Nid wyf yn siŵr a yw'r Ceidwadwyr yn deall llywodraeth leol o gwbl. Pe baent yn ei deall, gallent awgrymu wrth eu cymheiriaid yn San Steffan y dylent ddilyn ein hesiampl ni, yn hytrach na gwneud toriad enfawr yn Lloegr, drwy ddarparu 1.3% o

additional funding to protect local services over the spending review period. Of course, if they respected the people of Wales, their priority would not have been to cut the 50% tax rate in the budget announcement today. How many people in Wales would benefit from that? The answer is ‘not many at all’. However, the Tory frontbenchers will certainly gain from this initiative. *[Laughter.]*

As regards publishing expenditure greater than £500, any authorities in Wales wishing to invest their resources in making information on their spending transactions available is free to do so. That is a matter for the local authorities—if they wish to do so, they should do so. Our priority is to encourage cultural and organisational change, reinforcing transparency and accountability as the primary values. That includes strengthening public engagement and making local authorities publically accountable for their performance.

Members have raised the electoral system and they will be aware of my views on proportional representation and single transferrable votes. Those views have not changed. Members on the opposition benches and I may have something in common on that issue, if only that. Today, I ask Members to oppose the motion and support the amendment tabled in the name of Jane Hutt.

Darren Millar: This has been a good debate. It has been healthy to discuss democracy, transparency and accountability. We need more of that in public life, and I support the motion before the Assembly today and encourage others to do the same. It is regrettable that the Minister responded in the way that he did. He is quite right to say that we agree on at least one thing, which is that the voting system in Wales has served the country well over the years and should not change. However, to suggest that it would not be a good thing to allow local authorities to publish information online, on which we are suggesting that the Minister should issue guidance, seems to me to be quite unusual. He made reference to the fact that there are no referenda taking place in England this

gyllid ychwanegol i ddiogelu gwasanaethau lleol dros gyfnod yr adolygiad o wariant. Wrth gwrs, pe baent yn parchu pobl Cymru, ni fyddai torri cyfradd y dreth 50% wedi bod yn flaenoriaeth iddynt yn y cyhoeddiad ynghylch y gyllideb heddiw. Faint o bobl yng Nghymru fyddai'n elwa o hynny? Yr ateb yw ‘dim llawer o gwbl’. Fodd bynnag, bydd y Torïaid ar y meinciau blaen yn sicr yn elwa o'r fenter honno. *[Chwerthin.]*

O ran cyhoeddi gwybodaeth am wariant dros £500, mae unrhyw awdurdodau yng Nghymru sy'n dymuno buddsoddi eu hadnoddau mewn sicrhau bod gwybodaeth ar gael am eu trafodion gwariant yn rhydd i wneud hynny. Mae hynny'n fater i'r awdurdodau lleol—os ydynt yn dymuno gwneud hynny, dylent wneud hynny. Ein blaenoriaeth ni yw annog newid diwylliannol a sefydliadol, gan atgyfnerthu tryloywder ac atebolrwydd fel y gwerthoedd sylfaenol. Mae hynny'n cynnwys cryfhau gwaith ymgysylltu â'r cyhoedd a gwneud awdurdodau lleol yn atebol i'r cyhoedd am eu perfformiad.

Mae'r Aelodau wedi cyfeirio at y system etholiadol, a byddant yn ymwybodol o'm safbwyntiau i ar gynrychiolaeth gyfrannol a phleidleisiau sengl trosglwyddadwy. Nid yw'r safbwyntiau hynny wedi newid. Efallai fod gennyf rywbeth yn gyffredin â'r aelodau ar feinciau'r wrthblaid yn hynny o beth, a dim ond hynny efallai. Heddiw, gofynnaf i'r Aelodau wrthwynebu'r cynnig a chefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd yn enw Jane Hutt.

Darren Millar: Mae hon wedi bod yn ddadl dda. Mae wedi bod yn beth iach inni drafod democratiaeth, tryloywder ac atebolrwydd. Mae arnom angen mwy o hynny mewn bywyd cyhoeddus, ac rwyf yn cefnogi'r cynnig sydd gerbron y Cynulliad heddiw ac yn annog eraill i wneud yr un peth. Mae'n anffodus bod y Gweinidog wedi ymateb yn y modd y gwnaeth. Mae'n gwbl iawn i ddweud ein bod yn cytuno ar o leiaf un peth, sef bod y system bleidleisio yng Nghymru wedi gwasanaethu'r wlad yn dda dros y blynyddoedd ac na ddylid ei newid. Fodd bynnag, mae awgrymu na fyddai'n beth da caniatáu i awdurdodau lleol gyhoeddi gwybodaeth ar-lein, sef rhywbeth yr ydym yn awgrymu y dylai'r Gweinidog gyhoeddi canllawiau yn ei gylch, yn ymddangos i mi

year, in spite of the legislation. That is because council tax rises have been lower in England. In fact, in most cases, they have been frozen in England because, unlike the Welsh Government, the UK Government passed money on to local authorities to enable them to do that.

The Minister also made reference to the fact that council tax is generally lower in Wales than in England, but he failed to mention that income levels are much lower in Wales than they are in England. The affordability issue is more important to council tax payers—their ability to pay council tax. I suggest to you, Minister, that being relaxed about the fact that we have seen a 140% hike in council tax in Wales under Labour-run Welsh Governments, in one way or another, is completely unacceptable. The Minister made reference to today's budget. I think that it is a good budget for Wales, and it is wonderful that 1.1 million people in this country will benefit from a rise in the personal tax threshold under the tax-free allowance. It is a shame, Minister, that you cannot welcome that provision and many of the other provisions, such as those related to our communications infrastructure and so on.

Janet opened the debate very well by stressing the fact that this is about ensuring that there is openness and accountability. It was good to hear the contributions of other Members in the Chamber too. I was surprised by the Plaid Cymru contribution from Llyr Huws Gruffydd. While he seemed to be saying that he supports the idea that there should be transparency, he was hesitant. It seemed to me that he is afraid of democracy, in some way. His party has spent years calling for referenda in Wales, and then it wants to deny people the opportunity to speak out on a referendum on their local council tax. I cannot understand that. It is a bit like the pushmi-pullyu in the *Doctor Dolittle* books—pushing in one direction for one thing and pulling in another direction for another, but we will not discuss that anymore. [Laughter.]

yn eithaf anarferol. Cyfeiriodd at y ffaith nad oes refferenda'n cael eu cynnal yn Lloegr eleni, er gwaethaf y ddeddfwriaeth. Mae hynny oherwydd bod y cynnydd yn y dreth gyngor wedi bod yn is yn Lloegr. Yn wir, yn y rhan fwyaf o achosion, maent wedi'u rhewi yn Lloegr oherwydd, yn wahanol i Lywodraeth Cymru, roedd Llywodraeth y DU wedi trosglwyddo arian i awdurdodau lleol i'w galluogi i wneud hynny.

Cyfeiriodd y Gweinidog hefyd at y ffaith bod y dreth gyngor yn gyffredinol yn is yng Nghymru nag yn Lloegr, ond ni soniodd am y ffaith bod lefelau incwm yn is o lawer yng Nghymru nag y maent yn Lloegr. Mae fforddiadwyedd yn fater mwy pwysig i'r sawl sy'n talu'r dreth gyngor—eu gallu i dalu'r dreth gyngor. Rwyf yn awgrymu wrthyhch, Weinidog, fod teimlo'n gyfforddus ynghylch y ffaith ein bod wedi gweld cynnydd o 140% yn y dreth gyngor yng Nghymru dan Lywodraethau Llafur yng Nghymru, y naill ffordd neu'r llall, yn gwbl annerbyniol. Cyfeiriodd y Gweinidog at y gyllideb heddiw. Credaf ei bod yn gyllideb dda i Gymru, ac mae'n wych y bydd 1.1 miliwn o bobl yn y wlad hon yn elwa o gynnydd yn y trothwy treth personol dan y lwfans di-dreth. Mae'n drueni, Weinidog, na allwch groesawu'r ddarpariaeth honno a llawer o'r darpariaethau eraill, megis y rhai sy'n gysylltiedig â'n seilwaith cyfathrebu ac yn y blaen.

Agorodd Janet y ddadl yn dda iawn gan bwysleisio'r ffaith bod a wnelo hyn â sicrhau bod llywodraeth leol yn atebol ac yn agored. Roedd yn dda clywed cyfraniadau Aelodau eraill yn y Siambr hefyd. Cefais fy synnu gan gyfraniad Llyr Huws Gruffydd ar ran Plaid Cymru. Er ei fod fel pe bai'n dweud ei fod yn cefnogi'r syniad o gael tryloywder, roedd yn betrusgar. Mae'n ymddangos i mi fod arno ofn democratiaeth, mewn rhyw ffordd. Mae ei blaid wedi treulio blynyddoedd yn galw am refferenda yng Nghymru, ac yna mae am wrthod cyfle i bobl fynegi eu barn mewn refferendwm ar eu treth gyngor leol. Ni allaf ddeall hynny. Mae'n debyg braidd i'r pushmi-pullyu yn llyfrau *Doctor Dolittle*—gwthio i un cyfeiriad ar gyfer un peth a thynnu i gyfeiriad arall ar gyfer peth arall, ond awn ni ddim i drafod hynny ymhellach. [Chwerthin.]

Peter Black seemed to think that it was going to be so expensive to hold referenda that they were simply not worth the cost. Democracy does cost, but it is a price worth paying. If we want to talk about the cost of democracy, let us talk about the fact that it costs a lot of money to run this democracy in Wales, but it is a price worth paying, Peter. No price is too high if it means giving the public a say in these matters.

William referred to the fact that this is an inexpensive way of trying to keep costs down and promoting competition in the provision of goods and services to local authorities, in order to enable them to take advantage of better prices. I think that that is a healthy thing. [*Interruption.*]

Did you want to say something, Peter?

Peter Black: If a referendum is so easy to hold, why has no Conservative-led council ever held one on any matter whatsoever, including council tax?

Darren Millar: The fact of the matter is, as I said earlier on, that no referenda are taking place in England this year because council tax has largely been frozen across the country.

I was intrigued by Jenny Rathbone's contribution. To suggest that the public is too thick to understand the information that might be put online is frankly a bit insulting. I do not know what her voters in Cardiff Central will think of that, but I would question anybody who suggested that voters were too thick. I think that voters are very sophisticated in the information they are able to access—

Jenny Rathbone: I wonder if you would like to reflect on the information in the Estyn report, which showed that 40% of children leaving primary school do not have the expected reading age. Unfortunately, those levels follow through to adulthood.

Roedd Peter Black fel pe bai o'r farn y byddai cynnal refferenda mor gostus fel na fyddent, yn syml iawn, yn werth y gost. Mae pris ar ddemocratiaeth, ond mae'n bris sy'n werth ei dalu. Os ydym am sôn am gost democratiaeth, gadewch inni sôn am y ffaith ei bod yn costio llawer o arian i redeg y ddemocratiaeth hon yng Nghymru, ond mae'n bris sy'n werth ei dalu, Peter. Nid yw'r un pris yn ormod i'w dalu os yw'n golygu rhoi llais i'r cyhoedd yn y materion hyn.

Cyfeiriodd William at y ffaith bod hon yn ffordd rad o geisio cadw costau i lawr a hybu cystadleuaeth wrth ddarparu nwyddau a gwasanaethau i awdurdodau lleol, er mwyn eu galluogi i fanteisio ar brisiau gwell. Credaf fod hynny'n beth iach. [*Torri ar draws.*]

A oeddech am ddweud rhywbeth, Peter?

Peter Black: Os yw mor hawdd cynnal refferendwm, pam nad yw'r un cyngor a gaiff ei arwain gan y Ceidwadwyr erioed wedi cynnal un ar unrhyw fater o gwbl, gan gynnwys y dreth gyngor?

Darren Millar: Y gwir amdani yw, fel y dywedais yn gynharach, nad oes unrhyw refferenda'n cael eu cynnal yn Lloegr eleni oherwydd bod y dreth gyngor wedi ei rhewi i raddau helaeth ar draws y wlad.

Roedd cyfraniad Jenny Rathbone yn ddirgelwch i mi. A dweud y gwir, mae awgrymu bod y cyhoedd yn rhy dwp i ddeall y wybodaeth a allai fod yn cael ei rhoi ar-lein braidd yn sarhaus. Wn i ddim beth y bydd ei hetholwyr yng Nghanol Caerdydd yn ei feddwl o hynny, ond byddwn yn amau unrhyw un sy'n awgrymu bod etholwyr yn rhy dwp. Credaf fod etholwyr yn soffistigedig iawn o ran y wybodaeth y maent yn gallu cael mynediad iddi—

Jenny Rathbone: Tybed a hoffech fyfyrion ynghylch y wybodaeth yn adroddiad Estyn, a oedd yn dangos nad yw oed darllen 40% o blant sy'n gadael yr ysgol gynradd yn cyfateb i'r oed darllen disgwylidig. Yn anffodus, mae'r lefelau hynny'n parhau wrth i blant dyfu'n oedolion.

Darren Millar: That is a shameful statistic and is down to the fact that we have a Labour Government in Wales, but frankly, we had a debate on Estyn yesterday, and that was the time to talk about Estyn—you are tying yourself in knots, Jenny.

Suzy Davies made reference to the fact that we need to broadcast council meetings as much as possible, online as well, to make sure that they are accessible to the public. Russell George referred to the thousands who are tuning in to what goes on in Montgomeryshire at the meetings of Powys County Council. Frankly, I think that more people tune in to those council meetings than have tuned into this debate today.

I just think, Minister, that you have not accepted the spirit in which these proposals have been put forward. We fundamentally believe in opening up local government to make sure that people have access to the information that will enable them to hold councillors to account. It is healthy to require people to hold a referendum where council tax levels are going to be increased far above the rate of inflation. I think that you ought to reconsider your position on these matters. We have called for it time and again. At the end of the day, it will be local people who can trigger these things; it does not have to be you. It is important that we lower those thresholds and give people access in order to voice their democratic right.

The Deputy Presiding Officer: The proposal is to agree the motion without amendment. Does any Member object? I see that there are objections, and so I defer all voting under this item until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

Dadl Plaid Cymru Plaid Cymru Debate

Yr Economi The Economy

Y Dirprwy Lywydd: Rwyf wedi dethol gwelliannau 1 a 2 yn enw William Graham, a gwelliannau 3 a 4 yn enw Peter Black.

Darren Millar: Mae'n ystadegyn cywilyddus, a'r ffaith bod gennym Lywodraeth Lafur yng Nghymru sydd i gyfrif amdano, ond a siarad yn blaen, cawsom ddadl ar Estyn ddoe, a dyna oedd yr adeg i sôn am Estyn—rydych yn drysu, Jenny.

Cyfeiriodd Suzy Davies at y ffaith bod angen inni ddarlledu cyfarfodydd cyngorau gymaint ag sy'n bosibl, ar-lein hefyd, i sicrhau eu bod yn hygyrch i'r cyhoedd. Cyfeiriodd Russell George at y miloedd sy'n dilyn yr hyn sy'n digwydd yn Sir Drefaldwyn yng nghyfarfodydd Cyngor Sir Powys. A dweud y gwir, rwyf yn credu bod mwy o bobl yn dilyn y cyfarfodydd cyngor hynny nag sy'n dilyn y ddadl hon heddiw.

Credaf, Weinidog, nad ydych wedi derbyn yr ysbryd y cynigiwyd y cynigion hyn ynddo. Yn y bôn, rydym yn credu mewn gwneud llywodraeth leol yn fwy agored er mwyn gwneud yn siŵr bod gan bobl fynediad i'r wybodaeth a fydd yn eu galluogi i ddwyn cyngorwyr i gyfrif. Mae'n beth iach mynnu bod pobl yn cynnal refferendwm os yw'r cynnydd yn lefel y dreth gyngor yn mynd i fod yn uwch o lawer na'r gyfradd chwyddiant. Credaf y dylech ailystyried eich safbwynt ar y materion hyn. Rydym wedi galw am hynny dro ar ôl tro. Yn y pen draw, pobl leol fydd yn gallu ysgogi'r pethau hyn; nid chi sy'n gorfod gwneud hynny o reidrwydd. Mae'n bwysig inni ostwng y trothwyon hynny a rhoi mynediad i bobl er mwyn iddynt leisio eu hawl ddemocrataidd.

Y Dirprwy Lywydd: Y cynnig yw derbyn y cynnig heb ei wella. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiad, ac felly rwyf yn gohirio pob pleidlais dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendments 1 and 2 in the name of William Graham and amendments 3 and 4 in

the name of Peter Black.

Cynnig NDM4945 Jocelyn Davies

Motion NDM4945 Jocelyn Davies

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn credu y byddai datganoli rhagor o bwerau yn helpu i sicrhau economi gynaliadwy a ffyniannus.

Believes that further devolution of powers would help deliver a sustainable and prosperous economy.

Alun Ffred Jones: Cynigiau y cynnig.

Alun Ffred Jones: I move the motion.

Mae'n bleser gennyf wneud y cynnig hwn, sy'n syml iawn ac sy'n datgan ein bod yn credu y byddai datganoli rhagor o bwerau yn helpu i sicrhau economi gynaliadwy a ffyniannus.

It is my pleasure to move this motion, which is very simple and states that we believe that the devolution of further powers would help to deliver a sustainable and prosperous economy.

Mae'r cyd-destun economaidd yn gyfarwydd i ni i gyd. Mae pawb yn cytuno bod sefyllfa economi Cymru'n wan, ac, mewn perthynas â gweddill Prydain ac Ewrop, mae'n gwaethygu. Mae'r ffigurau GDP diweddaraf yn cadarnhau hyn unwaith eto. Yn ogystal â'r cwmp brawychus parhaus yn lefel GDP gorllewin Cymru a'r Cymoedd, mae GDP dwyrain Cymru hyd yn oed wedi cwmpo'n is na'r cyfartaledd Ewropeaidd am y tro cyntaf. Os edrychwn ar y cyd-destun Prydeinig, gwaethygu a wnaeth economi Cymru o'i chymharu â'r gyfartaledd, ar wahân i un cyfnod byr yn ystod yr enciliad economaidd.

The economic context is well-known to us all. Everyone agrees that the economic situation in Wales is weak, and, in relation to the rest of the UK and Europe, it is deteriorating. The latest GDP figures confirm this once again. As well as the continual, frightening fall in GDP in west Wales and the Valleys, the GDP of east Wales has even fallen below the European average for the first time. If we look at the UK context, we see that the Welsh economy has been in decline when compared with the average figures, with the exception of one brief period during the recession.

Mae'r Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr yn San Steffan yn dilyn cynllun sy'n ceisio dileu'r diffyg strwythurol yn ystod un Senedd, neu yn fuan iawn wedyn. Mae'r polisi hwn wedi cael effaith negyddol ar gyflogaeth yng Nghymru ac ar hyder cwmnïau. Y gwir amdani yw nad yw'r polisi hwn yn addas i Gymru ac nid yw'n gweithio. Er gwaethaf ymdrechion Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y gwir amdani, fel roedd y Canghellor yn ei ddatgan heddiw, yw bod twf yr economi Brydeinig wedi bod yn isel iawn—llai nag 1%—er bod y Llywodraeth wedi darogan twf o 2.5% i 3% y llynedd.

The Conservatives and Liberals in Westminster are following a plan to eliminate the structural deficit within one Parliament or soon afterwards. This policy has had a detrimental impact on employment in Wales and the confidence of companies. The truth is that this policy is not appropriate to Wales and is not working for Wales. As the Chancellor stated today, despite the efforts of the UK Government, the growth of the UK economy has been very slow—less than 1%—although it had predicted growth of 2.5% to 3% last year.

Mae cytundeb trawsbleidiol yma bod y sector preifat yng Nghymru yn rhy wan i ysgwyddo'r baich o greu cymaint o swyddi ychwanegol i wneud yn iawn am y golled yn y sector cyhoeddus. Nid yw economi Cymru

There is cross-party agreement here that the private sector in Wales is too weak to take on the burden of creating all these additional jobs to compensate for the losses in the public sector. The Welsh economy is not

yn barod am doriadau mewn gwariant cyhoeddus ar y lefel hon. Dangoswyd hyn yn ddiweddar pan welsom lu o geisiadau i'r gronfa twf economaidd—cronfa gyhoeddus i gynorthwyo datblygiadau cyfalaf yn y sector preifat.

4.45 p.m.

Mae'r busnesau hynny sy'n barod i dyfu a chreu swyddi hyd yn oed yn ei chael yn anodd iawn heb gymorth y pwrs cyhoeddus. Mae hynny'n tanlinellu methiant y sector ariannol i hybu twf, heblaw am ei thwf ei hun. Rhaid inni dargedu'r economi a chynorthwyo'r busnesau hyn i dyfu, wrth ddatblygu'n strwythurol yn y tymor hir, i ddilyn rhaglen adnewyddu'r economi, ac i fuddsoddi mewn sgiliau, isadeiledd a chystadleurwydd yn yr economi yng Nghymru. Felly, rhaid i Gymru ddilyn llwybr polisi amgen; llwybr sy'n addas i Gymru.

Safbwynt Plaid Cymru ers 2009 yw, er ein bod yn cyfaddef bod angen torri gwariant cyhoeddus a chodi trethi i leihau'r diffyg sylweddol a adawyd gan y Llywodraeth flaenorol yn San Steffan, dylid gwneud hynny dros gyfnod hwy er mwyn osgoi dirwasgiad ac osgoi gwneud y diffyg yn waeth trwy gynnydd mewn diweithdra a diffyg twf economaidd. Felly, mae targedu a blaenoriaethu twf yn yr economi yn hanfodol, a gofynnwn am becyn o fesurau i ysgogi'r economi fel y gall dyfu.

Un ffordd o ysgogi'r economi yn y tymor byr—ac rydym wedi trafod hyn, bron hyd at syrffed, yn lle hwn—yw trwy fuddsoddi mewn seilwaith, megis mewn cynlluniau trafnidiaeth, ysgolion, colegau, ysbytai a datblygiadau eraill, yn enwedig o gofio'r toriad anferthol o dros 40% yn arian cyfalaf Cymru. I wneud hyn, rhaid cael y pwerau, ac mae'r Llywodraeth wedi cyfaddef hynny wrth glustnodi'r symiau y byddai'n gobeithio eu codi trwy ffynonellau trethi, petai datganoli economaidd neu ariannol yn digwydd. Er mwyn gweithredu'r polisiâu hyn o stimwlws economaidd, rhaid codi arian yn gyfrifol, trwy fenthycu, trwy fondiau diogel a thrwy wneud y mwyaf o'n hadnoddau naturiol a diwygio systemau ardrethi busnes

ready to face cuts in public expenditure at this level. This was recently demonstrated when we saw a whole host of bids to the economic growth fund—a public fund to assist capital projects in the private sector.

Even those businesses that are ready to grow and to create jobs are finding it difficult without assistance from the public purse. That highlights the failure of the financial sector to boost growth, with the exception of its own growth. We have to target the economy and assist these businesses to grow, by developing structurally in the long term, following the economic renewal programme and investing in skills, infrastructure and the competitiveness of the economy in Wales. Therefore, Wales must follow an alternative policy route; a route that is appropriate to Wales.

Plaid Cymru's stance since 2009 is that although we admit that there is a need to reduce public expenditure and increase taxes to reduce the significant deficit that was left by the previous Westminster Government, that should be done over a longer period in order to avoid recession and an increase in unemployment and a lack of economic growth making the deficit even worse. Therefore, it is essential to target and prioritise growth in the economy, and we ask for a packet of measures to stimulate the economy so that it can grow.

One way of stimulating the economy in the short term—we have discussed this, ad nauseam almost, in this place—is to invest in infrastructure, such as transport plans, schools, colleges, hospitals and other developments, especially bearing in mind the huge cut of over 40% in capital funding in Wales. To do so, we need levers and the Government has admitted as much in allocating the sums that it hopes to raise through taxation, if fiscal devolution were to take place. In order to implement these economic stimulus policies, we need to raise funds in a responsible way, through borrowing and secure bonds, by making the most of our natural resources, and changing the business rate systems so that they are

fel eu bod yn addas ar gyfer y sefyllfa yng Nghymru.

Felly, yn ein barn ni, rhaid wrth bwerau addas i alluogi'r Llywodraeth hon i dargedu twf. Yn gyntaf, mae angen y pwerau benthyca, ac, wrth gwrs, rydym wedi gweld datganiad heddiw am yr hyn sy'n digwydd yn yr Alban. Mae gweld y rhestr honno o'r pwerau sydd i'w trosglwyddo i Lywodraeth yr Alban yn gwneud i rywun sylweddoli cymaint rydym ar ei hôl hi yng Nghymru, a chymaint o rym fydd gan y Senedd yn yr Alban—hyd yn oed o dan y trefniadau presennol, heb sôn am wedi unrhyw refferendwm yn y dyfodol—o gymharu â'n sefyllfa ni yng Nghymru.

Yn ail, mae angen inni gael y gallu i osod trethi ac i godi arian ar ein hadnoddau naturiol, a bydd Simon Thomas yn siarad am hynny yn y man. Yn drydydd, mae angen inni godi arian ar farchnadoedd bond, a dyma'r amser gorau i wneud hynny, gyda chyfraddau llog yn isel a *credit rating* anhygoel. Rydym wedi cynnig rhaglen Adeiladu dros Gymru yn ein manifesto, a'n bwriad fyddai codi tua £500 miliwn ar y farchnad bond. Roedd yn ddiddorol clywed Gerry Holtham yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i'r syniad hwn mewn cynhadledd yng Nghaerdydd yr wythnos diwethaf. Yn olaf, credwn y dylid datganoli pwerau dros ardrethi busnes a threthi annomestig. Cynigia hyn botensial i gymell cynghorau i dargedu twf trwy eu caniatáu i gadw canran o unrhyw ardrethi busnes ychwanegol y maent yn eu codi.

In Scotland and Northern Ireland, the business rate system is fully devolved, and, in England, it is going through a significant change because of the UK coalition Government's localism agenda. It was interesting to hear Professor Brian Morgan claiming last week that this will leave Wales in a uniquely disadvantaged position when it comes to business rates. Of the UK constituent nations, Wales alone will end up having its business rate pot, an asset worth nearly £1 billion, held centrally at the Treasury. Without control over the various levers for business rates, we will not be able to design a system in Wales that reflects the needs of businesses and the wider economy.

appropriate to the situation in Wales.

Therefore, in our opinion, we need suitable powers to enable this Government to target growth. First, we need borrowing powers and, of course, we have seen today's statement about what is happening in Scotland. Seeing that list of the powers that are to be transferred to the Scottish Government makes one realise how far behind we are in Wales, and how much power the Scottish Parliament will have—even under the current arrangements, never mind the result of any future referendum—as compared to our situation in Wales.

Secondly, we need the ability to set taxes and to raise funds from our natural resources, and Simon Thomas will talk about that in a moment. Thirdly, we need to raise money on the bond markets, and this is the best time to do so, with interest rates so low and an incredible credit rating. We proposed the Build for Wales programme in our manifesto and our intention would be to raise some £500 million on the bonds market. It was interesting to hear Gerry Holtham giving direct support to that idea in a conference in Cardiff last week. Finally, we believe that powers over business rates and non-domestic rates should be devolved. That would offer potential to encourage councils to target growth by allowing them to retain a percentage of any additional business rates that they raised.

Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon mae'r system ardrethi busnes wedi'i datganoli yn llawn, ac yn Lloegr mae'n mynd drwy newid sylweddol oherwydd agenda leoliaeth Llywodraeth glymblaid y DU. Roedd yn ddiddorol clywed yr Athro Brian Morgan yn honni yr wythnos diwethaf y bydd hynny'n gadael Cymru dan anfantais unigryw o ran ardrethi busnes. Yn y pen draw, o holl wledydd cyfansoddol y DU, dim ond pot ardrethi busnes Cymru, sy'n ased gwerth bron i £1 biliwn, fydd yn cael ei gadw'n ganolog yn y Trysorlys. Heb reolaeth ar yr amryw ysgogiadau o ran ardrethi busnes, ni fyddwn yn gallu cynllunio system yng Nghymru sy'n adlewyrchu anghenion busnesau a'r economi ehangach.

We have indicated possible funding sources and it is essential to have borrowing powers without facing the possibility of being financially penalised by the Treasury. That would allow us to raise the billions that are needed, not the millions, which is, again, to quote Gerry Holtham.

This is not revolutionary, nor would it 'destroy' Wales, to quote Peter Hain. Scotland is already about to receive control over many of the vital levers. As I said, there will be a new Scottish rate of income tax, the devolution of stamp duty, land tax and landfill tax, powers to create new taxes, and new borrowing powers. This will bring a much higher level of financial accountability to Holyrood as MSPs become responsible for raising the money that they spend. More importantly, it will give Scotland the ability to pursue alternative economic policies in the midst of the austerity agenda of the Tory-Liberal coalition at Westminster. It is happening in Scotland; Wales is lagging behind with no direction or impetus from the Government of Wales, while the economic figures are still so dismal.

A recent submission to the Silk commission by Plaid Cymru shows that there is a real appetite to take responsibility for the economy in Wales. It is no longer appropriate for this elected institution to spend public money without taking responsibility for generating that money, or a significant portion of it. That is our central argument today, and I look forward to hearing the views of other parties that are represented in the Assembly.

Gwelliant 1 Willam Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu gwaith Comisiwn Silk ac yn disgwyl ei argymhellion ar ragor o ddiwygio cyfansoddiadol.

Gwelliant 2 Willam Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Rydym wedi nodi ffynonellau cyllid posibl, ac mae'n hanfodol cael pwerau benthyca heb wynebu'r posibilrwydd o gael ein cosbi'n ariannol gan y Trysorlys. Byddai hynny'n caniatáu inni godi'r biliynau, ac nid y miliynau, y mae eu hangen, o ddyfynnu Gerry Holtham unwaith eto.

Nid yw hynny'n chwyldroadol, ac ni fyddai'n dinistrio Cymru chwaith, o ddyfynnu Peter Hain. Mae'r Alban eisoes ar fin cael rheolaeth ar lawer o'r ysgogiadau hanfodol. Fel y dywedais, bydd cyfradd treth incwm newydd yn yr Alban, bydd treth stamp, treth tir a threth tirlenwi'n cael eu datganoli, a bydd pwerau i greu trethi newydd a phwerau benthyca newydd. Bydd hynny'n sicrhau lefel uwch o lawer o atebolrwydd ariannol i Holyrood wrth i Aelodau o Senedd yr Alban ddod yn gyfrifol am godi'r arian y maent yn ei wario. Yn bwysicach na hynny, bydd yn rhoi'r gallu i'r Alban ddilyn polisiau economaidd amgen yng nghanol agenda galedi'r glymblaid Doriaidd-Ryddfrydol yn San Steffan. Mae'n digwydd yn yr Alban; mae Cymru ar ei hôl hi heb unrhyw gyfeiriad nac ysgogiad gan Lywodraeth Cymru, ac mae'r ffigurau economaidd yn dal yn ddilewyrch.

Mae cyflwyniad diweddar i gomisiwn Silk gan Blaid Cymru yn dangos bod awydd gwirioneddol i gymryd cyfrifoldeb am yr economi yng Nghymru. Nid yw bellach yn briodol i'r sefydliad etholedig hwn wario arian cyhoeddus heb gymryd cyfrifoldeb am gynhyrchu'r arian hwnnw, neu ran sylweddol ohono. Dyna yw ein dadl ganolog heddiw, ac edrychaf ymlaen at glywed barn y pleidiau eraill sy'n cael eu cynrychioli yn y Cynulliad.

Amendment 1 William Graham

Add as new point at end of motion:

Welcomes the work of the Silk Commission and awaits its recommendations on further constitutional reform.

Amendment 2 William Graham

Add as new point at end of motion:

Yn cydnabod bod economi gynaliadwy a ffyniannus yn galw am:

a) strategaeth i hyrwyddo busnesau cynhenid ar y farchnad ryngwladol; a

b) ymgysylltiad llawn â Llywodraeth y DU i hyrwyddo'r cwmnïau hynny o'r DU sydd â sefydliadau yng Nghymru.

Nick Ramsay: I move amendments 1 and 2 in the name of William Graham.

It is important and helpful to break this motion into two parts: first, the issue of the devolution of powers and, secondly, the Welsh Government's role in supporting a prosperous economy. My concern is that, in many ways, the Welsh Government already has considerable tools and law-making powers that it could employ if it wanted to assist economic recovery. Let us not forget that it was only a matter of weeks ago that a backbench enterprise Bill was roundly rejected by the Welsh Government and other parties, which was a deviation from the norm at that stage for that type of Bill, without having any alternative legislation that could have put the development of the economy on a statutory basis. Therefore, there is an element of constantly talking about further powers, without addressing what can be done with the powers that we have now.

Having said that, I agree with Alun Ffred's point that devolution has to change. That is the view that I took in the referendum last year, not with overwhelming success in my neck of the woods, but it was better than previous attempts, and successful enough to demonstrate what I think is a deep-seated pragmatism in people across Wales in relation to having tools and using them effectively.

Ieuan Wyn Jones: One normally recognises improvements to the economy with things such as fiscal responsibility, monetary policy and so on. Can you name one country in the world that has saved its economy through legislation?

Nick Ramsay: I will address those issues in

Acknowledges that a sustainable, prosperous economy requires:

a) a strategy to promote indigenous businesses on the international market; and

b) full engagement with the UK Government to promote those UK companies who have establishments within Wales.

Nick Ramsay: Cynigaf welliannau 1 a 2 yn enw William Graham.

Mae'n bwysig ac yn ddefnyddiol rhannu'r cynnig hwn yn ddwy ran: yn gyntaf, y mater sy'n ymwneud â datganoli pwerau, ac yn ail, rôl Llywodraeth Cymru o ran cefnogi economi ffyniannus. Fy mhryder i yw bod gan Lywodraeth Cymru, mewn sawl ffordd, adnoddau sylweddol a phwerau deddfu eisoes y gallai eu defnyddio pe bai am gynorthwyo adferiad economaidd. Gadewch inni beidio ag anghofio mai ychydig wythnosau sydd ers i Fil menter y meinciau cefn gael ei wrthod yn bendant iawn gan Lywodraeth Cymru a phleidiau eraill, a oedd yn wahanol i'r hyn sy'n digwydd fel arfer yn ystod y cam dan sylw ar gyfer y math hwnnw o Fil, heb fod unrhyw ddeddfwriaeth amgen ar gael a allai fod wedi rhoi datblygu'r economi ar sail statudol. Felly, ceir elfen o siarad yn gyson am ragor o bwerau, heb roi sylw i'r hyn y gellir ei wneud â'r pwerau sydd gennym yn awr.

Wedi dweud hynny, rwyf yn cytuno â phwynt Alun Ffred, sef bod yn rhaid i ddatganoli newid. Dyna oedd fy marn yn y refferendwm y llynedd, nad arweiniodd at lwyddiant ysgubol yn fy ardal i, ond roedd yn well nag ymdrechion blaenorol, ac yn ddigon llwyddiannus i ddangos pragmatiaeth ddofn, yn fy marn i, ymhlith pobl ar draws Cymru o safbwynt bod ag adnoddau a'u defnyddio yn effeithiol.

Ieuan Wyn Jones: Fel rheol, caiff gwelliannau i'r economi eu cydnabod â phethau megis cyfrifoldeb ariannol, polisi ariannol ac yn y blaen. A allwch enwi un wlad yn y byd sydd wedi achub ei heconomi drwy ddeddfwriaeth?

Nick Ramsay: Byddaf yn mynd i'r afael â'r

the next part, so I will move on swiftly.

The potential to drop air passenger duty within Wales, referring to the fiscal measures you talked about, and the potential beneficial effects to the economy cannot be underestimated. The devolution of taxation could only be a tool, not a panacea. In fact, Gerry Holtham's review had some interesting conclusions: reduction in the upper rate of income tax in Wales would be the best way to attract investment into Wales and the devolution of corporation tax, while entirely plausible, would only be worth doing to reduce it, and there would then be a knock-on effect on the finance available to the Assembly. Therefore, any Welsh Government would have to be sure that the benefits of a reduction in taxation would be realised.

If we were to raise income tax here, an appropriate mechanism would have to be found to ensure that Wales would not be worse off if the tax take were to fall at any time. I am sure that some parties would argue that that would never happen with ever-more powers, but I am not convinced about that.

Returning to the economic part of the motion, and as our second amendment indicates, we need a sustainable prosperous economy. That requires a strategy to promote indigenous business on the international market and full engagement with the UK Government to promote those UK companies that have establishments in Wales.

Pe bai rhywun wedi dweud wrthyf mai'r cyfaddawd oedd y gallwn wario hanner yr arian hwnnw ar gefnogi busnesau a defnyddio'r hanner arall i leihau treth gorfforaeth, rwyf yn gwybod beth fyddai busnesau yng Nghymru wedi ei ffafrio. Dyna a ddywedwyd gennym yn ein maniffesto yn 2007: roeddem yn barod i gymryd yr ergyd honno ar y gyllideb er mwyn cynorthwyo ein busnesau. Byddai hynny wedi helpu pob busnes yng Nghymru a oedd yn talu treth gorfforaeth, yn hytrach na'n bod yn dewis busnesau a allai wneud cais am grant, gyda rhai o'r ceisiadau yn llwyddiannus ac eraill yn cael eu gwrthod. Rwyf yn cofio, pan fu inni gynnal ein hadolygiad o fusnesau yn y rhaglen adnewyddu'r economi, bod nifer gwirioneddol y busnesau y cyffyrddodd y £250 miliwn hwnnw â hwy'n fach iawn. Roedd ymhell o fod yn cyffwrdd â'r mwyafrif helaeth o fusnesau, ond byddai rhoi cymorth uniongyrchol trwy dreth gorfforaeth yn cyffwrdd â llawer mwy. Byddai hynny wedi bod yn hynod o ddefnyddiol i mi.

Y pwynt arall yr wyf am ei wneud, ac rwyf yn gweld bod amser yn ein trechu, yw edrych

of taxes that we would want to see devolved. There are some small taxes, such as landfill tax, aggregates levy and air passenger duty, that Gerry Holtham tells us do not raise a great deal of money. If you want the real levers to assist, you need to go for things such as income tax and corporation tax. Income tax, even on 2007 figures, would bring in £5.2 billion to the Welsh exchequer. I am not saying that responsibility for the whole of that should be devolved currently, but, if at least a proportion of it is, it would bring significant sums of money and it would give you the degree of flexibility that the current block grant system does not.

I am very grateful for the opportunity to make a contribution. I think that we are now moving in the direction of further powers. The question is about the pace and the extent.

The First Minister (Carwyn Jones): I thank Members for their contributions to the debate this afternoon. It is important to understand, first of all, the nature of the Silk commission. Eluned Parrott did not quite get it right when she suggested that borrowing and taxation are outside of the Silk commission's remit. In fact, it is borrowing and the Barnett formula that are outside its remit. That was done deliberately. I pretty much wrote the terms of reference for the Silk commission, and the reason why borrowing and the Barnett formula were left out was because we wanted them to be dealt with sooner rather than later. We did not want either issue to be left until after the Silk commission had produced part 1 of its report.

There is a good reason for that. Before we look at issues such as substantial tax devolution, for example, the Barnett formula must be addressed. Otherwise, we end up accepting income tax, corporation tax or other taxes without having considered the effect on the Barnett formula and we will potentially be locking in the underfunding that we already have. Barnett must therefore come before anything else.

Looking at borrowing, it seems to me that there is very little argument against this

ar y mathau o drethi y byddem am eu gweld yn cael eu datganoli. Ceir rhai trethi bach, megis y dreth tirlenwi, yr ardoll agregau a'r doll teithwyr awyr, y mae Gerry Holtham yn dweud wrthym nad ydynt yn codi llawer o arian. Os ydych am i'r ysgogiadau go iawn gynorthwyo, mae angen ichi fynd ar drywydd pethau megis treth incwm a threth gorfforaeth. Byddai treth incwm, hyd yn oed ar sail ffigurau 2007, yn dod â £5.2 biliwn i drysorlys yng Nghymru. Nid wyf yn dweud y dylai'r cyfrifoldeb am y cyfan gael ei ddatganoli ar hyn o bryd, ond, pe bai o leiaf cyfran ohono'n cael ei ddatganoli, byddai'n dod â symiau sylweddol o arian a byddai'n rhoi rhywfaint o hyblygrwydd ichi nad yw'r system grant bloc bresennol yn ei roi.

Rwyf yn ddiolchgar iawn am y cyfle i wneud cyfraniad. Rwyf yn meddwl ein bod yn awr yn symud i gyfeiriad pwerau pellach. Yr hyn y mae angen ei ystyried yw pa mor gyflym ac i ba raddau.

Y Prif Weinidog (Carwyn Jones): Diolch i'r Aelodau am eu cyfraniadau i'r ddadl y prynhawn yma. Mae'n bwysig deall, yn gyntaf, natur comisiwn Silk. Nid oedd Eluned Parrott yn gwbl gywir pan awgrymodd fod benthycia a threthi y tu allan i gylch gorchwyl comisiwn Silk. A dweud y gwir, benthycia a fformiwla Barnett sydd y tu allan i'w gylch gorchwyl. Gwnaethpwyd hynny'n fwriadol. Fi ysgrifennodd y cylch gorchwyl ar gyfer comisiwn Silk, i bob pwrpas, a'r rheswm pam y gadawyd benthycia a fformiwla Barnett allan oedd oherwydd ein bod am iddynt gael sylw yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach. Nid oeddem am i'r naill fater na'r llall gael eu gadael tan ar ôl i gomisiwn Silk lunio rhan 1 ei adroddiad.

Mae rheswm da am hynny. Cyn inni edrych ar faterion megis datganoli treth yn sylweddol, er enghraifft, rhaid mynd i'r afael â fformiwla Barnett. Fel arall, byddem yn y pen draw yn derbyn treth incwm, treth gorfforaeth neu drethi eraill heb ystyried yr effaith ar fformiwla Barnett, a byddem efallai ynghlwm wrth y tanariannu sydd gennym eisoes. Mae'n rhaid i Barnett, felly, ddod cyn popeth arall.

O edrych ar fenthycia, mae'n ymddangos i mi mai prin yw'r ddadl yn erbyn rhoi pwerau

institution and this Government having powers to borrow. As I have said before in this Chamber, let us take the example of a major infrastructure project that the Government may want to take forward. Let us say that the Government wishes to create improvements along the M4 that would be outside the scope of the capital budget. In England, Scotland and Northern Ireland, the Government would be able to borrow to pay for such a project, but we in Wales would not. That means that such infrastructure projects cannot go ahead simply because they are in Wales. That clearly cannot be right in years to come. I say to Eluned Parrott that it is important not to accept devolution of taxation as a principle, but to look at the deal. At the end of the day, we are in it to get a good deal for the people of Wales rather than to accept something that may be a burden if it is not handled properly.

The Government has been very clear about what we see as the way forward for Wales and the financial settlement for Wales. We have already mentioned the need to borrow. We have already mentioned the need to secure a reform of Barnett. We have said in the past that we would like to see—and it is still the situation—the devolution of landfill tax and the aggregates levy, which are both in devolved areas, along with stamp duty—housing is another devolved area—and air passenger duty. We know that there are airlines that would come to Cardiff Airport if air passenger duty was devolved and the rate reduced. We know that because we have been speaking to them. Air passenger duty would be a comparatively small tax to devolve, but the effect would be quite substantial if it were to happen. Members have also heard me talk about the need to look at the Severn bridge when the contract runs out in the latter part of this decade. It is possible, we believe, to look at the maintenance of those bridges, to reduce the toll perhaps slightly, but not abolish it, and potentially create a revenue stream. Taken together, those taxes would create a revenue stream of £250 million. There will be those who will argue that that is not much. However, the important point is that we can borrow against it, and that releases a lot more money to allow us to borrow.

benthyca i'r sefydliad hwn a'r Llywodraeth hon. Fel yr wyf wedi dweud o'r blaen yn y Siambr, gadewch inni gymryd enghraifft o brosiect seilwaith mawr y gallai'r Llywodraeth fod am fwrw ymlaen ag ef. Gadewch inni ddweud bod y Llywodraeth yn dymuno creu gwelliannau ar hyd yr M4 a fyddai y tu allan i gwmpas y gyllideb gyfalaf. Yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, byddai'r Llywodraeth yn gallu benthyca i dalu am brosiect o'r fath, ond ni fyddem ni yng Nghymru yn gallu gwneud hynny. Mae hynny'n golygu na all prosiectau seilwaith o'r fath fynd yn eu blaen oherwydd eu bod yng Nghymru. Mae'n amlwg na all hynny fod yn iawn yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod. Dywedaf wrth Eluned Parrott ei bod yn bwysig peidio â derbyn datganoli trethi fel egwyddor, ond edrych ar y fargen. Yn y pen draw, rydym yn ceisio cael bargaen dda i bobl Cymru yn hytrach na derbyn rhywbeth a allai fod yn faich os nad yw'n cael ei drin yn briodol.

Mae'r Llywodraeth wedi bod yn glir iawn ynghylch yr hyn yr ydym yn ei ystyried yn ffordd ymlaen i Gymru a'r setliad ariannol ar gyfer Cymru. Rydym eisoes wedi sôn am yr angen i fenthyca. Rydym eisoes wedi sôn am yr angen i sicrhau bod fformiwla Barnett yn cael ei diwygio. Rydym wedi dweud yn y gorffennol y byddem yn hoffi gweld—ac mae'n dal yn wir—datganoli'r dreth tirlenwi a'r ardoll agregau, sy'n ymwneud â meysydd sydd wedi'u datganoli, ynghyd â'r doll stamp—mae tai yn faes arall sydd wedi'i ddatganoli—a'r doll teithwyr awyr. Rydym yn gwybod am gwmnïau awyrennau a fyddai'n dod i Faes Awyr Caerdydd pe bai'r doll teithwyr awyr wedi'i datganoli a phe bai'r gyfradd yn is. Rydym yn gwybod gan ein bod wedi siarad â hwy. Byddai'r doll teithwyr awyr yn dreth gymharol fach i'w datganoli, ond byddai'r effaith yn eithaf sylweddol pe bai'n digwydd. Mae'r Aelodau hefyd wedi fy nghlywed yn sôn am yr angen i edrych ar bont Hafren pan fydd y contract yn dod i ben yn ystod rhan olaf y degawd hwn. Credwn ei bod yn bosibl edrych ar waith cynnal a chadw'r pontydd hynny, lleihau'r doll ryw ychydig efallai, ond nid ei dileu, a chreu ffrwd refeniw o bosibl. Gyda'i gilydd, byddai'r trethi hynny yn creu ffrwd refeniw o £250 miliwn. Bydd rhai'n dadlau nad yw hynny'n llawer. Fodd bynnag, y pwyt

pwysig yw y gallwn fenthycu yn ei erbyn, ac y byddai hynny'n rhyddhau mwy o lawer o arian i ganiatáu inni fenthyg.

Pwynt Alun Ffred Jones oedd hwn: rydym wedi sôn am fenthycu ar y farchnad bondiau. Soniais am hyn 10 mlynedd yn ôl mewn pamffled o'r enw 'The Future of Welsh Labour'. Mae'n bwysig dros ben bod gan y farchnad ffydd yn y Llywodraeth i sicrhau ei bod am fenthycu arian i'r Llywodraeth ar gyfradd fforddiadwy. Wrth gwrs, y ffordd o wneud hynny yw sicrhau bod ffynhonnell o incwm i'r Llywodraeth fel bod y farchnad yn meddwl bod y Llywodraeth yn gallu talu'r ddyled pan ddaw'r amser. Mae hynny yn gwneud synnwyr yn fy marn i.

Alun Ffred Jones's point was this: we have talked about borrowing on the bond market. I mentioned this 10 years ago in a pamphlet called 'The Future of Welsh Labour'. It is vital that the market has confidence in the Government to ensure that it lends money to the Government at an affordable rate. Of course, that will be done by securing a source of income for the Government so that the market believes that the Government will be able to repay its debt when the time comes. That makes sense, in my opinion.

With regard to some of the issues that Nick Ramsay raised, I was going to ask him about any country where a law had been passed to improve the economy, but the Member for Ynys Môn got in before me. Nick Ramsay also seemed to suggest that he was in favour of full devolution of income tax. The reason why I say that is that he talked about the reduction in the upper rate and the advantages, in his view, that would accrue to Wales. That is a radical step and one I am sure that the Secretary of State for Wales will applaud.

O safbwynt rhai o'r materion a godwyd gan Nick Ramsay, roeddwn i'n bwriadu gofyn iddo am unrhyw wlad lle y mae cyfraith wedi ei phasio i wella'r economi, ond fe'm curwyd gan yr Aelod dros Ynys Môn. Roedd Nick Ramsay hefyd fel pe bai'n awgrymu ei fod o blaid datganoli treth incwm yn llawn. Y rheswm pam yr wyf yn dweud hynny yw ei fod wedi sôn am y gostyngiad yn y gyfradd uchaf a'r manteision, yn ei farn ef, a fyddai'n cronni i Gymru. Mae hwnnw'n gam radical ac yn un, rwyf yn siŵr, y bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ei gymeradwyo.

Nick Ramsay: That was not my thinking. That is Gerry Holtham's thinking. In his review of funding he said that, if you really wanted to assist the economy in Wales, then considering a reduction in the upper rate was the way to do it.

Nick Ramsay: Nid fy marn i oedd hynny, ond barn Gerry Holtham. Yn ei adolygiad o gyllid, dywedodd, os oeddech am gymryd camau gwirioneddol i helpu'r economi yng Nghymru, yna ystyried gostyngiad yn y gyfradd uchaf oedd y ffordd i wneud hynny.

The First Minister: I am grateful for the clarification. What I am not sure about is whether the Member agrees with it, having explained it to us. He rightly said that we need to be outward looking, which is why we have a good relationship with UK Trade and Investment. The UKTI has resources that are not available to us and I know that the relationship between the two organisations and between the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science and Lord Stephen Green, as Minister for Trade and Investment, is a very good relationship and one that will enable Wales to do well in the future. However, I have to ask: if we need to be outward looking, why the opposition to

Y Prif Weinidog: Rwyf yn ddiolchgar am yr eglurhad. Yr hyn nad wyf yn siŵr yn ei gylch yw a yw'r Aelod yn cytuno â hynny, ar ôl egluro hynny wrthym. Dywedodd, yn gywir ddigon, fod angen inni edrych tuag allan, a dyna pam y mae gennym berthynas dda â Masnach a Buddsoddi'r DU. Mae gan Masnach a Buddsoddi'r DU adnoddau nad ydynt ar gael i ni, a gwn fod y berthynas rhwng y ddau sefydliad a rhwng y Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a'r Arglwydd Stephen Green, sef y Gweinidog dros Fasnach a Buddsoddi, yn berthynas dda iawn ac yn un a fydd yn galluogi Cymru i wneud yn dda yn y dyfodol. Fodd bynnag, rhaid imi ofyn: os oes angen

the London office? Surely, the Welsh Government needs a trade and investment office in one of the world's largest financial centres. I never could quite understand why there was such deep-seated opposition to that proposal.

What troubles me, however, is the standard answer that is given at the moment by the UK Government. When we seek the devolution of a particular power, it will inevitably say that we have to wait until the Silk commission has reported. I can understand that in relation to some issues, but I do not understand it in relation to, for example, energy consents. Simon Thomas touched upon this. The reality is that, because of the failure to devolve the renewables obligation certificates and renewable energy consents, we are losing out on jobs and investment. We cannot compete with Scotland. Scotland controls the subsidy regime for, for example, marine energy in unpromising circumstances, whereas we do not. It can offer more money to developers in the marine sector, whereas we cannot. That means that we are losing out on jobs and investment. That cannot be a matter that has to wait for the Silk commission to report before devolution takes place.

Simon Thomas: Briefly, I agree with your strategy, First Minister, as regards this, and I also agree with your earlier point on bilateral talks around Holtham and the floor and borrowing powers. As you have just mentioned some reluctance on the part of Westminster Government to engage in this, are you confident that it will engage in those bilateral talks and will not just put those off as well until the Silk commission reports?

The First Minister: That was not the view of the Prime Minister when I met him, and I take him at his word when it comes to this matter. He has said to me that these are negotiations that will take place before the Silk commission reports. He accepted the terms of reference. I will take him at his

inni edrych tuag allan, pam gwrthwynebu'r swyddfa yn Llundain? Siawns nad oes angen i Lywodraeth Cymru gael swyddfa ar gyfer masnach a buddsoddi yn un o ganolfannau ariannol mwyaf y byd? Nid wyf erioed wedi gallu deall yn iawn pam y cafwyd gwrthwynebiad mor ddwfn i'r cynnig hwnnw.

Yr hyn sy'n fy mhoeni, fodd bynnag, yw'r ateb safonol a roddir ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU. Pan fyddwn yn ceisio datganoli pŵer penodol, dywed bob tro fod yn rhaid inni aros nes bydd comisiwn Silk wedi adrodd yn ôl. Gallaf ddeall hynny yng nghyswllt rhai materion, ond nid wyf yn ei ddeall yng nghyswllt, er enghraifft, caniatadau ynni. Cyffyrddodd Simon Thomas â hynny. Y gwir amdani yw, oherwydd y methiant i ddatganoli Tystysgrifau Ymrwymo i Ynni Adnewyddadwy a chaniatadau ynni adnewyddadwy, rydym yn colli'r cyfle i gael swyddi a buddsoddiad. Ni allwn gystadlu â'r Alban. Mae'r Alban yn rheoli'r drefn gymorthdaliadau ar gyfer, er enghraifft, ynni'r môr mewn amgylchiadau anaddawol, ond nid ydym ni'n gwneud hynny. Gall gynnig mwy o arian i ddatblygwyr yn y sector morol, ond ni allwn ni wneud hynny. Mae hynny'n golygu ein bod yn colli cyfle i gael swyddi a buddsoddiad. Ni all hynny fod yn fater lle y mae'n rhaid aros i gomisiwn Silk adrodd yn ôl cyn y gall datganoli ddigwydd.

Simon Thomas: Yn fyr, rwyf yn cytuno â'ch strategaeth, Brif Weinidog, yng nghyswllt hyn, ac rwyf hefyd yn cytuno â'ch pwynt cynharach ynghylch sgysiau dwyochrog am Holtham a'r terfyn isaf a phwerau benthyca. Gan eich bod newydd sôn am rywfaint o amharodrwydd ar ran Llywodraeth San Steffan i gymryd rhan yn y mater hwn, a ydych yn hyderus y bydd yn cymryd rhan yn y trafodaethau dwyochrog hynny, ac na fydd yn eu gohirio hwy hefyd nes bydd comisiwn Silk wedi adrodd yn ôl?

Y Prif Weinidog: Nid dyna oedd barn y Prif Weinidog pan gyfarfûm ag ef, ac rwyf yn derbyn ei air yng nghyswllt y mater hwn. Mae wedi dweud wrthyf bod y rhain yn drafodaethau a fydd yn digwydd cyn i gomisiwn Silk adrodd yn ôl. Derbyniodd y cylch gorchwyl. Rwyf am dderbyn ei air. Nid

word. I have no reason to disbelieve him at this stage, and, I hope, not at any stage.

Simon Thomas also pointed out the issue of the 100 MW limit with regard to renewable energy consents. That was introduced with good reason at the time. It was felt that it was a reasonable request to be made to the UK Government, but that request has been rebuffed many times. On that basis, there is no reason why we should be bound in the future by that limit.

In response to some of the points that other Members have raised, it is clearly important, as all Members have suggested, that we should have powers to borrow, but that borrowing must be done prudently. It is crucial that we should emphasise that. The principle has been established that, as a legislature, we should have a certain level of financial accountability. I do not disagree with that. What is important, of course, is that we move on to see what the Silk commission recommends. I have emphasised many times—and the Government has given leadership on this—what the Government sees in terms of what Part 1 of Silk should demonstrate. We have taken part in negotiations on borrowing and on Barnett, which have to be sorted out before we even look at tax devolution. That is why we are content to support this motion and the amendments to ensure that we have a financial settlement and fiscal devolution that our people will support, but also a settlement that will be in Wales's best interests.

Alun Ffred Jones: Mae hon wedi bod yn ddadl ystyrion iawn gyda llawer o gytundeb, yn gyffredinol beth bynnag. Y gwir amdani yw bod datganiad Swyddfa'r Alban heddiw ar Fil yr Alban yn tanlinellu bod newid parhaus yn digwydd i gyfansoddiad y Deyrnas Unedig, ac, yn ail beth, bod datganoli ariannol yn digwydd. Mae'n realiti. Mae'n digwydd yn yr Alban a Gogledd Iwerddon ac ni all Cymru fforddio cael ei gadael ar ôl. Croesawaf agwedd y Prif Weinidog a fynegwyd yn awr. Rwy'n cytuno â llawer o'r hyn a ddywedodd. Mae'r ffaith bod angen diwygio fformwla Barnett yn rhywbeth mae Plaid Cymru wedi bod yn dadlau yn gyson yn ei gylch ers i'r lle hwn gael ei sefydlu. Pan oedd y grym gan Lafur

oes gennyf reswm i beidio â'i gredu ar hyn o bryd, nac unrhyw bryd, gobeithio.

Tynnodd Simon Thomas sylw hefyd at y terfyn o 100 MW ar gyfer caniatadau ynni adnewyddadwy. Cyflwynwyd y terfyn ar sail rheswm da ar y pryd. Y farn oedd ei fod yn gais rhesymol i'w wneud i Lywodraeth y DU, ond mae'r cais hwnnw wedi ei wrthod droeon. Ar sail hynny, nid oes rheswm pam y dylem gael ein rhwymo yn y dyfodol gan y terfyn hwnnw.

Mewn ymateb i rai o'r pwyntiau a godwyd gan Aelodau eraill, mae'n amlwg yn bwysig, fel y mae pob Aelod wedi awgrymu, y dylem gael pwerau i fenthycu, ond rhaid benthycu'n ddoeth. Mae'n hollbwysig ein bod yn pwysleisio hynny. Mae'r egwyddor wedi'i sefydlu y dylem, fel deddfwrfa, gael rhyw lefel o atebolrwydd ariannol. Nid wyf yn anghytuno â hynny. Yr hyn sy'n bwysig, wrth gwrs, yw ein bod yn symud ymlaen i weld beth y mae comisiwn Silk yn ei argymhell. Rwyf wedi pwysleisio droeon—ac mae'r Llywodraeth wedi arwain yng nghyswllt y mater—yr hyn y mae'r Llywodraeth yn ystyried y dylai Rhan 1 Silk ei ddangos. Rydym wedi cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch benthycu a Barnett, sy'n faterion y mae'n rhaid eu datrys cyn inni hyd yn oed edrych ar ddatganoli trethi. Dyna pam yr ydym yn fodlon cefnogi'r cynnig hwn a'r gwelliannau i sicrhau bod gennym setliad ariannol a datganoli ariannol y bydd ein pobl yn eu cefnogi, ond setliad hefyd a fydd o'r budd pennaf i Gymru.

Alun Ffred Jones: This has been a meaningful debate, and there has, generally speaking, been a great deal of agreement. The truth of the matter is that the Scotland Office's statement today about the Scotland Bill underlines the fact that the UK constitution is constantly changing, and secondly, that fiscal devolution is taking place. It is a reality. It is happening in Scotland and Northern Ireland, and Wales cannot afford to be left behind. I welcome the attitude expressed now by the First Minister. I agree with much of what he said. The fact that the Barnett formula needs to be reviewed is something that Plaid Cymru has been arguing for constantly since this place was established. When Labour was in power in

yng Nghaerdydd ac yn Llundain ni wnaethant dim byd am y peth. Dyna sy'n rhwystredig iawn i ni ar y meinciau hyn: pan roedd gan Lafur y pwerau a'r grym yn Llundain, ni wnaeth unrhyw beth am y fformiwla ddiffygiol honno.

5.30 p.m.

I ddod yn ôl i dir mwy cymodlon, gwnaeth y Prif Weinidog bwynt ynghylch pwysigrwydd ein gallu i godi arian—hynny yw, cael pwerau codi trethi—er mwyn rhoi sicrwydd i'r farchnad i'n galluogi i fenthyca ar y farchnad fond, neu unrhyw le arall. Mae hwnnw'n bwynt gwbl sylfaenol. Ni allwch fenthyca heb gael ffynhonnell ariannol. Rydym wedi cydnabod hynny ers blynnyddoedd, ac rwy'n falch o glywed y Prif Weinidog yn ailddatgan hynny.

Yr hyn y byddwn yn gofyn i'r Prif Weinidog ei wneud yn y dyfodol agos yw datgan yn union yn lle mae'r trafodaethau rhwng y llywodraethau ar hyn o bryd—beth y gofynnwyd amdano a beth oedd ymateb y Llywodraeth yn Llundain—i ni gael gwybod yn union lle rydym yn sefyll, oherwydd mae amser yn brin. Ni allwn ganiatáu i'r Alban ddatblygu fel y mae a ninnau yn aros yn ein hunfan yn cwyno am y sefyllfa. Rydym angen y tŵls yn ein dwylo er mwyn inni gael gwneud y gwaith.

I will refer briefly to some of the other contributions, which, in the main, were very thoughtful. I must say, Nick, that I do not think that we can sit back and wait for Silk to report, and then have a think about it. We need to be more proactive and to hear voices from all quarters demanding powers, not for their own sake, but in order to use them to benefit the people of Wales. Eluned Parrott made the point that you cannot have a legislative body without some form of fiscal responsibility—a point that was well made.

Simon Thomas referred to the potential in the renewable energy sector to enrich our nation, and stated that our natural resources should work to benefit the people of Wales. The issue of the Crown Estate is fundamental. It is something that we should all rally around and demand control over, because it could be the bedrock for setting up some form of

Wales and London, they did nothing about it. That is what is frustrating for us on these benches: when Labour was in power in London, it did nothing about this deficient formula.

To return to a point on which there is consensus, the First Minister made a point about the importance of our ability to raise money—that is, to have tax raising powers—in order to give assurances to the market so that we can borrow on the bond market, or wherever. That is a fundamental point. You cannot borrow unless you have a source of income. We have recognised that for years, and I was pleased to hear the First Minister restating that.

What I would ask the First Minister to do in the near future is to state exactly where the intergovernmental negotiations stand at present—what has been requested and what was the response from London—so that we know exactly where we stand, because time is short. We cannot allow Scotland to develop as it is doing while we stay static, complaining about the situation. We need the tools so that we can get on with the job.

Cyfeiriaf yn fyr at rai o'r cyfraniadau eraill, a oedd, ar y cyfan, yn feddylgar iawn. Rhaid imi ddweud, Nick, nad wyf yn credu y gallwn eistedd yn ôl ac aros i Silk adrodd yn ôl, ac yna meddwl am y peth. Mae angen inni fod yn fwy rhagweithiol a chlywed lleisiau o bob cyfeiriad yn mynnu pwerau, nid er eu mwyn eu hunain, ond er mwyn eu defnyddio er budd pobl Cymru. Gwnaeth Eluned Parrott y pwynt na allwch gael corff deddfwriaethol heb ryw fath o gyfrifoldeb ariannol—pwynt a wnaethpwyd yn dda.

Cyfeiriodd Simon Thomas at y potensial sydd yn y sector ynni adnewyddadwy i gyfoethogi ein gwlad, a dywedodd y dylai ein hadnoddau naturiol weithio er lles pobl Cymru. Mae'r mater sy'n ymwneud ag Ystâd y Goron yn sylfaenol. Mae'n rhywbeth y dylem i gyd fynd i'r afael ag ef a mynnu rheolaeth arno, oherwydd gallai fod yn

sovereign wealth fund in the future, as Simon mentioned. Mick Antoniw, I think that you had prepared that speech to address another issue, but I do not dismiss the points that you made. Bethan Jenkins emphasised the fact that we do not want powers for their own sake, but to achieve a certain end.

To conclude, our motion argues that the further devolution of powers would help to deliver a sustainable and prosperous economy in Wales. Plaid Cymru fundamentally believes that the people of Wales should determine their own affairs and, with our motion, we reiterate that belief with regard to the economy. At the same time, we realise that we need to seek support for our views from a wider audience, which includes participating in the Silk commission, but it goes wider than that. The National Assembly must be the driver of progress for Wales. As the Welsh parliament, we cannot take a backseat, even though we welcome the opportunities that the commission has offered.

If Wales achieves a serious package of fiscal powers in the near future, we will at least have a chance to shape the future of our economy in a way that will take advantage of our numerous strengths. It would also, perhaps, get us out of this trap where we continually bleat about the failings of the London Government. That has to stop at some point. However bad it is, and however mean it is—[ASSEMBLY MEMBERS: 'Oh.'] No, I think that it deserves that. Do not get me going. [Laughter.] The fact is that, in general, we have to take control of our own affairs and take responsibility for what happens in Wales. If we are constantly saying that we do not have the relevant powers, that is a get out of jail card that is beneath our dignity and the people of Wales demand and deserve better. If Wales is let down by weak leadership in Cardiff and in London, we may miss the boat completely. My call today is for all parties to seize this opportunity, to take self-government forward and to renew our commitment to fighting for Welsh democracy and real power for the people of Wales.

sylfaen ar gyfer sefydlu rhyw fath o gronfa cyfoeth sofran yn y dyfodol, fel y soniodd Simon. Mick Antoniw, rwyf yn meddwl eich bod wedi paratoi'r araith honno i fynd i'r afael â mater arall, ond nid wyf yn diystyru'r pwyntiau a wnaethoch. Pwysleisiodd Bethan Jenkins y ffaith nad ydym am gael pwerau er eu mwyn eu hunain, ond er mwyn cyflawni diben penodol.

I gloi, mae ein cynnig yn dadlau y byddai datganoli rhagor o bwerau'n helpu i sicrhau economi gynaliadwy a ffyniannus yng Nghymru. Mae Plaid Cymru yn credu'n sylfaenol y dylai pobl Cymru wneud penderfyniadau ynghylch eu materion eu hunain, a chyda'n cynnig, rydym yn ailadrodd y gred honno yng nghyswllt yr economi. Ar yr un pryd, rydym yn sylweddoli bod angen inni ofyn am gefnogaeth i'n barn gan gynulleidfa ehangach, sy'n cynnwys cymryd rhan yng nghomisiwn Silk, ond mae'n mynd ymhellach na hynny. Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol sbarduno cynnydd i Gymru. Fel senedd Cymru, ni allwn eistedd yn y sedd ôl, er ein bod yn croesawu'r cyfleoedd y mae'r comisiwn wedi'u cynnig.

Os bydd Cymru yn cael pecyn difrifol o bwerau ariannol yn y dyfodol agos, o leiaf bydd gennym gyfle i lunio dyfodol ein heconomi mewn ffordd a fydd yn manteisio ar ein cryfderau niferus. Byddai hefyd, efallai, yn ein cael ni allan o'r fagl hon lle'r ydym yn cwyno'n barhaus am ddiffygion Llywodraeth Llundain. Rhaid i hynny ddod i ben rywbryd. Waeth pa mor wael a pha mor gybyddlyd yw hi—[AELODAU'R CYNULLIAD: 'O.'] Na, rwyf yn meddwl ei bod yn haeddu hynny. Peidiwch â'm hannog. [Chwerthin.] Y ffaith yw, yn gyffredinol, bod yn rhaid inni reoli ein materion ein hunain a chymryd cyfrifoldeb am yr hyn sy'n digwydd yng Nghymru. Os ydym yn dweud yn gyson nad yw'r pwerau perthnasol gennym, mae hynny'n golygu ein bod yn osgoi cymryd y bai a'n bod yn colli ein hurddas, ac mae pobl Cymru yn mynnu ac yn haeddu gwell na hynny. Os bydd Cymru yn cael ei siomi gan arweinyddiaeth wan yng Nghaerdydd ac yn Llundain, efallai y byddwn yn colli'r cyfle yn gyfan gwbl. Heddiw, rwyf yn galw ar i bob plaid fanteisio ar y cyfle hwn, rhoi hwb i hunanlywodraeth ac adnewyddu ein

hymrwymiad i ymladd dros ddemocratiaeth Gymreig a grym gwirioneddol i bobl Cymru.

Y Dirprwy Lywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod, ac felly gohirir y bleidlais ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The Deputy Presiding Officer: The question is that the motion be agreed without amendment. Is there any objection? I see that there is, and therefore voting on this item will be deferred until voting time.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

Dadl Democratiaid Rhyddfrydol Cymru Welsh Liberal Democrats Debate

Cronfeydd Strwythurol Structural Funds

Y Dirprwy Lywydd: Yr wyf wedi dethol gwelliant 1 yn enw Jane Hutt and gwelliant 2 yn enw William Graham.

The Deputy Presiding Officer: I have selected amendment 1 in the name of Jane Hutt and amendment 2 in the name of William Graham.

Cynnig NDM4947 Peter Black

Motion NDM4947 Peter Black

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn gresynu wrth yr ystadegau newydd sy'n dangos bod Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gostwng o 79 y cant i 68.4 y cant o gyfartaledd yr UE;

1. Regrets new statistics that show the GDP per capita of West Wales and the Valleys has fallen from 79% to 68.4% of the EU average;

2. Yn nodi bod yr ystadegau hynny wedi cael eu mesur yn gyson o flwyddyn i flwyddyn ac ar draws gwahanol ranbarthau a gwledydd yr UE; a

2. Notes that those statistics have been measured on a consistent basis from year to year and across the different regions and nations of the EU; and

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi strategaeth datblygu economaidd ar gyfer Gorllewin Cymru a'r Cymoedd ar fyrder er mwyn sicrhau, pe byddai Cymru'n gymwys ar gyfer cylch ychwanegol o gyllid, y gall prosiectau sy'n canolbwyntio ar ysgogi twf economaidd ddechrau ar unwaith.

3. Calls on the Welsh government to publish an economic development strategy for West Wales and the Valleys as a matter of urgency, in order to ensure that should Wales qualify for an additional round of funding, projects focused on driving economic growth can begin immediately.

Eluned Parrott: I move the motion.

Eluned Parrott: Cynigiaf y cynnig.

The decline in Wales's GDP relative to other parts of Europe in the figures announced this month was a disappointment to us all, and that is why we have chosen to explore these

Roedd y dirywiad yng Nghynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru o'i chymharu â rhannau eraill o Ewrop yn y ffigurau a gyhoeddwyd y mis hwn yn siom i bob un

issues in our debate this week. I would like to lay out some background information. While the party opposite may cavil and demur, an increase in GDP fundamentally means an increase in wealth that people across Wales would benefit from and share in. Between 2007 and 2013, our economy and people across Wales will receive around £1.9 billion of funding through the European structural funds programmes. In total, since 1999, Wales has spent £5 billion on regeneration, which is the equivalent of £1,600 for every person living in Wales. However, despite this massive injection of cash, Wales is still poor enough to qualify for yet another round of funding, and we need to know that current and future funds will be effectively spent.

Sadly, GDP for 2009 has slipped in west Wales and the Valleys to 68.4% of the EU average. This compares to 110.7% for the UK as a whole. Shockingly, west Wales and the Valleys is behind such areas as the Jugozapaden area of Bulgaria, Slovakia, Slovenia, Cornwall and the Isles of Scilly, and, I am sure Nick Ramsay will not be surprised to learn, most parts of Greece, including Ionia Nisia, Sterea Ellada, Peloponnisos, Voreio Aigaio, and other places that are even harder to pronounce. [*Laughter.*] The Welsh Government must take on board the plain facts and accept responsibility for them. If we fail to wake up to the reality of the situation that we are in, there really is no hope that we will take effective action to turn the tide.

That truth is a stark one. Relative to the rest of Europe, and despite increasing Europe's boundaries to include a number of much poorer states than the original block, our people are poor, and they are getting poorer. Billions of pounds of European money has failed to change that.

A decade ago, there was a sense that European funds were the answer to our prayers and back in January 2002, Rhodri Morgan said,

ohonom, a dyna pam yr ydym wedi dewis archwilio'r materion hyn yn ein dadl yr wythnos hon. Hoffwn gyflwyno rhywfaint o wybodaeth gefndir. Er y gall y blaid gyferbyn bigo bai a gwrthwynebu, mae cynnydd mewn Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn y bôn yn golygu cynnydd yn y cyfoeth y byddai pobl ledled Cymru yn elwa ohono ac yn ei rannu. Rhwng 2007 a 2013, bydd ein heconomi a phobl ar draws Cymru yn cael oddeutu £1.9 biliwn o gyllid drwy raglenni cronfeydd strwythurol Ewropeaidd. Er 1999, mae Cymru wedi gwario cyfanswm o £5 biliwn ar adfywio, sy'n cyfateb i £1,600 i bob person sy'n byw yng Nghymru. Fodd bynnag, er gwaethaf y chwistrelliad enfawr hwn o arian, mae Cymru yn dal yn ddigon tlawd i fod yn gymwys ar gyfer cylch arall o gyllid, ac mae angen inni wybod y bydd yr arian a geir yn awr ac yn y dyfodol yn cael ei wario'n effeithiol.

Yn anffodus, mae Cynnyrch Mewnwladol Crynswth ar gyfer 2009 wedi llithro'n ôl yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i 68.4% o gyfartaledd yr UE. Mae hynny'n cymharu â 110.7% ar gyfer y DU gyfan. Er mawr syndod, mae gorllewin Cymru a'r Cymoedd y tu ôl i ardaloedd megis ardal Jugozapaden ym Mwlgaria, Slofacia, Slofenia, Cernyw ac Ynysoedd Sili ac, rwyf yn siŵr na fydd Nick Ramsay yn synnu o glywed, y rhan fwyaf o Wlad Groeg, gan gynnwys Ionia Nisia, Sterea Ellada, Peloponnisos, Voreio Aigaio, a lleoedd eraill y mae'n anos fyth ynganu eu henwau. [*Chwerthin.*] Rhaid i Lywodraeth Cymru ystyried y ffeithiau moel a derbyn cyfrifoldeb amdanynt. O fethu â sylweddoli beth yw realiti'r sefyllfa yr ydym ynnddi, does dim gobaith inni gymryd camau gweithredu effeithiol i droi'r llanw.

Ni ellir osgoi'r gwirionedd hwnnw. O'u cymharu â phobl gweddill Ewrop, ac er i ffiniau Ewrop gael eu hystyried i gynnwys nifer o wladwriaethau llawer tlotach na'r bloc gwreiddiol, mae ein pobl ni'n dlawd, ac maent yn mynd yn dlotach. Mae biliynau o bunnoedd o arian Ewropeaidd wedi methu â newid hynny.

Ddegawd yn ôl, roedd ymdeimlad mai cronfeydd Ewropeaidd oedd yr ateb i'n gweddïau, ac yn ôl ym mis Ionawr 2002 dywedodd Rhodri Morgan,

‘This is our big chance to bring the Welsh standard of living up to the European average. We must not waste this chance.’

He also said,

‘I have a genuine feeling that Wales is on the move and on the brink of transforming into a thriving and modern country on the European and world stage’.

For 10 long years, we have apparently been teetering on the brink of a breakthrough, and for 10 long years we have been waiting. The Welsh Government needs to publish an economic development strategy for west Wales and the Valleys as a matter of urgency, with projects that deliver real, lasting improvements. Let us face it: after all these years of practice, surely by now we should be experts.

Gwelliant 1 Jane Hutt

Dilewch bwynt 3 a rhoi yn ei le:

‘Yn nodi bod Llywodraeth Cymru law yn llaw â’i phartneriaid yn paratoi strategaethau a hefyd brosiectau posibl i’w darparu yng nghyfnod Rhaglen 2014-2019 y Cronfeydd Strwythurol, sydd ar ein gwarthaf, hynny ynghyd â’r gyfres o weithgareddau sydd wrthi’n cael eu cynnal i helpu adfywiad economaidd y Gorllewin a’r Cymoedd a’r Dwyrain.’

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies): Cynigïaf welliant 1 yn enw Jane Hutt.

Gwelliant 2 William Graham

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod bod sector preifat cryf yn hanfodol er mwyn hybu twf economaidd yn rhannau tlotaf Cymru.

Nick Ramsay: I move amendment 3 in the name of William Graham.

Dyma ein cyfle mawr i godi safon byw Cymru fel ei bod yn cyrraedd cyfartaledd Ewrop. Rhaid inni beidio â gwastraffu’r cyfle hwn.

Dyweddodd hefyd,

Mae gennyf deimlad gwirioneddol bod Cymru yn symud ymlaen a’i bod ar fin cael ei thrawsnewid yn wlad ffyniannus a modern ar lwyfan Ewrop a’r byd.

Am 10 mlynedd hir, rydym, mae’n debyg, wedi bod ar drothwy cyfnod mwy llewyrchus, ac am 10 mlynedd hir rydym wedi bod yn disgwyl. Mae angen i Lywodraeth Cymru gymryd camau ar fyrder i gyhoeddi strategaeth datblygu economaidd ar gyfer gorllewin Cymru a’r Cymoedd, gyda phrosiectau sy’n sicrhau gwelliannau parhaol, go iawn. Gadewch inni wynebu’r gwir: ar ôl yr holl flynyddoedd hyn o ymarfer, siawns na ddylem fod yn arbenigwyr erbyn hyn.

Amendment 1 Jane Hutt

Delete point 3 and replace with:

‘Notes that the Welsh Government in association with its partners, is preparing strategies and possible projects to be delivered in the impending Structural Funds 2014-2019 Programme period, together with the series of actions currently being undertaken to assist the economic recovery of West Wales & the Valleys and East Wales.’

The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies): I move amendment 1 in the name of Jane Hutt.

Amendment 2 William Graham

Add as new point at end of motion:

Acknowledges that a strong private sector is essential in order to encourage economic growth in the poorest parts of Wales.

Nick Ramsay: Cynigïaf welliant 3 yn enw William Graham.

I am pleased to contribute to this timely debate in the wake of last week's concerning and well-documented GDP figures relating to west Wales and the Valleys, but also Wales in general. Yes, this is simply one set of figures, and it would be wrong to view them in isolation in the way that some have tried to do over the last week. However, on the other hand, they cannot be dismissed as urgently as they were by the Welsh Government in the immediate wake of their publication. There was a lot of talk at the time of figures being linked to issues such as commuter flows from the Valleys to Cardiff and between east and west Wales, and the way that GDP was being recorded. I do not think that that helped the situation.

I have already welcomed the Welsh Government's honesty on the Welsh brand issue, and progress is being made there. We need to have a serious debate about how we deal with that issue and the issue of GDP in Wales. It is not just the fall, but the scale of the fall, from 79% to 68.4% of the EU average, that has caught people's attention. We must recognise that west Wales and the Valleys has been defined as an area of deprivation that has suffered economically in the past. You cannot simply say that that area has not seen improvement; you must recognise that there is a problem. As Eluned Parrott pointed out, we have had various rounds of structural funding and European support, which previous Welsh Governments, of varying hues, have claimed would have a positive effect in the future. However, here we are in the future, but, to date, the statistics have been going in the wrong direction.

Mark Isherwood: Given the comments about net commuter outflows, do you share my concerns that only 2% of the working-age population in Wales comprises that net commuter outflow? In fact, in relative terms, Wales remains bottom of the 12 UK nations and regions, and has slipped further behind

Rwyf yn falch o gyfrannu at y ddadl amserol hon yn sgîl ffigurau'r wythnos diwethaf ynghylch Cynnyrch Mewnwladol Crynswth gorllewin Cymru a'r Cymoedd, a Chymru yn gyffredinol hefyd, sydd wedi'u cofnodi'n helaeth ac sy'n peri pryder. Mae'n wir mai un set yn unig o ffigurau yw'r rhain, a byddai'n anghywir eu hystyried ar eu pen eu hunain fel y mae rhai wedi ceisio gwneud dros yr wythnos diwethaf. Ar y llaw arall, fodd bynnag, ni ellir eu diystyru mor frysio ag y gwnaeth Llywodraeth Cymru yn syth ar ôl iddynt gael eu cyhoeddi. Roedd llawer o sôn ar y pryd bod y ffigurau'n gysylltiedig â materion megis pobl yn cymudo o'r Cymoedd i Gaerdydd a rhwng y dwyrain a'r gorllewin, ac roedd llawer o sôn am y modd yr oedd Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn cael ei gofnodi. Nid wyf o'r farn bod hynny wedi helpu'r sefyllfa.

Rwyf eisoes wedi croesawu gonestrwydd Llywodraeth Cymru ynghylch y mater sy'n ymwneud â brand Cymru, a chaiff cynnydd ei wneud o ran hynny. Mae angen inni gael trafodaeth ddifrifol ynghylch sut yr ydym yn bwriadu ymdrin â'r mater hwnnw ac â Chynnyrch Mewnwladol Crynswth yng Nghymru. Nid y gostyngiad yn unig sydd wedi dal sylw pobl, ond maint y gostyngiad, o 79% i 68.4% o gyfartaledd yr UE. Rhaid inni gydnabod bod ardal gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi cael ei diffinio'n ardal o amddifadedd, sydd wedi dioddef yn economaidd yn y gorffennol. Ni allwch ddweud nad yw'r ardal honno wedi gweld gwelliant; rhaid ichi gydnabod bod problem. Fel y dywedodd Eluned Parrott, rydym wedi cael amryw gylchoedd o gyllid strwythurol a chymorth Ewropeaidd, yr oedd Llywodraethau blaenorol Cymru, o amryw liwiau, yn honni y byddai'n cael effaith gadarnhaol yn y dyfodol. Fodd bynnag, dyma ni yn y dyfodol, ond hyd yn hyn, mae'r ystadegau wedi bod yn mynd i'r cyfeiriad anghywir.

Mark Isherwood: O ystyried y sylwadau am all-lif cymudo net, a ydych chithau, fel finnau, yn pryderu nad yw'r all-lif cymudo net hwnnw ond yn cyfateb i 2% o'r boblogaeth sydd o oedran gweithio yng Nghymru? Yn wir, mewn termau cymharol, mae Cymru yn parhau ar y gwaelod o

the others that also have net commuter outflows.

Nick Ramsay: It will not surprise you, Mark, that I agree completely with what you have just said. You put it as well as I could have done, therefore it is a point well made.

There are bigger issues behind the whole issue of structural funding, and the only way that you can face up to the GDP issue is by looking at the whole issue of funding and its detail, and where structural funding has been allocated in the past. The Minister herself has expressed concerns about spending under previous Governments. The thinking has moved on in the European Union, and those who share a place on the Enterprise and Business committee with me have sat through many briefings on the new way of doing things in Brussels—glorious thematic concentration and conditionality mean that simply throwing money at a problem is no longer viewed as the way forward in Brussels.

The figures for west Wales and the Valleys are one aspect of the broader Welsh picture. Wales's GDP is at 82% of the average of the 27 EU nations, while areas such as Scotland are at over 100%. Therefore, there is certainly a separate issue with regard to Barnett funding that needs to be addressed. We are all united in calling for a needs-based formula for Wales, when practical. However, that alone is not the answer. As our amendment points out, the private sector needs to be supported as the driver to get the poorer parts of Wales out of deprivation. Many discussions in this Chamber have revolved around the need to boost the private sector, and these GDP figures are stark illustrations of the wider problem of the reality on the ground when aspects of economic policy go awry. If we do not have a different course and make the best use of the structural funding for which Wales will almost certainly qualify, what is to stop the situation slipping again and, as we sit here, bemoaning the state of things in endless debates, for us to find that that is happening

safbwynt 12 gwlad a rhanbarth y DU, ac mae wedi llithro ymhellach y tu ôl i'r lleill sydd ag all-lif cymudo net hefyd.

Nick Ramsay: Ni fydd yn syndod ichi, Mark, fy mod yn cytuno'n llwyr â'r hyn yr ydych newydd ei ddweud. Rydych wedi ei fynegi gystal ag y gallwn i, felly mae'n bwynt a wnaed yn dda.

Mae problemau mwy y tu ôl i'r holl fater sy'n ymwneud â chyllid strwythurol, a'r unig ffordd y gallwch fynd i'r afael â'r broblem sy'n ymwneud â Chynnyrch Mewnwladol Crynswth yw drwy edrych ar yr holl fater sy'n ymwneud â chyllid a'i fanylion, a'r manau lle y mae cyllid strwythurol wedi'i ddyrannu yn y gorffennol. Mae'r Gweinidog ei hun wedi mynegi pryderon ynghylch gwariant dan Lywodraethau blaenorol. Mae syniadau wedi symud yn eu blaen yn yr Undeb Ewropeaidd, ac mae'r sawl sy'n aelodau o'r Pwyllgor Menter a Busnes gyda mi wedi eistedd drwy lawer o sesiynau briffio ynghylch y ffordd newydd o wneud pethau ym Mrwsel—mae termau gwych megis canolbwyntio thematig ac amodoldeb yn golygu nad yw Brwsel bellach o'r farn mai taflu arian at broblem yw'r ffordd ymlaen.

Un agwedd o'r darlun ehangach yng Nghymru yw'r ffigurau ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae Cynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru yn cyfateb i 82% o gyfartaledd 27 gwlad yr UE, tra mae Cynnyrch Mewnwladol Crynswth ardaloedd megis yr Alban yn cyfateb i dros 100%. Felly, mae'n sicr bod angen mynd i'r afael â mater ar wahân sy'n ymwneud ag arian Barnett. Rydym i gyd yn galw am fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion i Gymru, pan fo hynny'n ymarferol. Fodd bynnag, nid dyna'r unig ateb. Fel y mae ein gwelliant yn nodi, mae angen hybu'r sector preifat fel y sbardun a all godi'r rhannau tlotaf o Gymru allan o amddifadedd. Mae llawer o drafodaethau yn y Siambr hon wedi troi o gwmpas yr angen i roi hwb i'r sector preifat, ac mae'r ffigurau hyn ynghylch Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn enghreifftiau amlwg o'r broblem ehangach sy'n ymwneud â realiti ar lawr gwlad pan fydd agweddau ar bolisi economaidd yn mynd o chwith. Os na fydd gennym lwybr gwahanol i'w ddilyn ac os na fyddwn yn gwneud y defnydd gorau o'r

time and again?

cyllid strwythurol y bydd Cymru bron yn sicr yn gymwys i'w gael, beth sydd i atal y sefyllfa rhag gwaethygu eto, ac wrth inni eistedd yma'n cwyno am gyflwr pethau mewn dadleuon diddiwedd, beth sydd i'n hatal rhag gweld bod hynny'n digwydd dro ar ôl tro?

There is a crossover with the previous debate, which I mentioned earlier, in terms of the extent to which the Welsh Government uses the power at its disposal to assist the economy. It seems that we are desperately looking for a way out of the problems that we are debating, looking to greater powers and blaming the UK Government where we think we can get away with it, while ignoring the elephant in the room, which is the need to make more money in parts of Wales where that has been difficult in the past. Yes, it will be a difficult challenge; it is not an easy thing to do. However, we must start to ensure that those poorer areas of Wales that receive structural funding and support are not receiving it in just a charitable way, but are able to use that money to ensure that that investment generates wealth in the future. That will mean that, in future, we will not be having these debates; we will be patting ourselves on the back, asking, 'Didn't we do well to improve things?'

William Powell: When one looks at the European funding map of Wales, it becomes obvious that my region of Mid and West Wales accounts for quite a large chunk of it. As a result, it is with some regret that I stand here today recognising the reality that many parts of that region are still languishing economically, regardless of the European funding that has been received.

Small businesses in particular are hard hit across Mid and West Wales. In Ceredigion alone, there are over 8,000 microbusinesses, many of which are lacking in transport links and have limited high-speed broadband access. The issue of internet access becomes all the more acute when considering a recent report that highlights the fact that the UK as a whole makes the most money from the internet, and that it will soon make up to 12% of the UK's GDP. Despite this, the Google

Ceir rhywfaint o orgyffwrdd â'r ddadl flaenorol, a grybwyllais yn gynharach, o safbwynt y graddau y mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r pŵer sydd ganddi i gynorthwyo'r economi. Ymddengys ein bod yn chwilio'n daer am ffordd allan o'r problemau yr ydym yn eu trafod, gan droi at bwerau uwch a beio Llywodraeth y DU lle y credwn y gallwn wneud hynny heb gael ein dal, ond ar yr un pryd rydym yn anwybyddu'r angen amlwg, sef yr angen i wneud mwy o arian mewn rhannau o Gymru lle y mae hynny wedi bod yn anodd yn y gorffennol. Bydd yn her anodd, wrth gwrs; nid yw'n beth hawdd ei wneud. Fodd bynnag, rhaid inni ddechrau sicrhau nad yw'r ardaloedd tlotach hynny o Gymru sy'n cael cyllid strwythurol a chymorth yn eu cael mewn ffordd elusengar yn unig, ond eu bod yn gallu defnyddio'r arian dan sylw i sicrhau bod y buddsoddiad hwnnw'n creu cyfoeth yn y dyfodol. Bydd hynny'n golygu na fyddwn, yn y dyfodol, yn cael y dadleuon hyn; yn hytrach, byddwn yn ein canmol ein hunain ac yn gofyn, 'Oni wnaethom yn dda i wella pethau?'

William Powell: Wrth edrych ar fap o Gymru o safbwynt cyllid Ewropeaidd, daw'n amlwg bod fy rhanbarth i, sef Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn ddarn go fawr ohono. O ganlyniad, rwyf yn gresynu fy mod yn sefyll yma heddiw'n cydnabod y realiti bod sawl rhan o'r rhanbarth hwnnw'n parhau ar ei hôl hi o safbwynt economaidd, ni waeth faint o gyllid Ewropeaidd y maent wedi'i gael.

Mae busnesau bach yn enwedig yn dioddef ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yng Ngheredigion yn unig, ceir dros 8,000 o ficrofusnesau, y mae gan lawer ohonynt gysylltiadau trafndiaeth annigonol a mynediad cyfyngedig i fand eang cyflym. Mae mynediad i'r rhyngwyd yn dod yn fater mwy difrifol fyth wrth ystyried adroddiad diweddar sy'n tynnu sylw at y ffaith bod y DU yn ei chyfanrwydd yn gwneud yr arian mwyaf o'r rhyngwyd, ac y bydd yr arian

search engine confirms that Welsh businesses are trailing behind the rest of the UK, because of a lack of broadband presence.

5.45 p.m.

This evidence shows that 25% of small and medium-sized firms in Wales have no website, and that only 58% have what it defines as 'a high web presence'. If businesses in Ceredigion, Carmarthenshire and Pembrokeshire are to move beyond the public sector, tourism and farming, which have historically dominated their economy, that is crucial. For too long these regions have been ignored by the Welsh Government, while efforts have concentrated more on the M4 corridor and in the Valleys areas.

Many would call these statistics indefensible, and it is truly disturbing to think that what should have happened in the past decade has not taken place. We should not dismiss European Union funding as somehow irrelevant to the future of the Welsh economy. If used prudently it can provide effective support, not only in supporting macro-economic shifts, but in allowing individual businesses and projects to succeed where they would otherwise not have done so.

For evidence of this, we need to look no further than our European partners. Much attention has been given in recent years to the great success enjoyed by the German federal state of Sachsen-Anhalt, following its successful application of the same funds, which have so clearly not been properly managed in Wales. Under the Sachsen-Anhalt 2007-13 operational programme, the region identified six key priorities, which highlighted the need to develop innovation, research, infrastructure, economic competitiveness, urban development and education. If only such a programme could have been applied as successfully in Wales. That part of Germany has been transformed

hwnnw'n fuan yn cyfateb i hyd at 12% o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth y DU. Er hynny, mae peiriant chwilio Google yn cadarnhau bod busnesau Cymru yn llusgo y tu ôl i weddill y DU, oherwydd diffyg presenoldeb band eang.

Mae'r dystiolaeth hon yn dangos nad oes gan 25% o gwmnïau bach a chanolig eu maint yng Nghymru wefan, ac mai dim ond 58% sydd â'r hyn a elwir yn 'bresenoldeb amlwg ar y we'. Os yw busnesau yng Ngheredigion, Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro am symud y tu hwnt i'r sector cyhoeddus, twristiaeth a ffermio, sef elfennau amlycaf eu heconomi yn hanesyddol, mae hynny'n hanfodol. Am gyfnod rhy hir, mae'r rhanbarthau hyn wedi'u hanwybyddu gan Lywodraeth Cymru, wrth i ymdrechion gael eu canolbwyntio i raddau mwy ar goridor yr M4 ac ardaloedd y Cymoedd.

Byddai llawer yn dweud bod yr ystadegau hyn yn rhai na ellir eu hesgusodi, ac mae meddwl nad yw'r hyn a ddylai fod wedi digwydd yn ystod y degawd diwethaf wedi digwydd mewn gwirionedd yn peri pryder difrifol. Ni ddylem ddiystyru cyllid yr Undeb Ewropeaidd gan feddwl ei fod rywsut yn amherthnasol i ddyfodol economi Cymru. O'i ddefnyddio'n ddoeth, gall ddarparu cymorth effeithiol, nid yn unig o safbwynt hybu newidiadau macro-economaidd, ond hefyd o safbwynt caniatáu i brosiectau a busnesau unigol lwyddo lle na fyddent wedi llwyddo fel arall.

I weld tystiolaeth o hynny, nid oes angen inni edrych ymhellach na'n partneriaid Ewropeaidd. Mae llawer o sylw wedi'i roi yn ystod y blynyddoedd diwethaf i'r llwyddiant mawr a welwyd yn nhalaith ffederal Sachsen-Anhalt yn yr Almaen, yn dilyn ei defnydd llwyddiannus o'r un cronfeydd, nad ydynt, mae'n amlwg, wedi'u rheoli'n gywir yng Nghymru. Dan raglen weithredol 2007-13 Sachsen-Anhalt, nododd y rhanbarth chwe blaenoriaeth allweddol, a oedd yn tynnu sylw at yr angen i ddatblygu arloesedd, ymchwil, seilwaith, cystadleurwydd economaidd, datblygu trefol ac addysg. Byddai'n braf pe bai rhaglen o'r fath wedi gallu cael ei rhoi ar waith mor llwyddiannus yng Nghymru.

from an economy based on the Trabant to a twenty-first century example of success. As the academic Jörg Mathias makes clear, the two regions, or rather that region and the nation of Wales, are directly comparable. However, in these figures, one sees how far we have fallen behind the EU average. I urge the Deputy Minister to join his colleague Derek Vaughan MEP in giving some close attention to the Sachsen-Anhalt model.

However, in criticising the clear failures that have occurred, we should also recognise where there has been success. For example, individual projects, such as the proposals to restore Cardigan castle, using £4.3 million from the European regional development fund, are to be welcomed and will help to sustain important jobs in that part of Wales.

As constituents and business owners often make clear to me, it is obvious when a clear business case is available, and EU funding is there to assist in its success. However, when projects are forced to jump through additional hoops to chase funding, rather than to follow a potentially successful business plan, EU funds can so often be misused and frittered away. That is why the Welsh Government needs to engage more energetically with business, to improve its mentoring and training schemes. It needs to improve its communications structure and to ensure that such applications are evaluated by merit and by their deliverability, rather than simply by being adjusted to meet some random criteria that are enforced.

Put simply, as commissioner Johannes Hahn said recently, European structural funds must have a legacy, and that legacy must be one for the benefit of the whole of Wales. I urge colleagues across this Chamber to support this important motion today.

Mae'r rhan honno o'r Almaen wedi'i thrawsnewid o fod yn economi sy'n seiliedig ar y Trabant i fod yn enghraifft o lwyddiant sy'n briodol i'r unfed ganrif ar hugain. Fel yr eglura'r academydd, Jörg Mathias, mae modd cymharu'r ddau ranbarth, neu'n hytrach rhanbarth Sachsen-Anhalt a Chymru fel gwlad, yn uniongyrchol â'i gilydd. Fodd bynnag, yn y ffigurau hyn, gwelwn mor bell yr ydym wedi syrthio y tu ôl i gyfartaledd yr UE. Rwyf yn annog y Dirprwy Weinidog i ymuno â'i gydweithiwr, yr Aelod Seneddol Ewropeaidd, Derek Vaughan, i roi sylw manwl i fodel Sachsen-Anhalt.

Fodd bynnag, wrth feirniadu'r methiannau amlwg sydd wedi digwydd, dylem hefyd gydnabod y manau hynny lle y gwelwyd llwyddiant. Er enghraifft, croesewir prosiectau unigol megis y cynigion i adfer castell Aberteifi gan ddefnyddio £4.3 miliwn o gronfa datblygu rhanbarthol Ewrop, a bydd hynny'n help i gynnal swyddi pwysig yn y rhan honno o Gymru.

Fel yr eglura etholwyr a pherchnogion busnesau wrthyf yn aml, mae'n hollol amlwg pan fydd achos busnes clir yn bodoli, ac mae cyllid yr UE yno i'w gynorthwyo i lwyddo. Fodd bynnag, pan gaiff prosiectau eu gorfodi i fodloni gofynion ychwanegol i gael gafael ar gyllid, yn hytrach na'u gadael i ddilyn cynllun busnes a allai fod yn llwyddiannus, gall cronfeydd yr UE gael eu camddefnyddio a'u gwastraffu'n aml iawn. Dyna pam y mae angen i Lywodraeth Cymru ymgysylltu'n fwy egnïol â byd busnes, i wella ei chynlluniau mentora a hyfforddi. Mae angen iddi wella ei strwythur cyfathrebu a sicrhau bod ceisiadau o'r fath yn cael eu gwerthuso yn ôl pa mor deilwng ydynt a pha mor debygol ydynt o gael eu cyflawni, yn hytrach na thrwy eu haddasu dim ond er mwyn bodloni rhyw feini prawf mympwyol sy'n cael eu gorfodi.

Yn syml, fel y dywedodd y comisiynydd, Johannes Hahn, yn ddiweddar, rhaid i gronfeydd strwythurol Ewropeaidd adael gwaddol, a rhaid i'r gwaddol hwnnw fod yn un sydd o fudd i Gymru gyfan. Rwyf yn annog fy nghydweithwyr ar draws y Siambur hon i gefnogi'r cynnig pwysig hwn heddiw.

Alun Ffred Jones: Diolch am y cyfle i ddweud gair yn y ddadl hon. Ni fyddaf yn hir, yn amlhau geiriau, nac yn ailadrodd fy hun yn ormodol. Ni all neb ddadlau â rhan gyntaf y cynnig hwn. Mae'r ffigurau diweddaraf ar berfformiad yr economi yng Nghymru yn gyffredinol yn siomedig eithriadol. Ni allwch guddio'r ffaith y bu tuedd yn ystod y degawdau diwethaf i berfformiad Cymru, o'i gymharu â gweddill Prydain ac Ewrop, fod yn siomedig iawn.

Un o'r gwendidau sylfaenol yn yr economi yw diffyg cwmnïau sydd â'u pencadlys yma yn gwneud gwaith datblygu ac ymchwil, ac, felly, sydd â'u gwreiddiau yma yng Nghymru. Mae diffyg cwmnïau o'r fath yn wendid sylfaenol yn yr economi, ac, o'r herwydd, wedi arwain at sefyllfa lle rydym yn ddibynnol ar gwmnïau nad sydd ond yn dod yma, mewn gwirionedd, i roi darnau at ei gilydd ac felly, o safbwynt cyflogau ac yn y blaen, nid ydynt yn gwneud y gwahaniaeth y mae ei angen arnom.

Ar ran olaf cynnig y Rhyddfrydwyr sy'n sôn am greu strategaeth economaidd i orllewin Cymru a'r Cymoedd, buaswn i'n dadlau bod hynny'n syniad afrealistig. Mae neilltuo amser ac adnoddau Llywodraeth i ddatblygu strategaeth mewn un rhan o'r genedl pan fo gennych strategaeth economaidd ar gyfer Cymru gyfan, yn wastraffus. Byddai hynny'n golygu canolbwyntio eich egni ar greu strategaeth yn hytrach na mynd i'r afael â'r argyfwng a gweithredu ar frys.

Rydym wedi nodi lawer gwaith—ac nid wyf am ei ailadrodd y prynhawn yma—yr hyn rydym yn credu y gellir ei wneud yn y tymor byr a'r tymor canolig o safbwynt sicrhau bod cwmnïau yng Nghymru yn cael gwaith ac yn cyflogi pobl, ac yn rhoi cyfleoedd i bobl ifanc i fwrw prentisiaeth. Credwn mai dyma'r cam cyntaf a'r cam pwysicaf y dylid ei gymryd. Ni fydd hynny'n ateb y problemau hirdymor, ond dylai fod yn rhan o'r strategaeth gyffredinol a luniwyd ryw ddwy flynedd yn ôl, a dylem fwrw ymlaen gyda hynny er mwyn cynyddu lefelau sgiliau a chynyddu safonau addysgol.

Mae'r dirywiad pellach yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, o gymharu'r ffigurau

Alun Ffred Jones: I am grateful for the opportunity to contribute to this debate. I will not be long, nor repeat myself too much. No-one could argue with the first part of this motion. The latest figures on the performance of the economy in Wales in general are very disappointing. You cannot hide the fact there has been a trend in the last decades for the performance of Wales, compared with the rest of the UK and Europe, to be very disappointing.

One of the fundamental weaknesses in the economy is the lack of companies headquartered here doing research and development work, and, therefore, with their roots in Wales. The lack of such companies is a fundamental weakness in the economy and, as a result, that has led to a situation in which we are dependent upon companies that only come here, frankly, to assemble parts and therefore, from the point of view of wages and so on, they do not make the difference that we need them to make.

In relation to the last part of the Liberal Democrats' motion, about creating an economic strategy for west Wales and the Valleys, I would argue that that is an unrealistic idea. Allocating the time and resources of Government to developing a strategy in one of part of the nation when you have an economic strategy for the whole of Wales is wasteful. That would mean concentrating your energy on creating a strategy rather than getting to grips with the crisis and taking urgent action.

We have noted many times—I will not repeat it this afternoon—what we think could be done in the short and medium term in terms of ensuring that companies in Wales get work and employ people, and give young people the opportunity of an apprenticeship. We think that that is the first step and the most important step that should be taken. That does not answer the long-term problems, but it should be part of the general strategy drawn up some two years ago, and we should get on with that in order to increase skills levels and educational standards.

The further decline in west Wales and the Valleys, in comparison with the European

â'r cyfartaledd Ewropeaidd, yn bryder parhaus, yn enwedig yng nghyd-destun y cythrwfl economaidd sy'n digwydd ar hyn o bryd. Am y rheswm hwn, mae angen yr ysgogiad ariannol ychwanegol arnom yn y tymor byr. Mae gweld ffigurau'r gorllewin a'r Cymoedd yn peri pryder, ond pryder pellach yw gweld bod ffigurau dwyrain Cymru yn gostwng yn is na chyfartaledd yr Undeb Ewropeaidd. Unwaith eto, mae hyn yn tynnu sylw at yr angen i fynd i'r afael â'r sefyllfa economaidd a chael ymrwymiad cadarn i'r rhaglen i adnewyddu'r economi.

Ni ddylem syrthio i'r trap o feddwl bod maint Cymru rywsut neu'i gilydd yn golygu y byddwn ar yr ymylon ac ar ei hôl hi o hyd. Mae cenedloedd bychain ar hyd a lled y byd, ac yn sicr yn Ewrop, yn perfformio cystal, ac weithiau yn well nag economïau gwledydd mawr. Nid oes dim byd ynghylch maint sy'n golygu bod yn rhaid ichi fod yn dlotach na gwledydd eraill. Felly, dylem ni yng Nghymru anelu'n uchel er mwyn rhoi cyfle i'n pobl ifanc ar gyfer y dyfodol.

Mae hefyd yn wir—a dyma un o wendidau sylfaenol y Deyrnas Unedig—mai'r genedl sy'n perfformio orau a'r genedl leiaf anghyfartal yw'r Almaen, sef cenedl sy'n cael ei nodweddu i raddau helaeth gan ddatganoli economaidd, lle mae amrywiaethau rhanbarthol yn cael eu parchu ac, yn wir, yn cael eu hyrwyddo. Gwn fod yr Almaen yn wlad fawr ac yn wlad sydd â thraddodiad economaidd cryf, ond mae'r Almaen hefyd yn wlad ryfeddol o gyfartal o'i chymharu â Phrydain a'r anghyfartaledd sy'n golygu bod un rhan o'r wlad yn eithriadol o gyfoethog, sef de-ddwyrain Lloegr, a nifer fawr o ardaloedd ar yr ymylon yn gymharol dlawd. Mae bwlch anferthol yn datblygu ym Mhrydain rhwng y rhai sydd ar y lefel uchaf o ran cyflogaeth a'r rhai sydd ar y lefel isaf.

Aled Roberts: Nid wyf i, ychwaith, am ailadrodd yr ystadegau—diolch i'r drefn. Mae'r ystadegau yn siarad drostynt eu hunain. Byddaf yn canolbwyntio ar drydydd pwynt y cynnig. Mae angen creu twf economaidd wrth ddefnyddio arian Ewropeaidd er lles Cymru i'r dyfodol.

Mae'n glir, erbyn hyn, fod angen inni gael cydbwysedd rhwng yr arian sy'n cael ei

average figures, is of continuing concern, especially in light of the current economic troubles. For that reason, we need the additional financial stimulus in the short term. However, not only are the figures for west Wales and the Valleys a cause for concern, but the figures for east Wales are falling below the European Union average. Once again, that draws attention to the need to get to grips with the economic situation and have a firm commitment to the economic renewal programme.

We should not fall into the trap of thinking that the size of Wales somehow means that we will always be on the margins and behind. Small nations across the world, certainly in Europe, perform as well as, and sometimes better than, the economies of large countries. Nothing in terms of size means that you have to be poorer than other countries. Therefore, we in Wales should aim high in order to give our young people opportunities for the future.

It is also true—and this is one of the fundamental weaknesses of the UK—that the nation that performs best and has least inequality is Germany, which is a nation characterised to a large extent by economic devolution, where regional variations are respected and, indeed, promoted. I know that Germany is a large country and a country with a strong economic tradition, but Germany is also a very equal country compared to Britain and the inequality that means that one part of the country is exceptionally wealthy, namely south-east England, with many of the peripheral areas comparatively poor. There is a great gap in development in Wales between those who are at the highest level in terms of employment and those at the lowest level.

Aled Roberts: I am not going to repeat the statistics either—thank goodness. The statistics speak for themselves. I will concentrate on the third point in the motion. We need to generate economic growth, using the European funding for the benefit of Wales in the future.

It is now clear that we need a balance between the funds invested in the private

fuddsoddi yn y sector preifat a'r buddsoddiad yn y sector cyhoeddus. Rwy'n sefyll yma heddiw fel Aelod o ranbarth y Gogledd, ac mae'n hawdd iawn, wrth ddefnyddio'r term 'gorllewin Cymru a'r Cymoedd', anghofio bod pedair sir orllewinol y gogledd yn dod o fewn yr ardal Ewropeaidd.

Mae pawb yn ymwybodol bod rhanbarth y Gogledd, fel rhanbarthau eraill, yn dioddef yn economaidd, ac mae wedi bod yn dioddef am nifer o flynyddoedd. Yr hyn sy'n peri syndod yw bod rhai o ardaloedd llwyddiannus y dwyrain erbyn hyn hefyd yn dioddef. Mae ystadegau Llywodraeth Cymru o 2010 yn dangos bod nifer y busnesau yn rhanbarth y Gogledd a fethodd wedi codi 10.3%, i ffigur o 6,535 y flwyddyn. Yn wir, rhwng 2002 a 2010, gwelodd ardal pob cyngor yn y Gogledd mwy o fusnesau yn methu, gyda'r sefyllfa yn gwaethygu fwyaf yn Ynys Môn. Ni welodd ardal unrhyw gyngor gynnydd yn nifer y busnesau a ddechreuwyd.

Yn awr, mae'n rhaid i'r Llywodraeth esbonio pam mae'r sefyllfa yng Nghymru wedi gwaethygu tra bo rhanbarthau eraill ym Mhrydain ac Ewrop wedi gweld twf economaidd. Rwy'n falch bod y chwech awdurdod lleol yn y Gogledd yn awyddus i gydweithio'n agosach ar ddenu buddsoddiad mewnol i'r rhanbarth yn y dyfodol. Nid yw'n dderbyniol mai'r unig gynnis diweddar gan y Llywodraeth oedd i symud swyddi o fewn y sector cyhoeddus i'r rhanbarth yn hytrach na denu buddsoddiad o'r tu allan. Mae'n rhaid inni sicrhau bod y sector preifat yn chwarae rhan mwy allweddol o ran gwario arian strwythurol Ewropeaidd. Mae cwmnïau preifat fel Airbus a JCB wedi bod yn eithaf llwyddiannus yn y Gogledd, ond mae'n syndod nad ydym yn gwneud llawer o ymdrech i siarad â'r cwmnïau hynny ynglŷn â sut i wella'r sefyllfa i'r dyfodol.

Given the bare facts we received last week in relation to GDP figures and the comparison between Wales's performance—as Alun Ffred outlined—and the performance of other regions within Europe, we have now reached the stage where we must move away from the Government congratulating itself on its Regions of Excellence awards. I accept that they were given for the way in which the Welsh Government, with the help of its

sector and the public sector. I stand here today as a Member representing the North Wales region, and it is very easy, in using the term 'west Wales and the Valleys', to forget that the four western counties of north Wales are within the European region.

Everyone is aware that the North Wales region, like other regions, is suffering economically, and has been over many years. What is perhaps surprising is that some of those successful areas in the east are now also facing decline. The Welsh Government's own statistics show that, during 2010, the number of businesses that failed in the North Wales region increased by 10.3%, to a figure of 6,535 per annum. Indeed, between 2002 and 2010, every council region in north Wales saw more businesses failing, with the situation deteriorating most on Anglesey. No council area saw an increase in the number of business start-ups.

The Government must now explain why the situation in Wales has deteriorated while other regions in the UK and the EU have seen economic growth. I am pleased that the six local authorities in north Wales are now eager to collaborate more on bringing investment into the region in future. It is not acceptable that the only recent proposal put forward by the Government was to move jobs within the public sector to the region rather than to attract investment from outside the region. We must ensure that the private sector plays a more prominent role with regard to the expenditure of the European structural funds. Private companies, such as Airbus and JCB, have been relatively successful in north Wales, but, surprisingly, we do very little to speak to them about how we can improve the situation for the future.

O ystyried y ffeithiau moel a gawsom yr wythnos diwethaf o ran ffigurau ynghylch Cynnyrch Mewnwladol Crynswth a'r gymhariaeth rhwng perfformiad Cymru—fel y nododd Alun Ffred—a pherfformiad rhanbarthau eraill yn Ewrop, rydym yn awr wedi cyrraedd y pwynt lle y mae'n rhaid inni roi'r gorau i glywed y Llywodraeth yn ei llongyfarch ei hun ar ennill ei gwobrau Rhanbarthau Rhagorol. Rwyf yn derbyn bod

partners, successfully implemented projects in line with the European 2020 strategy for smart, sustainable and inclusive growth. As a follower of Wrexham football club, I know that we can no longer be proud about our style of play as a country. If we get relegated—and, as far as the statistics are concerned, we are being relegated—we need to get away from giving ourselves glittering awards for the style of play and look more at our actual performance.

Mike Hedges: I come from an area that is well known for both its style of play and success on the pitch. [*Laughter.*]

I am very pleased to engage in this debate. Why is the economy of west Wales and the Valleys in need of European funding? May I take you back to the closure of the coal mines, the closure of the steelworks, the closure of the textile works? In Swansea alone, we lost the Cwm Felin works, Bryn Gwyn and Velindre—which employed 4,000 to 4,500 people in relatively well paid jobs—and we lost the coal mines in the area. That is why we are in the position we are in.

Aled Roberts: I accept fully the point you make. However, the point we are trying to get across is that, it is all very well making excuses, but the region of Sachsen-Anhalt in Germany witnessed greater devastation than west Wales and the Valleys. So, why is our comparative performance still deteriorating?

Mike Hedges: The problem with being interrupted at the very beginning is that you do not get the opportunity to get to where you were going—

The Deputy Presiding Officer: Order. You do not have to give way. [*Laughter.*]

Mike Hedges: Deputy Presiding Officer, I think that that is very polite to give way. I just wish that other people would. [*Laughter.*]

Do you think that the cuts in public

y gwobrau wedi'u rhoi am y ffordd y cafodd prosiectau llwyddiannus eu rhoi ar waith gan Lywodraeth Cymru, gyda chymorth ei phartneriaid, yn unol â strategaeth Ewrop 2020 ar gyfer twf deallus, cynaliadwy a chynhwysol. Fel un o ddilynwyr clwb pêl-droed Wrecsam, rwyf yn gwybod na allwn fod yn falch mwyach o'n harddull chwarae fel gwlad. Os byddwn yn disgyn i gynghrair is—ac o safbwynt yr ystadegau, dyna fydd yn digwydd—mae angen inni roi'r gorau i'n llongyfarch ein hunain yn wresog ar ein harddull chwarae ac edrych yn fwy manwl ar ein perfformiad gwirioneddol.

Mike Hedges: Rwyf fi'n dod o ardal sy'n enwog am ei harddull chwarae a'i llwyddiant ar y cae. [*Chwerthin.*]

Rwyf yn falch iawn o'r cyfle i gymryd rhan yn y ddadl hon. Pam y mae angen cyllid Ewropeaidd ar economi gorllewin Cymru a'r Cymoedd? Hoffwn fynd â chi'n ôl i gyfnod cau'r pyllau glo, cau'r gweithfeydd dur a chau'r gweithfeydd tecstilau? Yn Abertawe yn unig, bu inni golli gwaith Cwm Felin, Bryn Gwyn a Felindre—a oedd yn cyflogi 4,000 i 4,500 o bobl mewn swyddi a oedd yn talu'n gymharol dda—a bu inni golli pyllau glo'r ardal. Dyna pam yr ydym yn y sefyllfa sydd ohoni.

Aled Roberts: Rwyf yn derbyn yn llwyr y pwynt yr ydych yn ei wneud. Fodd bynnag, y pwynt yr ydym yn ceisio ei gyfleu yw'r ffaith ei bod yn ddigon hawdd gwneud esgusodion, ond gwelodd rhanbarth Sachsen-Anhalt yn yr Almaen ddinistr mwy o lawer na gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Felly, pam y mae ein perfformiad cymharol ni'n dal i ddirywio?

Mike Hedges: Y broblem, o gael rhywun yn torri ar eich traws ar y dechrau, yw nad ydych yn cael cyfle i gyrraedd y man—

Y Dirprwy Lywydd: Trefn. Nid oes yn rhaid ichi ildio. [*Chwerthin.*]

Mike Hedges: Ddirprwy Lywydd, mae ildio'n weithred gwrtais iawn, yn fy marn i. Byddai'n dda gennyf pe bai pobl eraill yn gwneud hynny. [*Chwerthin.*]

A ydych o'r farn bod torri gwariant

expenditure and the imposition of regional pay, which is a threat the Chancellor announced today, are going to make west Wales and the Valleys richer? Do you really think that this will be a way to take us forward? However, GDP is particularly misleading as it does not take into account the large flow of commuters outside the area, a point fully recognised in the report. In order to get a clear picture of economic performance, it is necessary to look at a wide range of indicators, including employment rates and measures of income. In both of those, west Wales and the Valleys has performed well.

6.00 p.m.

Anyone listening to the radio in the morning, will hear those immortal words: 'There is now a queue on the A470 at Nantgarw on its way into Cardiff'. Anyone who comes here in the mornings from west Wales and the Valleys will be aware of how difficult it is to get off the M4 at the Cardiff west junction; they will know how many people they are queuing with. These are people who are coming into Cardiff and who are not counted in the GDP for west Wales and the Valleys. I have done my bit to reduce the GDP of west Wales and the Valleys—[*Interruption.*] When I was a lecturer in Pontypridd, I counted against the GDP of west Wales and the Valleys. Now that I come here, as the Assembly Member for Swansea East, I do not.

Eluned Parrott: Could you give me statistics on the proportion of people using the bottom end of the A470 who came initially from west Wales and the Valleys as opposed to some other area and the proportion of whom are doing so for work, rather than school, tourism or leisure purposes?

Mike Hedges: Those figures are available; I am sure that Alun Davies can give them to you. In the morning, I would guess that nearly every one of them comes from the Valleys or from west Wales. I would also guess that they are all going to work, as I

cyhoeddus a chyflwyno cyflogau rhanbarthol, sy'n fygythiad a gyhoeddwyd gan y Canghellor heddiw, yn mynd i wneud gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gyfoethocach? A ydych yn credu o ddifrif y bydd hynny'n ffordd o'n symud ymlaen? Fodd bynnag, mae Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn arbennig o gamarweiniol gan nad yw'n ystyried yr all-lif mawr o gymudwyr y tu allan i'r ardal, sy'n bwynt a gaiff ei gydnabod yn llwyr yn yr adroddiad. Er mwyn cael darlun clir o berfformiad economaidd, rhaid edrych ar ystod eang o ddangosyddion, gan gynnwys cyfraddau cyflogaeth a mesurau incwm. Mae gorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi perfformio'n dda yng nghyswllt y ddau ddangosydd hyn.

Bydd pawb sy'n gwranddo ar y radio yn y bore'n clywed y geiriau anfarwol: 'Erbyn hyn, mae ciw ar yr A470 yn Nantgarw ar y ffordd i mewn i Gaerdydd'. Bydd pawb sy'n dod yma yn y bore o orllewin Cymru a'r Cymoedd yn gwybod mor anodd yw gadael yr M4 ar gyffordd gorllewin Caerdydd; byddant yn gwybod faint o bobl y maent yn ciwio gyda hwy. Dyma'r bobl sy'n dod i Gaerdydd ac nad ydynt yn cael eu cyfrif yn y Cynnyrch Mewnwladol Crynswth ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd. O'm rhan i, rwyf wedi gwneud fy nghyfraniad i leihau Cynnyrch Mewnwladol Crynswth gorllewin Cymru a'r Cymoedd—[*Torri ar draws.*] Pan oeddwn yn ddarlithydd ym Mhontypridd, roeddwn yn cyfrif yn erbyn Cynnyrch Mewnwladol Crynswth gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Gan fy mod bellach yn dod yma, fel yr Aelod Cynulliad dros Ddwyrain Abertawe, nid wyf yn cyfrif yn ei erbyn.

Eluned Parrott: A allech roi ystadegau imi ynghylch cyfran y bobl sy'n defnyddio gwaelod yr A470 ac sy'n cyrraedd yno o orllewin Cymru a'r Cymoedd yn hytrach nag o ryw ardal arall, a'r gyfran sydd yno at ddibenion gwaith yn hytrach nag at ddibenion ysgol, twristiaeth neu hamdden?

Mike Hedges: Mae'r ffigurau hynny ar gael; rwyf yn siŵr y gall Alun Davies eu rhoi ichi. Yn y bore, byddwn yn dyfalu bod pob un ohonynt bron yn dod o'r Cymoedd neu o orllewin Cymru. Byddwn hefyd yn dyfalu eu bod i gyd yn mynd i'w gwaith, oherwydd

would suggest that driving down the A470 at 8 a.m. is not something that anyone does for tourism or leisure purposes.

Alun Ffred Jones: I presume that you were referring to the gross disposable household income figures, which you said are better than GDP figures. Apparently, from the figures that I have here, the GDHI per head in Wales is the third lowest of the 12 English regions and devolved countries.

Mike Hedges: However, it is substantially better than GDP. It is certainly not bottom. It is not a basket case, as the Liberal Democrats were trying to make out earlier.

I have a few other points to make in the short time that I have left. We are in a position where it is really important that we stand up for Wales. I look to everyone to stand up for Wales. Let us not have regional pay; nothing will do more to damage the wealth of west Wales and the Valleys than regional pay. An 18% reduction in pay for people working in the public sector will only take money out of the economy; it will affect the private sector and the public sector and it will create serious problems. The other point is that we cannot afford to lose more public sector jobs. The First Minister said at one stage that it was not that we had too many public sector jobs, but that we were a bit short of private sector jobs. That is not going to be solved by having lots of people from the public sector signing on the dole because they have lost their jobs. I would urge people to talk Wales up and to talk west Wales and the Valleys up. Let us take ourselves forward.

Peter Black: I am intrigued by Mike's final flourish about talking up west Wales and the Valleys, given that he abandons it every day to go to work. We now know that the reason

byddwn yn awgrymu nad yw gyrru i lawr yr A470 am 8 a.m. yn rhywbeth y mae rhywun yn ei wneud at ddibenion twristiaeth neu hamdden.

Alun Ffred Jones: Rwyf yn tybio eich bod yn cyfeirio at y ffigurau ynghylch incwm gwario gros aelwydydd, y bu ichi ddweud eu bod yn well na'r ffigurau ynghylch Cynnyrch Mewnwladol Crynswth. Yn ôl pob golwg, o'r ffigurau sydd gennyf yma, incwm gwario gros aelwydydd y pen yng Nghymru yw'r isaf ond dau yn 12 rhanbarth Lloegr a gwledydd datganoledig y DU.

Mike Hedges: Fodd bynnag, mae'n well o lawer na'r Cynnyrch Mewnwladol Crynswth. Yn sicr, nid yw Cymru ar y gwaelod o ran hynny. Nid yw'n anobeithiol, fel yr oedd y Democratiaid Rhyddfrydol yn ceisio awgrymu'n gynharach.

Mae gennyf ychydig o bwyntiau eraill i'w gwneud yn yr amser byr sydd gennyf yn weddill. Rydym mewn sefyllfa lle y mae'n wirioneddol bwysig inni ddiogelu buddiannau Cymru. Rwyf yn disgwyl i bawb ddiogelu buddiannau Cymru. Gadewch inni beidio â chael cyflogau rhanbarthol; ni fydd dim yn gwneud mwy o niwed i gyfoeth gorllewin Cymru a'r Cymoedd na chyflogau rhanbarthol. Ni fydd gostyngiad o 18% yng nghyflog y bobl sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus yn gwneud dim ond cymryd arian allan o'r economi; bydd yn effeithio ar y sector preifat a'r sector cyhoeddus a bydd yn creu problemau difrifol. Y pwynt arall yw na allwn fforddio colli rhagor o swyddi yn y sector cyhoeddus. Dywedodd y Prif Weinidog ar un adeg mai nid y ffaith bod gennym ormod o swyddi yn y sector cyhoeddus oedd y broblem, ond y ffaith ein bod ychydig yn brin o swyddi yn y sector preifat. Ni fydd hynny'n cael ei ddatrys drwy gael llawer o bobl o'r sector cyhoeddus yn mynd ar y dôl am eu bod wedi colli eu swyddi. Byddwn yn annog pobl i siarad yn gadarnhaol am Gymru a siarad yn gadarnhaol am orllewin Cymru a'r Cymoedd. Gadewch inni roi hwb ymlaen i ni ein hunain.

Peter Black: Rwyf yn rhyfeddu at ddiwedd glo blodeuog Mike ynghylch siarad yn gadarnhaol am orllewin Cymru a'r Cymoedd, o gofio ei fod yn troi ei gefn ar y

for the catastrophic drop in GDP is that Mike is commuting from Swansea to Cardiff. [*Laughter.*]

Mike Hedges: It is not me on my own. [*Laughter.*] If it was, I would go back to work in Pontypridd. The fact is that thousands of people—you must also travel with them, Peter—are travelling from our area to Cardiff.

Peter Black: Thank you, Mike. I will give you an undertaking that I will do my utmost to make sure that you resume work in Pontypridd in 2016. [ASSEMBLY MEMBERS: ‘Oh.’]

I take issue with the basic premise of Mike’s contribution in the sense that he is arguing that, because people are moving out of the west Wales and the Valleys area into the more prosperous south-east Wales, they are artificially depressing GDP for that area. There is no doubt that that is the case, but the point is that it has been the case since 1999. We have a set of comparable statistics from 1999 all the way through to 2012, all of which have exactly the same circumstances of people commuting out of one area into another. The tragedy here is not that GDP is being artificially depressed in one area because of commuters; the tragedy is that we have that downward trend of GDP. It has now reached its lowest point, which is not only indefensible, but also absolutely devastating for the Welsh economy. Frankly, Objective 1 European funding and all the different convergence and other forms of European funding have failed because the Welsh Government has failed to utilise the resources available to it to deliver a much better economy, in the same way as, for example, Cornwall, which has done much better in how it has spent its money, as have other regions of the UK and Europe.

You only have to look at the targets set by the

rhanbarth hwnnw bob dydd i fynd i’r gwaith. Rydym yn gwybod bellach mai’r rheswm dros y gostyngiad trychinebus mewn Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yw’r ffaith bod Mike yn teithio o Abertawe i Gaerdydd. [*Chwerthin.*]

Mike Hedges: Nid fi yw’r unig un sy’n gwneud hynny. [*Chwerthin.*] Pe bai hynny’n wir, byddwn yn mynd yn ôl i weithio ym Mhontypridd. Y ffaith yw bod miloedd o bobl—rhaid eich bod chi hefyd yn teithio gyda hwy, Peter—yn teithio o’n hardal ni i Gaerdydd.

Peter Black: Diolch yn fawr, Mike. Rwyf yn addo y gwnaf fy ngorau glas i sicrhau eich bod yn ailgydio yn eich gwaith ym Mhontypridd yn 2016. [AELODAU’R CYNULLIAD: ‘O.’]

Rwyf yn anghytuno â chynsail sylfaenol cyfraniad Mike yn yr ystyr ei fod yn dadlau bod pobl, oherwydd eu bod yn symud allan o ardal gorllewin Cymru a’r Cymoedd i ardal fwy ffyniannus y de-ddwyrain, yn gostwng Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yr ardal honno’n artiffisial. Nid oes amheuaeth nad yw hynny’n wir, ond y pwynt yw bod hynny wedi bod yn wir er 1999. Mae gennym gyfres ddi-dor o ystadegau y gellir eu cymharu o 1999 hyd at 2012, ac mae’r un amgylchiadau’n berthnasol iddynt i gyd, sef bod pobl yn cymudo o’r naill ardal i’r llall. Nid y ffaith bod Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn cael ei ostwng yn artiffisial mewn un ardal oherwydd cymudwyr yw’r drasiedi yn y fan hon; y ffaith bod Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn lleihau yw’r drasiedi. Mae wedi cyrraedd ei bwynt isaf erbyn hyn, ac yn ogystal â bod yn ffaith nad oes modd ei hesgusodi, mae hefyd yn ddinistriol tu hwnt i economi Cymru. A dweud y gwir, mae cyllid Ewropeaidd Amcan 1 a’r holl wahanol gyllid cydgyfeirio a mathau eraill o gyllid Ewropeaidd wedi methu oherwydd bod Llywodraeth Cymru wedi methu â defnyddio’r adnoddau sydd ar gael iddi i ddarparu economi sy’n well o lawer, yn yr un modd â Chernyw, er enghraifft, sydd wedi gwario ei harian yn well o lawer, fel y mae rhanbarthau eraill y DU ac Ewrop.

Nid oes ond rhaid edrych ar y targedau a

Welsh European Funding Office. All of them have been missed—4,849 jobs created against a target of 7,348; 4,195 enterprises assisted against a target of 6,317; 1,105 new enterprises created against a target of 3,019; it goes on and on. This is a failure of the Government, it is a failure to utilise those funds and it is a failure to invest properly to deliver the economy that the people of Wales deserve. We should be in a position to deliver that economy given that so much European money has gone in. There are a number of reasons why that has happened. I cannot put my finger on all of the reasons, but they include too much of a focus on soft schemes that have little impact on economic development, the Government's failure to adequately audit the outcomes of programmes and its investment in the wrong programmes subsequently, a lack of investment in the key areas for economic growth, mainly skills and infrastructure, and the failure to adequately involve the private sector. The private sector has won a minuscule amount of European funding, despite our unbalanced economy, which relies so heavily on the public sector. Its involvement should be about more than winning contracts for the delivery of projects; we should be generating wealth.

An example of a good scheme is the Prince of Wales Innovation Scholarships scheme. It had its flaws, in terms of how it was delivered, but, essentially, it was creating wealth, skilled jobs and innovation. There is some sort of substitute for that, but I do not believe that it will deliver anything like what we need to get the smart economy that Wales needs if we are to be more prosperous in the future.

The Federation of Small Businesses has said that strategic investment in the small business community over the last 12 years has been driven by the public and voluntary sectors, with no lasting outcomes in terms of increased GDP per capita and sustainable employment. What we have in front of us is not just a failure; it is a tragedy for Wales. If we do not get it right in the next funding

osodwyd gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Ni chyrrhaeddwyd yr un ohonynt—4,849 o swyddi wedi'u creu yn erbyn targed o 7,348; 4,195 o fentrau wedi cael cymorth yn erbyn targed o 6,317; 1,105 o fentrau newydd wedi'u creu yn erbyn targed o 3,019; ac yn y blaen. Mae'r sefyllfa yn fethiant ar ran y Llywodraeth, mae'n fethiant i ddefnyddio'r cronfeydd dan sylw, ac mae'n fethiant i fuddsoddi'n briodol i ddarparu'r economi y mae pobl Cymru yn ei haeddu. Dylem fod mewn sefyllfa i ddarparu'r economi honno, o ystyried bod cymaint o arian Ewropeaidd wedi'i wario. Ceir nifer o resymau pam nad yw hynny wedi digwydd. Ni allaf roi fy mys ar yr holl resymau, ond maent yn cynnwys gormod o ffocws ar gynlluniau meddal nad ydynt yn cael fawr ddim effaith ar ddatblygu economaidd, methiant y Llywodraeth i archwilio canlyniadau rhaglenni'n ddigonol, a'i buddsoddiad yn y rhaglenni anghywir yn dilyn hynny, diffyg buddsoddi yn y meysydd allweddol ar gyfer twf economaidd, sef sgiliau a seilwaith yn bennaf, a methiant i gynnwys y sector preifat yn ddigonol. Swm pitw o gyllid Ewropeaidd y mae'r sector preifat wedi'i gael, er gwaethaf ein heconomi anghytwys sy'n dibynnu mor drwm ar y sector cyhoeddus. Dylai cynnwys y sector preifat olygu mwy nag ennill contractau i gyflawni prosiectau; dylem fod yn cynhyrchu cyfoeth.

Enghraifft o gynllun da yw cynllun Ysgoloriaethau Arloesi Tywysog Cymru. Roedd ganddo wendidau, o safbwynt sut y cafodd ei weithredu, ond yn y bôn roedd yn creu cyfoeth, arloesedd a swyddi a oedd yn gofyn am sgiliau. Mae rhyw fath o gynllun wedi'i gyflwyno yn ei le, ond nid wyf yn credu y bydd yn cyflawni dim byd tebyg i'r hyn y mae arnom ei angen i gael yr economi ddeallus y mae ar Gymru ei hangen os ydym am fod yn fwy llewyrchus yn y dyfodol.

Mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach wedi dweud bod gwaith buddsoddi strategol yn y gymuned busnesau bach yn ystod y 12 mlynedd diwethaf wedi cael ei yrru gan y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol, heb unrhyw ganlyniadau parhaol o safbwynt mwy o Gynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen a chyflogaeth gynaliadwy. Nid methiant yn unig yw'r hyn sydd gennym o'n blaenau;

stream, which we will inevitably qualify for because of that failure, the Welsh Government should hang its head in shame. We have a duty to get it right for Wales. The Welsh Government has failed Wales for 12 years, which is unacceptable.

Byron Davies: Thank you for the opportunity to make a short contribution to this debate. I will start with one clear statement, which is that GDP is not misleading. It acts as an important indicator for regeneration and economic health. To argue that it is misleading is, at best, wishful thinking on behalf of the Government; at worst, it condemns a further generation in west Wales and the Valleys to poverty and dependence on the state. While I recognise that Government depends on citizens believing that the state knows best, trickery with this important indicator will be of no benefit to the people of Wales, and, at the end of the day, all of us in the Chamber are here to represent those people. There can be no doubt that the new GDP figures, which show that most of Wales is now poorer than regions of central and eastern Europe, are a damning indictment of Government.

The west Wales and the Valleys GDP per capita has dropped to 68.4% of the EU average. That drop has occurred, as has already been said, despite billions of pounds of EU money being poured into the region since 2000. It is now obvious that the money has been squandered on short-term projects, which have produced no long-term jobs and no regeneration of the Valleys economy and have not delivered for Wales. That failure is the responsibility of the Government in Wales, despite its best attempts to jump up and down and point the finger east up the M4. It is undisputable that the money has been micromanaged and that projects have been failing the people of Wales. This is clearly proven by looking at the rest of the UK, where GDP per capita now stands at 110.7% of the EU average.

mae'n drasiedi i Gymru. Os na lwyddwn i gael pethau'n iawn yn ystod y ffrwd ariannu nesaf, y byddwn, mae'n anochel, yn gymwys ar ei chyfer oherwydd y methiant hwnnw, dylai fod cywilydd mawr ar Lywodraeth Cymru. Mae gennym ddyletswydd i gael pethau'n iawn i Gymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi siomi Cymru am 12 mlynedd, ac mae hynny'n annerbyniol.

Byron Davies: Diolch am y cyfle i wneud cyfraniad byr i'r ddadl hon. Hoffwn ddechrau ag un datganiad clir, sef nad yw Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn gamarweiniol. Mae'n ddangosydd pwysig yng nghyswllt adfywio ac iechyd economaidd. Ar y gorau, breuddwyd gwrrach ar ran y Llywodraeth yw dadlau ei fod yn gamarweiniol; ar y gwaethaf, mae'n condemnio cenhedlaeth arall yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd i dlodi a dibyniaeth ar y wladwriaeth. Er fy mod yn cydnabod bod y Llywodraeth yn dibynnu ar ddinasyddion i gredu mai'r wladwriaeth sy'n gwybod orau, ni fydd twyllo pobl â'r dangosydd pwysig hwn o unrhyw fudd i bobl Cymru, ac yn y pen draw, mae pob un ohonom yn y Siambr i gynrychioli'r bobl hynny. Nid oes dim amheuaeth nad yw'r ffigurau newydd ynghylch Cynnyrch Mewnwladol Crynswth, sy'n dangos bod y rhan fwyaf o Gymru yn awr yn dlotach na rhanbarthau canol a dwyrain Ewrop, yn gyhuddiad damniol yn erbyn Llywodraeth.

Mae Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi gostwng i 68.4% o gyfartaledd yr UE. Mae'r gostyngiad hwnnw wedi digwydd, fel y soniwyd eisoes, er gwaethaf y ffaith bod biliynau o bunnoedd o arian yr UE wedi cael eu harllwys i mewn i'r rhanbarth er 2000. Erbyn hyn, mae'n amlwg bod yr arian wedi'i wastraffu ar brosiectau byrdymor, nad ydynt wedi cynhyrchu dim swyddi hirdymor ac nad ydynt wedi adfywio economi'r Cymoedd na chyflawni ar gyfer Cymru. Cyfrifoldeb y Llywodraeth yng Nghymru yw'r methiant hwnnw, er gwaethaf ei hymdrechion gorau i neidio i fyny ac i lawr a phwyntio bys tua'r dwyrain ar hyd yr M4. Nid oes amheuaeth nad yw'r arian wedi'i ficoreoli a bod prosiectau wedi bod yn siomi pobl Cymru. Gellir profi hynny'n glir drwy edrych ar weddill y DU, lle y mae Cynnyrch

Mewnwladol Crynswth y pen yn awr yn cyfateb i 110.7% o gyfartaledd yr UE.

This Labour Government has taken west Wales and the Valleys behind such geographical areas as—I am not going to attempt what Eluned Parrott bravely ventured into—Bulgaria and Romania, the recent accession countries. Given the severe difficulties that Greece and other European economies have experienced in recent years, we should expect much more, but the statistics speak for themselves. After more than a decade of Labour Government in the Assembly, Wales remains the poorest part of the UK. Welsh GDP is consistently well below the EU average.

Mae'r Llywodraeth Lafur hon wedi sicrhau bod gorllewin Cymru a'r Cymoedd y tu ôl i ardaloedd daearyddol megis—nid wyf am roi cynnig ar wneud yr hyn yr oedd Eluned Parrott yn ddigon dewr i geisio ei wneud—Bwlgaria a Romania, sef y gwledydd sydd wedi'u derbyn yn ddiweddar. O ystyried yr anawsterau difrifol y mae Gwlad Groeg ac economïau Ewropeaidd eraill wedi'u cael yn ystod y blynyddoedd diwethaf, dylem ddisgwyl llawer mwy, ond mae'r ystadegau yn siarad drostynt eu hunain. Ar ôl dros ddegawd o Lywodraeth Lafur yn y Cynulliad, Cymru yw rhan dlotaf y DU o hyd. Mae Cynnyrch Mewnwladol Crynswth Cymru yn is o lawer na chyfartaledd yr UE yn gyson.

One of the key issues has been a lack of support for our private sector. The growth of our private sector partners is essential for the growth of GDP and the regeneration of west Wales and the Valleys. With that in mind, I hope that Members will support our amendment 3, acknowledging that a strong private sector is essential in order to encourage economic growth in the poorest parts of Wales.

Un o'r materion allweddol fu diffyg cefnogaeth i'n sector preifat. Mae twf ein partneriaid yn y sector preifat yn hanfodol ar gyfer twf Cynnyrch Mewnwladol Crynswth ac adfywio gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Gyda hynny mewn golwg, rwyf yn gobeithio y bydd yr Aelodau yn cefnogi ein gwelliant 3, gan gydnabod bod sector preifat cryf yn hanfodol er mwyn hybu twf economaidd yn rhannau tlotaf Cymru.

Mark Isherwood: Will you join me in welcoming one bit of good news? We have been falling behind across Wales—in west Wales and the Valleys and east Wales—but the one part of Wales that has bucked that trend and shown an improvement since 2008 is Flintshire and Wrexham. That has happened since authorities there came under non-Labour leadership and regeneration was taken over by Conservatives.

Mark Isherwood: A wnewch chi ymuno â mi i groesawu un newydd da? Rydym wedi bod ar ei hôl hi ledled Cymru—yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd ac yn nwyrain Cymru—ond un rhan o Gymru sydd wedi bod yn mynd yn groes i'r duedd honno ac sydd wedi dangos gwelliant er 2008 yw Sir y Fflint a Wrecsam. Mae hynny wedi digwydd ers i'r awdurdodau ddod dan arweinyddiaeth nad yw'n arweinyddiaeth Lafur ac ers i'r Ceidwadwyr ymgymryd â gwaith adfywio.

Byron Davies: I am happy to join you in that.

Byron Davies: Rwyf yn fodlon ymuno â chi i wneud hynny.

We cannot move forward until businesses are enticed into Wales and, for that, the right climate has to exist. We need to create a thriving private sector through investment and encouragement. I end by urging Welsh Ministers to start working constructively with the UK Government and the business community to create the conditions for

Ni allwn symud ymlaen nes bydd busnesau'n cael eu denu i Gymru, ac er mwyn i hynny ddigwydd, rhaid bod yr hinsawdd yn gywir. Mae angen inni greu sector preifat llewyrchus drwy fuddsoddi ac annog. Hoffwn gloi drwy annog Gweinidogion Cymru i ddechrau gweithio'n adeiladol gyda Llywodraeth y DU a'r gymuned fusnes i greu'r amodau ar gyfer

economic growth, to maximise Wales's appeal to potential investors and to make Wales a more prosperous nation.

Mark Drakeford: I want to concentrate on the third part of the Liberal Democrat motion in front of the Assembly this afternoon, which urges

'the Welsh government to publish an economic development strategy...as a matter of urgency'.

I want to do that by providing Members with a brief account of the latest meeting of the European programmes partnership forum, which took place on 2 March. Membership of the forum includes senior representation from all relevant walks of Welsh life. The largest group of all comes from the private sector and includes representatives from the Federation of Small Businesses, the CBI and the Institute of Directors, and senior individual businessmen and businesswomen from major Welsh companies and from international companies doing business in Wales. As you might expect, given the calibre of that list, the quality of discussion at the forum was both lively and closely argued.

In formulating advice to the Welsh Government on the shape of any future European programme, a set of parameters was already becoming clear. In the view of the forum, a further round would need to be flexible enough to respond to the most volatile European economic outlook of any programme period, to be willing to manage a higher level of risk than in any previous programme, to be open to learning from experience elsewhere in Europe and to be willing to grasp some thorny issues that will need to be negotiated in advance of the post-2014 period, whether that means having a relatively robust discussion with the Commission about its emerging thinking in relation to the place of infrastructure in the next round or some straight talking among ourselves about the part that city-region-thinking needs to play in planning for the future.

The forum has three further future meetings planned during the rest of this calendar year,

twf economaidd, cynyddu apêl Cymru i ddarpar fuddsoddwyr a gwneud Cymru yn wlad fwy llewyrchus.

Mark Drakeford: Rwyf am ganolbwyntio ar drydedd ran cynnig y Democratiaid Rhyddfrydol sydd gerbron y Cynulliad y prynhawn yma, sy'n annog

'Llywodraeth Cymru i gyhoeddi strategaeth datblygu economaidd...ar fyrder'.

Rwyf am wneud hynny drwy roi adroddiad byr i'r Aelodau ynghylch y cyfarfod diweddaraf o'r fforwm partneriaeth rhaglenni Ewropeaidd, a gynhaliwyd ar 2 Mawrth. Mae aelodau'r fforwm yn cynnwys uwch-gynrychiolwyr o bob maes perthnasol yng Nghymru. Mae'r grŵp mwyaf i gyd yn dod o'r sector preifat, ac mae'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Ffederasiwn Busnesau Bach, y CBI a Sefydliad y Cyfarwyddwyr, a dynion a menywod busnes unigol sy'n dal swyddi uchel mewn cwmnïau mawr yng Nghymru a chwmnïau rhyngwladol sy'n cyflawni busnes yng Nghymru. Fel y byddech yn disgwyl, o ystyried calibr y bobl sydd ar y rhestr honno, roedd y trafodaethau yn y fforwm yn fywiog ac yn fanwl.

Wrth lunio cyngor i Lywodraeth Cymru ynghylch ffurf unrhyw raglen Ewropeaidd yn y dyfodol, roedd cyfres o baramedrau eisoes yn dod i'r amlwg. Ym marn y fforwm, byddai angen i gylch pellach fod yn ddigon hyblyg i ymateb i'r rhagolygon economaidd Ewropeaidd mwyaf anwadal y mae unrhyw gyfnod rhaglen wedi eu hwynebu erioed, bod yn barod i reoli lefel uwch o risg na'r risg a reolwyd yn ystod unrhyw raglen flaenorol, bod yn barod i ddysgu o brofiad mewn mannau eraill yn Ewrop, a bod yn barod i fynd i'r afael â rhai problemau dyrys y bydd angen eu trafod cyn y cyfnod ôl-2014, p'un a yw hynny'n golygu cael trafodaeth eithaf cadarn gyda'r Comisiwn am ei syniadau newydd ynghylch rôl seilwaith yn y cylch nesaf, neu siarad yn onest ymhlith ein gilydd am y rhan y mae angen i syniadau'n ymwneud â dinas-ranbarthau ei chwarae wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r fforwm wedi trefnu tri chyfarfod arall a gynhelir yn ystod gweddill y flwyddyn

at which its members want to flesh out its advice further and, in particular, in relation to the complex range of different funding streams that the Commission makes clear, as Nick Ramsay did earlier, that it expects a future round to deliver in a more integrated fashion, delivering both thematic concentration and taking account of conditionality.

Deputy Minister, you have a choice. You could follow the advice provided in the motion; you could shut the forum down and advise its members that there simply is no time to listen to their advice or to draw on the experience that they and their members have in such abundance, because, 'as a matter of urgency', as the motion says, a plan must be plucked out of the ether in the here and now. You could, as amendment 1 prefers, carry on preparing with our partners so that we have a set of proposals that meet the real needs of the future rather than the rhetorical demands of a sloppily drafted motion.

6.15 p.m.

I will be listening carefully to what you have to say, of course, but so will members of the forum. They are busy people with working lives of their own to organise, and they will want to know whether they have a contribution to make that the Welsh Government at least values and wants to continue.

The Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes (Alun Davies): In replying to this debate, I would say two things. First, I want to discuss what exactly we are talking about in terms of GDP and the contextual side of that. Secondly, I want to answer some of the more fundamental questions that have been raised in this debate.

Turning first to the two amendments, I will discuss the Government's view on these. We ask the Assembly to support amendment 1. We believe that it is imperative that future European funding investment priorities, which I plan to announce in May, support EU and Welsh Government strategies for an inclusive, sustainable and prosperous society. The new programmes being developed will

galendr hon, lle y mae'r aelodau am ymhelaethu ymhellach ar gyngor y fforwm, yn enwedig yng nghyswllt yr ystod gymhleth o wahanol ffrydiau ariannu, a lle y mae am i'r Comisiwn ddatgan yn glir, fel y dywedodd Nick Ramsay yn gynharach, ei fod yn disgwyl i gylch yn y dyfodol gyflawni mewn modd mwy integredig, gan sicrhau bod canolbwyntio thematig yn digwydd a bod amodoldeb yn cael ei ystyried.

Ddirprwy Weinidog, mae gennych ddewis. Gallech ddilyn y cyngor a ddarperir yn y cynnig; gallech gau'r fforwm a dweud wrth ei aelodau nad oes amser i wrando ar eu cyngor na manteisio ar y profiad helaeth sydd ganddynt hwy a'u haelodau, oherwydd bod yn rhaid llunio cynllun di-sail yn syth, 'ar fyrder', fel y dywed y cynnig. Gallech, fel y mae gwelliant 1 yn ffafrio, barhau i baratoi gyda'n partneriaid, er mwyn cael cyfres o gynigion sy'n diwallu anghenion gwirioneddol y dyfodol yn hytrach na galwadau rhethregol sydd wedi'u cynnwys mewn cynnig a ddrafftwyd yn flêr.

Byddaf yn gwrando'n ofalus ar yr hyn fydd gennych i'w ddweud, wrth gwrs, fel y bydd aelodau'r fforwm hefyd. Maent yn bobl brysur sydd â'u bywydau gwaith eu hunain i'w trefnu, a byddant yn awyddus i wybod a oes ganddynt gyfraniad i'w wneud, y mae Llywodraeth Cymru o leiaf yn ei werthfawrogi ac am barhau i'w gael.

Y Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd (Alun Davies): Wrth ymateb i'r ddatl hon, hoffwn ddweud dau beth. Yn gyntaf, rwyf am drafod beth yn union yr ydym yn sôn amdano wrth sôn am Gynnyrch Mewnwladol Crynswth, ac agwedd gyddestunol hynny. Yn ail, rwyf am ateb rhai o'r cwestiynau mwy sylfaenol a godwyd yn y ddatl hon.

Gan droi'n gyntaf at y ddau welliant, hoffwn drafod barn y Llywodraeth am y rhain. Rydym yn gofyn i'r Cynulliad gefnogi gwelliant 1. Credwn ei bod yn hanfodol bod blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi cyllid Ewropeaidd yn y dyfodol, yr wyf yn bwriadu eu cyhoeddi ym mis Mai, yn cefnogi strategaethau'r UE a Llywodraeth Cymru ar gyfer cymdeithas gynhwysol, gynaliadwy a

be subject to formal public consultation this year so that the EU projects continue to meet the needs of Wales and provide opportunities for Wales beyond 2014.

On amendment 2 in the name of William Graham, we recognise fully the importance of the private sector to the growth of the Welsh economy, and we are hoping to create opportunities for jobs and growth, having already invested £735 million in EU projects to support businesses. Businesses have also benefited from £400 million-worth of procurement opportunities to deliver EU project activities. So, we will be asking for support for amendment 2.

I want to touch on something that has been the subject of discussion here in the Chamber and in committee. I have given this commitment to the Enterprise and Business Committee, and I would like to emphasise it this afternoon. On Monday, I will launch a specific consultation targeted at the business community to look at how we can enrich its involvement, not simply in the development of European programmes—my colleague Mark Drakeford has already outlined how the business community is already playing a full part in the development of any future programmes—but also in ensuring that business is a part of the management of future programmes. We have already been clear that 25% of match funding comes from private sources, and I am anxious that, post 2014, we do better.

With regard to some of the fundamental issues that have been raised here this afternoon, there is sometimes a sense of unreality when we discuss the starting point, and where we were a little over a decade ago. The Welsh economy, particularly in west Wales and the Valleys, had suffered generations of structural decline. Agriculture, which was the mainstay for much of that region, accounted for 11% of the total economy of that part of Wales at the beginning of the last century. Clearly, it is far less now. Employment in mining in the south Wales Valleys peaked in 1920. We have seen several decades of structural decline. There is

llewyrchus. Bydd y rhaglenni newydd a ddatblygir yn destun proses ymgynghori ffurfiol â'r cyhoedd eleni er mwyn i brosiectau'r UE barhau i ddiwallu anghenion Cymru a darparu cyfleoedd i Gymru y tu hwnt i 2014.

O ran gwelliant 2 yn enw William Graham, rydym yn cydnabod yn llwyr bwysigrwydd y sector preifat i dwf economi Cymru, ac rydym yn gobeithio creu cyfleoedd ar gyfer swyddi a thwf, ar ôl buddsoddi £735 miliwn eisoes mewn prosiectau gan yr UE i gefnogi busnesau. Mae busnesau hefyd wedi elwa o werth £400 miliwn o gyfleoedd caffael i gyflawni gweithgareddau prosiectau'r UE. Felly, byddwn yn gofyn am gefnogaeth i welliant 2.

Rwyf am grybwyll rhywbeth sydd wedi bod yn destun trafod yma yn y Siambr ac mewn pwyllgorau. Rwyf wedi rhoi'r ymrwymiad hwn i'r Pwyllgor Menter a Busnes, a hoffwn ei bwysleisio y prynhawn yma. Ddydd Llun, byddaf yn lansio ymgynghoriad penodol wedi'i anelu at y gymuned fusnes er mwyn ystyried sut y gallwn gyfoethogi ei chyfranogiad, nid yn unig o safbwynt datblygu rhaglenni Ewropeaidd—mae fy nghydweithiwr, Mark Drakeford, eisoes wedi amlinellu sut y mae'r gymuned fusnes eisoes yn chwarae rhan lawn yn y broses o ddatblygu unrhyw raglenni yn y dyfodol—ond hefyd o safbwynt sicrhau bod byd busnes yn rhan o'r broses o reoli rhaglenni yn y dyfodol. Rydym eisoes wedi nodi'n glir bod 25% o arian cyfatebol yn dod o ffynonellau preifat, ac rwyf yn awyddus ein bod yn gwneud yn well ar ôl 2014.

O ran rhai o'r materion sylfaenol a godwyd yma y prynhawn yma, weithiau ceir ymdeimlad o afrealiti pan fyddwn yn trafod y man cychwyn, a'r sefyllfa yr oeddem ynddi ychydig dros ddegawd yn ôl. Roedd economi Cymru, yn enwedig yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, wedi dioddef cenedlaethau o ddirywiad strwythurol. Roedd amaethyddiaeth, sef conglaen rhan helaeth o'r rhanbarth hwnnw, yn cyfrif am 11% o economi gyfan y rhan honno o Gymru ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Wrth gwrs, mae'n llai o lawer na hynny erbyn hyn. Roedd cyflogaeth ym maes mwyngloddio yn nghymoedd de Cymru wedi cyrraedd ei

an unrealistic and, frankly, surprising belief held by some in this Chamber that all of that structural decline could have been reversed within four or five years. The reality is that there are not, nor have there ever been, any quick fixes. EU programmes may be many things to many people, but, frankly, they are not alchemy.

We have been suffering from an accumulation of structural issues for many years. In the economy of west Wales and the Valleys, we have seen capital-intensive industries decline, to be replaced by less capital-intensive industries such as the service sector. In many ways, the economy in this part of Wales has become more like the economy in other parts of the United Kingdom, but, as that has happened, our GDP has clearly been affected.

I do not want to be at all complacent about the figures that were published last week. We have published what I believe is an ambitious programme for government that will seek to deliver the sort of growth that we all want to see. Last week, we saw the new science strategy for Wales, which provides the strategic direction we need to build and develop a sustainable knowledge-based economy to provide new opportunities for businesses to succeed in global markets. I have heard a number of curious statements here this afternoon and also prior to that in the press and media. GDP per capita is a measure of income generated by economic activity in an area. It is not, in itself, either a measure of wealth or, necessarily, an indicator of poverty. Let me explain what I mean by that. If you look at inner London, the GDP per capita of inner London is over three times the average GDP per capita of the rest of the EU-27. The GDP per capita of outer London is lower than the average for EU-27. Is anyone in this Chamber seriously telling me that the London stockbroker belt is a relatively poor part of the United Kingdom or Europe? Are you really saying that? It is important to recognise that GDP per capita is a crucial indicator of economic activity, but people are more than statistics. We need,

hanterth yn 1920. Rydym wedi gweld sawl degawd o ddirywiad strwythurol. Mae rhai yn y Siambr hon yn arddel y gred afrealistig, sy'n syfrdanol, a dweud y gwir, y gallai'r holl ddirywiad strwythurol hwnnw fod wedi'i wrthdroi mewn pedair neu bum mlynedd. Y realiti yw nad oes, ac na chafwyd erioed, unrhyw atebion cyflym. Gall rhaglenni'r UE fod yn llawer o bethau i lawer o bobl, ond, a dweud y gwir, nid ydynt yn alcemi.

Rydym wedi bod yn dioddef o bentwr o broblemau strwythurol ers blynyddoedd lawer. Yn economi gorllewin Cymru a'r Cymoedd, rydym wedi gweld diwydiannau dwys o ran cyfalaf yn dirywio, ac yn cael eu disodli gan ddiwydiannau sy'n llai dwys o ran cyfalaf, megis y sector gwasanaethau. Mewn sawl ffordd, mae'r economi yn y rhan hon o Gymru wedi ymdebygu fwyfwy i'r economi mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig, ond, wrth i hynny ddigwydd, mae'n amlwg ei fod wedi effeithio ar ein Cynnyrch Mewnwladol Crynswth.

Nid wyf am fod yn hunanfodlon o gwbl ynghylch y ffigurau a gyhoeddwyd yr wythnos diwethaf. Rydym wedi cyhoeddi rhaglen lywodraethu sy'n uchelgeisiol, yn fy marn i, a fydd yn ceisio sicrhau'r math o dwf y mae pob un ohonom am ei weld. Yr wythnos diwethaf, gwelsom y strategaeth wyddoniaeth newydd i Gymru, sy'n darparu'r cyfeiriad strategol y mae arnom ei angen i adeiladu a datblygu economi gynaliadwy sy'n seiliedig ar wybodaeth er mwyn darparu cyfleoedd newydd i fusnesau lwyddo mewn marchnadoedd byd-eang. Rwyf wedi clywed nifer o ddatganiadau rhyfedd y prynhawn yma, a chyn hynny hefyd yn y wasg a'r cyfryngau. Mae Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen yn fesur o incwm a gynhyrchir drwy weithgarwch economaidd mewn ardal. Nid yw, ynddo'i hun, yn fesur o gyfoeth nac, o reidrwydd, yn arwydd o dlodi. Gadewch imi egluro beth yr wyf yn ei olygu wrth hynny. Wrth edrych ar ganol Llundain, mae Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen canol Llundain dros deirgwaith yn fwy na'r cyfartaledd Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen ar gyfer gweddill 27 gwladwriaeth yr UE. Mae Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen cyrion Llundain yn is na'r cyfartaledd ar gyfer 27 gwladwriaeth yr UE. A oes unrhyw un yn y Siambr hon yn dweud wrthyf o

when we are looking at the impact of these programmes, to look at a basket of different statistical evidence to understand exactly what is happening to the people and communities in these parts of Wales.

Alun Ffred Jones: Are you suggesting that west Wales and the Valleys do not suffer from deprivation?

Alun Davies: No. Clearly, there are deprived communities in west Wales and the Valleys. I am explaining what GDP per capita measures, and it measures economic activity. It does not, in itself, measure wealth and that is a mistake that was made in the opening of this debate and in the reporting of it as well. Therefore, there are significant weaknesses in GDP per capita as a measure and we try to use a basket of economic indicators to look at and understand what is happening to people and communities in these areas.

If you look at the wider indicators, you will see that there has been a significant growth in income levels per head in west Wales and the Valleys, which has outstripped the UK average. If you look, for example, at the Welsh economy since 1999, you will see that there have been more jobs created in the private sector than in the public sector. That is quite the reverse of some of the trends that we have seen in the United Kingdom. If you look at Wales as a whole, we see an employment level that is way above the historic average. We have seen the gap in employment rates between Wales and the rest of the UK narrow from 5% or 6% to 2% or 3%. We have seen very real changes and real improvements in the life chances and opportunities of people in these different communities. However, we have to ensure that we take the challenges facing us seriously.

ddifrif bod ardal broceriaid stoc Llundain yn rhan gymharol dlawd o'r Deyrnas Unedig neu Ewrop? A ydych o ddifrif yn dweud hynny? Mae'n bwysig cydnabod bod Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen yn ddangosydd allweddol ar gyfer gweithgarwch economaidd, ond mae pobl yn fwy nag ystadegau. Pan fyddwn yn edrych ar effaith y rhaglenni hyn, mae angen inni edrych ar amrywiaeth o wahanol dystiolaeth ystadegol i ddeall yn union beth sy'n digwydd i bobl a chymunedau yn y rhannau hyn o Gymru.

Alun Ffred Jones: A ydych yn awgrymu nad yw gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn dioddef o amddifadedd?

Alun Davies: Nac ydw. Mae'n amlwg bod cymunedau difreintiedig yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd. Rwyf yn egluro beth y mae Cynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen yn ei fesur, ac mae'n mesur gweithgarwch economaidd. Nid yw, yn do'i hun, yn mesur cyfoeth, a dyna'r camgymeriad a wnaed ar ddechrau'r ddadl hon ac wrth adrodd yn ei gylch hefyd. Felly, mae gwendidau sylweddol yn perthyn i Gynnyrch Mewnwladol Crynswth y pen fel mesur, ac rydym yn ceisio defnyddio dangosyddion economaidd amrywiol i astudio a deall beth sy'n digwydd i bobl a chymunedau yn yr ardaloedd hyn.

O edrych ar y dangosyddion ehangach, fe welwch fod lefelau incwm y pen yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd wedi cynyddu'n sylweddol, ar gyfradd sy'n uwch na chyfartaledd y DU. O edrych, er enghraifft, ar economi Cymru er 1999, fe welwch fod mwy o swyddi wedi'u creu yn y sector preifat nag yn y sector cyhoeddus. Mae hynny'n hollol groes i rai o'r tueddiadau yr ydym wedi'u gweld yn y Deyrnas Unedig. O edrych ar Gymru gyfan, fe welwn fod cyflogaeth ar lefel sy'n llawer uwch na'r cyfartaledd hanesyddol. Rydym wedi gweld y bwlch o ran cyfraddau cyflogaeth rhwng Cymru a gweddill y DU yn lleihau o 5% neu 6% i 2% neu 3%. Rydym wedi gweld newidiadau go iawn a gwelliannau go iawn yn y cyfleoedd bywyd a gaiff pobl yn y gwahanol gymunedau hyn. Fodd bynnag, rhaid inni sicrhau ein bod yn cymryd yr heriau sy'n ein hwynebu o ddifrif.

The current programmes are making a significant contribution to the economic life of west Wales and the Valleys. We have already seen 11,000 jobs and 2,150 enterprises created. We have seen the programmes deliver 35,000 people into work and help over 85,000 people to gain qualifications. Peter Black should have read the report that we published this morning. Eluned Parrott has, but then she did not repeat the nonsense that he did. If you had read that report before making your contribution, Peter, you would have seen some of the real results that those projects and programmes have delivered. I am concerned that we learn the lessons from that and move forward.

One of the key things that we are trying to do at the moment is not simply to learn the lessons, but to apply the lessons that we have learned over the last few years. Our record and experience in managing and delivering European programmes is recognised across the European Union and by the European Commission. We recognise the challenges facing the people and communities of west Wales and the Valleys. We are determined to rise to meet those challenges and to deliver the prosperity that we all want to see.

Eluned Parrott: We brought forward this debate today to discuss how we can learn lessons from previous EU funding rounds. I would like to thank all of the Members for their contributions today. However, to learn lessons from our mistakes we must first be honest enough with ourselves to recognise that we could have done better on previous occasions. Today we have had a statement and a report from the Deputy Minister, which you have just mentioned, in addition to the contributions that we have heard in this debate. Sadly, instead of accepting that mistakes have been made, the Deputy Minister and his officials have used every opportunity over the last week to cavil over the statistics, pick and choose the numbers to believe, and pass the buck.

I agree with Nick Ramsay that it is wrong to

Mae'r rhaglenni cyfredol yn gwneud cyfraniad sylweddol i fywyd economaidd gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Rydym eisoes wedi gweld 11,000 o swyddi a 2,150 o fentrau'n cael eu creu. Rydym wedi gweld y rhaglenni'n galluogi 35,000 o bobl i gael gwaith ac yn helpu dros 85,000 o bobl i ennill cymwysterau. Dylai Peter Black fod wedi darllen yr adroddiad a gyhoeddwyd gennym y bore yma. Mae Eluned Parrott wedi'i ddarllen, ond ar ôl dweud hynny, nid ailadroddodd hi'r nonsens a wnaeth ef. Pe baech wedi darllen yr adroddiad hwnnw cyn gwneud eich cyfraniad, Peter, byddech wedi gweld rhai o'r canlyniadau go iawn y mae'r prosiectau a'r rhaglenni hynny wedi'u cyflawni. Rwyf yn awyddus i sicrhau ein bod yn dysgu'r gwersi o hynny ac yn symud ymlaen.

Yn ogystal â dysgu'r gwersi, un o'r pethau allweddol yr ydym yn ceisio ei wneud ar hyn o bryd yw rhoi'r gwersi yr ydym wedi'u dysgu dros y blynyddoedd diwethaf ar waith. Mae ein hanes a'n profiad o reoli a gweithredu rhaglenni Ewropeaidd wedi'u cydnabod ar draws yr Undeb Ewropeaidd a chan y Comisiwn Ewropeaidd. Rydym yn cydnabod yr heriau sy'n wynebu pobl a chymunedau gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Rydym yn benderfynol o fynd i'r afael â'r heriau hynny a sicrhau'r llewyrch y mae pob un ohonom am ei weld.

Eluned Parrott: Bu inni gyflwyno'r ddadl hon heddiw er mwyn trafod sut y gallwn ddysgu gwersi o gylchoedd blaenorol o gyllid yr UE. Hoffwn ddiolch i'r holl Aelodau am eu cyfraniadau heddiw. Fodd bynnag, er mwyn dysgu gwersi o'n camgymeriadau, rhaid yn gyntaf inni fod yn ddigon gonest i gydnabod y gallem fod wedi gwneud yn well yn flaenorol. Heddiw, rydym wedi cael datganiad ac adroddiad gan y Dirprwy Weinidog, yr ydych newydd eu crybwyll, yn ychwanegol at y cyfraniadau yr ydym wedi'u clywed yn y ddadl hon. Yn anffodus, yn hytrach na derbyn bod camgymeriadau wedi'u gwneud, mae'r Dirprwy Weinidog a'i swyddogion wedi defnyddio pob cyfle yn ystod yr wythnos diwethaf i bigo bai ar yr ystadegau, dewis a dethol y rhifau y dylid eu credu, a bwrw'r cyfrifoldeb ar rywun arall.

Rwyf yn cytuno â Nick Ramsay ei bod yn

dismiss the figures out of hand. That is absolutely the case. The scale of the fall in GDP figures is shocking. Bill Powell talked about the problems facing his own region and, in particular, the impact of poor internet connectivity on economic development. Alun Ffred Jones talked about the longer-term picture of the Welsh economy. I do not agree that it is unrealistic or wasteful to create an economic strategy for west Wales and the Valleys. We are spending billions of pounds of European money. Do you not think that we should invest at least some time in working out what we would do with it? It is critical that we are ready to go the moment that that money arrives. Plan now—make every day of the third round count.

Alun Davies: I made an oral statement to the Chamber last year, in which I outlined exactly how we are going to do that. I have also given evidence to the Enterprise and Business Committee, on which you sit, outlining exactly how we are going to do that. Therefore, all of those things have been done. In many ways, your motion is asking us to do something that we actually did last year.

Eluned Parrott: I am glad to hear that you are so supportive of our motion, given that you feel that you are already implementing some of what it proposes. To return to Alun Ffred's points, the Deputy Minister has said in committee and the Chamber that he wants this to be the last time that we qualify for this funding, but that will only be the case if we do the groundwork in advance.

Aled Roberts talked about the fragile state of new businesses, particularly in north Wales, and the danger of resting on our laurels. Mike Hedges also talked about the historical context of the economic problems that we face and the unreliability of GDP figures—more on that shortly. As regards Alun Ffred's intervention on our GDHI figures being the third worst in the UK, I am sure that he was

anghywir diystyru'r ffigurau yn syth bin. Mae hynny'n hollol iawn. Mae maint y gostyngiad yn y ffigurau ynghylch Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn syfrdanol. Soniodd Bill Powell am y problemau sy'n wynebu ei ranbarth ef, ac yn benodol, am yr effaith y mae cysylltedd gwael â'r rhyngwyd yn ei chael ar ddatblygu economaidd. Soniodd Alun Ffred Jones am y darlun tymor hwy o economi Cymru. Nid wyf yn cytuno bod creu strategaeth economaidd ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn afrealistig nac yn wastraffus. Rydym yn gwario biliynau o bunnoedd o arian Ewropeaidd. Onid ydych yn credu y dylem fod yn buddsoddi o leiaf rhywfaint o amser i benderfynu beth y byddem yn ei wneud ag ef? Mae'n hollbwysig ein bod yn barod i weithredu'n syth pan fydd yr arian hwnnw'n cyrraedd. Rhaid cynllunio'n awr—a sicrhau bod pob diwrnod o'r trydydd cylch yn cyfrif.

Alun Davies: Gwneuthum ddatganiad llafar i'r Siambr y llynedd, ac ynddo amlinellais sut yn union yr ydym yn bwriadu gwneud hynny. Rwyf hefyd wedi rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor Menter a Busnes, yr ydych yn aelod ohono, a oedd yn amlinellu sut yn union yr ydym yn bwriadu gwneud hynny. Felly, mae pob un o'r pethau hynny wedi'u gwneud. Mewn sawl ffordd, mae eich cynnig yn gofyn inni wneud rhywbeth a wnaethom, mewn gwirionedd, y llynedd.

Eluned Parrott: Rwyf yn falch o glywed eich bod mor gefnogol i'n cynnig, o ystyried eich bod yn teimlo eich bod eisoes yn gwneud rhywfaint o'r hyn y mae'n ei gynnig. Gan ddychwelyd at bwyntiau Alun Ffred, mae'r Dirprwy Weinidog wedi dweud mewn pwyllgorau ac yn y Siambr ei fod am sicrhau mai hwn fydd y tro olaf y byddwn yn gymwys i gael y cyllid hwn, ond ni fydd hynny'n bosibl oni bai ein bod yn gwneud y gwaith caib a rhaw o flaen llaw.

Soniodd Aled Roberts am gyflwr bregus busnesau newydd, yn enwedig yn y gogledd, a'r perygl o orffwys ar ein rhwyfau. Soniodd Mike Hedges hefyd am gyd-destun hanesyddol y problemau economaidd yr ydym yn eu hwynebu a natur annibynadwy ffigurau ynghylch Cynnyrch Mewnwladol Crynswth—dof at hynny yn y man. O ran myriad Alun Ffred ynghylch y ffaith mai

reassured to hear from Mike Hedges that apparently those figures are much better than our GDP figures.

Mike Hedges: You mentioned how poor our GDP was. I would like our income rates to be at the top of the list, as would most people here, but we are eighth in the league table, with three below us, so it is not as catastrophic as you were attempting to make out.

Eluned Parrott: Coming eighth out of 12 is nothing to be singing and dancing about, Mike. Peter talked in detail about some of the reasons why we have been struggling. I hope that the Deputy Minister, on reflection, will take some of those points on board. Byron Davies made the point that gross domestic product figures are not misleading, that we deserve much more, and hoped that we will work constructively with the private sector. In response, Mark Drakeford told us about the work of the European programmes partnership forum and the membership of the private sector in that forum. I welcome the work of the forum and I agree that a long-term strategy should be flexible. However, I am sorry to hear that he thinks that the two are mutually exclusive. They are clearly complementary. A forum such as that one is the perfect forum to feed information into developing a strategy. If that is not the purpose of the forum, I wonder what its purpose is. The first step in the development of any strategy is to conduct an environmental analysis or scoping exercise—in short, to consult. No-one would suggest that the Government should pluck a strategy out of the air. I would rather that it did it properly, with objectives, targets, action points and a timescale. I am glad to hear of businesses' involvement and your desire to improve on the performance of previous incumbents in your role. However, you said that there is an air of unreality about saying that we can fix things within four or five years. You should take that up with Rhodri Morgan, who seemed to believe that that was the case. I would say that it is unrealistic to

Cymru sydd yn y safle isaf ond dau yn y DU o ran ffigurau ynghylch incwm gwario gros aelwydydd, rwyf yn siŵr ei fod wedi'i gysuro o glywed gan Mike Hedges bod y ffigurau hynny, yn ôl pob tebyg, yn well o lawer na'n ffigurau ar gyfer Cynnyrch Mewnwladol Crynswth.

Mike Hedges: Bu ichi sôn mor wael oedd ein Cynnyrch Mewnwladol Crynswth. Byddwn yn hoffi pe bai ein cyfraddau incwm ar frig y rhestr, fel y byddai'r rhan fwyaf o'r bobl sydd yma, ond rydym yn wythfed yn y gynghrair, gyda thri yn is na ni. Felly, nid yw mor drychinebus â'r sefyllfa yr oeddech yn ceisio'i chyfleu.

Eluned Parrott: Nid yw dod yn wythfed allan o 12 yn ddim byd i ymffrostio yn ei gylch, Mike. Soniodd Peter yn fanwl am rai o'r rhesymau sy'n esbonio pam yr ydym wedi bod yn ei chael yn anodd. Rwyf yn gobeithio y bydd y Dirprwy Weinidog, wedi meddwl, yn ystyried rhai o'r pwyntiau hynny. Gwnaeth Byron Davies y pwynt nad yw ffigurau ynghylch Cynnyrch Mewnwladol Crynswth yn gamarweiniol, a'n bod yn haeddu llawer mwy, ac roedd yn gobeithio y byddwn yn gweithio'n adeiladol gyda'r sector preifat. Wrth ymateb, soniodd Mark Drakeford wrthym am waith y fforwm partneriaeth rhaglenni Ewropeaidd ac am aelodaeth y sector preifat yn y fforwm hwnnw. Rwyf yn croesawu gwaith y fforwm ac yn cytuno y dylai strategaeth hirdymor fod yn hyblyg. Fodd bynnag, mae'n ddrwg gennyf glywed ei fod o'r farn bod y naill beth yn annibynnol ar y llall. Maent yn amlwg yn ategu ei gilydd. Mae fforwm tebyg i'r un dan sylw yn fforwm perffaith i gyfrannu gwybodaeth i'r broses o ddatblygu strategaeth. Os nad dyna yw diben y fforwm, beth yw ei ddiben? Y cam cyntaf wrth ddatblygu unrhyw strategaeth yw cynnal dadansoddiad amgylcheddol neu ymarfer cwmpasu—yn fyr, ymgynghori. Ni fyddai neb yn awgrymu y dylai'r Llywodraeth lunio strategaeth ddi-sail. Byddai'n well gennyf weld y Llywodraeth yn gwneud y gwaith yn iawn, gydag amcanion, targedau, pwyntiau gweithredu ac amserlen. Rwyf yn falch o glywed bod busnesau'n cael eu cynnwys, a'ch bod yn awyddus i wella ar berfformiad eich rhagflaenwyr. Fodd bynnag, bu ichi sôn bod ymdeimlad o afrealiti ynglŷn â dweud y

suggest that Wales is the only place in the world to have seen such structural issues, but we are one of the few places that have failed to address them.

Yesterday, the First Minister told the Chamber that the statistics for 2009 were out of date. Today, Deputy Minister, you have brought forward the publication of your report into the use of structural funds in 2000 to 2006, for which I thank you. However, given the First Minister's desire for greater currency in the published statistics, I wonder why this has taken six years and why your predecessor did not get it done. The situation is critical. We are spending more of these funds every day. Lessons could have been learned. New ways of working could have been implemented by now. Perhaps if they had, the GDP figures for 2009 might not have been so damning. I note, Minister, that you discourage us from judging the success of these programmes on the basis of GDP or GVA figures, but I find that surprising, given that growth in GVA was your Government's No. 1 target for Objective 1 funding, as today's report confirms. You have outlined some of your objections to using GDP and GVA figures here and in the press. I would like to address some of those points now.

6.30 p.m.

You have said that these figures ignore the people who commute from west Wales and the Valleys to work in other areas, a point also made by Mike Hedges. However, as Peter Black stated, and as part 2 of our motion also states—and you have not amended it, so you must not disagree with it—these figures have been measured consistently over that decade, within Wales

gallwn ddatrys pethau mewn pedair neu bum mlynedd. Dylech godi'r mater hwnnw gyda Rhodri Morgan, a oedd, yn ôl pob golwg, yn credu bod modd gwneud hynny. Byddwn i'n dweud ei bod yn afrealistig awgrymu mai Cymru yw'r unig le yn y byd sydd wedi gweld problemau strwythurol fel hyn, ond ni yw un o'r ychydig leoedd sydd wedi methu â chymryd camau i fynd i'r afael â hwy.

Ddoe, dywedodd y Prif Weinidog wrth y Siambr fod yr ystadegau ar gyfer 2009 wedi dyddio. Heddiw, Ddirprwy Weinidog, rydych wedi cyhoeddi eich adroddiad ar y defnydd a wnaed o gronfeydd strwythurol rhwng 2000 a 2006, ac rwyf yn diolch ichi am wneud hynny. Fodd bynnag, o ystyried awydd y Prif Weinidog i gael manylion mwy cyfredol yn yr ystadegau a gyhoeddir, tybed pam y mae wedi cymryd chwe mlynedd i gyhoeddi'r adroddiad a pham na chafodd hynny ei wneud gan eich rhagflaenydd. Mae'r sefyllfa'n ddifrifol. Rydym yn gwario mwy o arian o'r cronfeydd hyn bob dydd. Gallai gwersi fod wedi'u dysgu. Gallai ffyrdd newydd o weithio fod wedi'u gweithredu erbyn hyn. Pe bai hynny wedi digwydd, efallai na fyddai'r ffigurau ynghylch Cynnyrch Mewnwladol Crynswth ar gyfer 2009 wedi bod mor ddamniol. Nodaf, Weinidog, eich bod yn ein hannog i beidio â barnu llwyddiant y rhaglenni hyn ar sail ffigurau ynghylch Cynnyrch Mewnwladol Crynswth neu Werth Ychwanegol Crynswth, ond mae hynny'n fy synnu, o ystyried mai twf mewn Gwerth Ychwanegol Crynswth oedd prif darged eich Llywodraeth ar gyfer arian Amcan 1, fel y mae adroddiad heddiw'n cadarnhau. Rydych wedi amlinellu rhai o'ch gwrthwynebiadau i ddefnyddio ffigurau ynghylch Cynnyrch Mewnwladol Crynswth a Gwerth Ychwanegol Crynswth yma ac yn y wasg. Hoffwn fynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau hynny'n awr.

Rydych wedi dweud bod y ffigurau hyn yn anwybyddu'r bobl sy'n cymudo o orllewin Cymru a'r Cymoedd i weithio mewn ardaloedd eraill, sy'n bwynt a wnaed hefyd gan Mike Hedges. Fodd bynnag, fel y nododd Peter Black, ac fel y mae rhan 2 ein cynnig yn datgan—ac nid ydych wedi gwella'r rhan honno, felly rhaid nad ydych yn anghytuno â hi—mae'r ffigurau hynny wedi'u mesur yn

and across the EU, and nothing has changed in the measurement regime, but we have been left behind. I would also point out that research from the Bevan Foundation has found that only 15% of the working population of west Wales and the Valleys commutes outside that area, and that figure has been relatively stable. Even if we do accept your proposition, in 2009, under Labour's care in Westminster and in Wales, the figures for wealthier areas of Wales also declined. We can hardly imagine that those commuters were unaffected. I must conclude, therefore, that that is just not a credible response.

You have also stated that we have kept pace with or outperformed the rest of the UK, but if that is a shot at the Westminster Government, I would point out that, at this time, Labour was in charge both at Westminster and in Wales. If you stick to that position, it is hardly a ringing endorsement of Labour's record of economic management across Britain. I would also note that several UK regions, such as Northern Ireland and the highlands and islands have managed to lift themselves out of the qualifying zone. This is at best a partial picture of reality, so again, Deputy Minister, I would say that it is not a credible response.

You have said that GDP and GVA are blunt instruments, and point to other measures. In fact, in today's statement, and just now, you have suggested that we consider a basket of economic performance indicators, such as the employment rate or jobs created. You are quite right, Deputy Minister; I do consider some of these indicators a basket. For example, I wonder why some comparative data sets in the report today for Wales versus the rest of the UK exclude London and the south-east of England, but others do not. What purpose does this inconsistency serve? If the figures were consistent, they might be credible, but sadly, they do not appear to be either.

gyson dros y degawd hwnnw, yng Nghymru ac ar draws yr UE, ac nid oes dim wedi newid yn y drefn fesur, ond er hynny, rydym wedi cael ein gadael ar ôl. Hoffwn nodi hefyd bod ymchwil gan Sefydliad Bevan wedi canfod mai dim ond 15% o'r boblogaeth o orllewin Cymru a'r Cymoedd sy'n gweithio sy'n cymudo y tu allan i'r ardal honno, ac mae'r ffigur hwnnw wedi bod yn gymharol sefydlog. Hyd yn oed o dderbyn eich cynnig, yn 2009, dan ofal y Blaid Lafur yn San Steffan ac yng Nghymru, bu i'r ffigurau ar gyfer ardaloedd mwy cyfoethog Cymru ostwng hefyd. Mae'n anodd credu nad effeithiwyd ar y cymudwyr hynny. Rhaid imi ddod i'r casgliad, felly, nad yw'r ymateb hwnnw'n ymateb credadwy.

Rydych wedi datgan hefyd ein bod yn perfformio lawn cystal â gweddill y DU neu'n well, ond os ergyd at Lywodraeth San Steffan oedd hynny, hoffwn nodi mai'r Blaid Lafur oedd yn llywodraethu ar y pryd yn San Steffan ac yng Nghymru. Os ydych am lynu wrth y safbwynt hwnnw, prin y mae'n cymeradwyo'r modd y mae'r Blaid Lafur wedi rheoli'r economi ar draws Prydain. Hoffwn nodi hefyd bod nifer o ranbarthau'r DU, megis Gogledd Iwerddon ac ucheldiroedd ac ynysoedd yr Alban, wedi llwyddo i'w codi eu hunain allan o'r parth cymhwys. Darlun rhannol o realiti ydyw, ar y gorau. Felly, unwaith eto, Ddirprwy Weinidog, byddwn yn dweud nad yw'n ymateb credadwy.

Rydych wedi dweud bod Cynnyrch Mewnwladol Crynswth a Gwerth Ychwanegol Crynswth yn arfau heb fin, a bu ichi gyfeirio at fesurau eraill. Mewn gwirionedd, yn eich datganiad heddiw, ac eiliad yn ôl, bu ichi awgrymu y dylem ystyried dangosyddion amrywiol ar gyfer perfformiad economaidd, megis y gyfradd cyflogaeth neu nifer y swyddi sydd wedi'u creu. Rydych yn llygad eich lle, Ddirprwy Weinidog; rwyf o'r farn bod rhai o'r dangosyddion yn amrywiol. Er enghraifft, tybed pam y caiff Llundain a de-ddwyrain Lloegr eu hepgor o rai o'r setiau data cymharol a welir yn yr adroddiad heddiw ar Gymru o'i chymharu â gweddill y DU, a thybed pam y cânt eu cynnwys mewn setiau data eraill? Beth yw diben yr anghysondeb hwn? Pe bai'r ffigurau yn gyson, gallent fod

yn gredadwy, ond yn anffodus, nid ydynt yn ymddangos yn gyson nac yn gredadwy.

I have examined the figures that we do have, particularly with regards to value for money, and I would like to give you an example. Your report states that, in the first round of structural funds, £3.815 billion was invested across the range of European programmes and that, as a result, up to 52,800 jobs were created. We would all welcome those additional jobs and what they mean to those individuals, but do you realise that putting those figures together shows an extraordinary cost of more than £72,000 for every single job created?

Rwyf wedi archwilio'r ffigurau sydd gennym, yn enwedig o ran gwerth am arian, a hoffwn roi enghraifft ichi. Yn ôl eich adroddiad, yn y cylch cyntaf o gronfeydd strwythurol, cafodd £3.815 biliwn ei fuddsoddi ar draws yr ystod o raglenni Ewropeaidd, ac o ganlyniad, cafodd hyd at 52,800 o swyddi eu creu. Byddem oll yn croesawu'r swyddi ychwanegol hynny a'r hyn y maent yn ei olygu i'r unigolion dan sylw, ond a ydych yn sylweddoli, o roi'r ffigurau hynny at ei gilydd, bod cost eithriadol pob un o'r swyddi a grëwyd yn fwy na £72,000?

Today's report says that it is apparent that rather than having experienced much hoped for economic growth over the programme period, Wales has instead weathered a further period of economic change and adjustment. While I accept that you did not have ministerial responsibility at the time, is this not just a euphemism for failure? The truth is that the figures are fair, clear, and lead us to only one conclusion: that whether in Westminster or Cardiff bay, Labour has failed the people of Wales on the economy. In your heart of hearts, you know that you cannot defend Labour's record on European funding because, frankly, these figures are indefensible.

Yn ôl adroddiad heddiw, mae'n amlwg mai dod drwy'r gwaethaf mewn cyfnod arall o newid ac addasu economaidd y mae Cymru wedi'i wneud yn hytrach na gweld y twf economaidd yr oedd pawb wedi gobeithio'n fawr amdano yn ystod cyfnod y rhaglenni. Er fy mod yn derbyn nad oedd gennych gyfrifoldeb gweinidogol ar y pryd, onid ffordd garedig o osgoi dweud eich bod wedi methu yw hynny? Y gwir amdani yw bod y ffigurau'n deg ac yn glir ac yn ein harwain at un casgliad yn unig, sef bod y Blaid Lafur, boed yn San Steffan neu ym mae Caerdydd, wedi siomi pobl Cymru o safbwynt yr economi. Yn nwn eich calon, rydych yn gwybod na allwch amddiffyn hanes y Blaid Lafur yng nghyswllt cyllid Ewropeaidd oherwydd, a siarad yn blaen, nid oes modd esgusodi'r ffigurau hyn.

Y Dirprwy Lywydd: Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig heb ei ddiwygio. A oes gwrthwynebiad? Gwelaf fod, ac felly gohirir y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

The Deputy Presiding Officer: The question is that the motion without amendment be agreed. Is there any objection? I see that there is, and therefore voting on this item is deferred until voting time.

Before we proceed with the votes, are there three Members who wish for the bell to be rung? I see that there are not.

Cyn inni fwrw ymlaen â'r pleidleisiau, a oes tri Aelod yn dymuno i'r gloch gael ei chanu? Gwelaf nad oes.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.
Voting deferred until voting time.*

Cyfnod Pleidleisio Voting Time

*Cynnig NDM4940: O blaid 17, Ymatal 0, Yn erbyn 33.
Motion NDM4940: For 17, Abstain 0, Against 33.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.
Motion not agreed.*

*Cynnig NDM4946: O blaid 15, Ymatal 0, Yn erbyn 35.
Motion NDM4946: For 15, Abstain 0, Against 35.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike

Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Wood, Leanne

*Gwrthodwyd y cynnig.
Motion not agreed.*

*Gwelliant 1 i NDM4946: O blaid 33, Ymatal 0, Yn erbyn 17.
Amendment 1 to NDM4946: For 33, Abstain 0, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

*Cafodd gwelliannau 2 a 3 eu dad-ddethol.
Amendments 2 and 3 deselected.*

*Gwelliant 4 i NDM4946: O blaid 33, Ymatal 0, Yn erbyn 17.
Amendment 4 to NDM4946: For 33, Abstain 0, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Parrott, Eluned
Powell, William
Ramsay, Nick
Roberts, Aled
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y gwelliant.
Amendment agreed.*

Cynnig NDM4946 fel y'i diwygiwyd:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

- 1. Yn nodi pwysigrwydd llywodraeth leol yn gweithredu mewn modd sy'n dryloyw ac yn atebol i'r bobl y mae'n eu cynrychioli;*
- 2. Yn cydnabod bod pennu'r dreth gyngor yn fater i awdurdodau lleol unigol a bod y tryloywder a'r atebolrwydd yn cael eu cynnal drwy'r blwch pleidleisio bob pedair blynedd;
a*

Motion NDM4946 as amended:

To propose that the National Assembly for Wales:

- 1. Notes the importance of local government acting in a manner which is both transparent and accountable to the people it represents;*
- 2. Recognises that the setting of council tax is a matter for individual local authorities and transparency and accountability for this is delivered via the ballot box every four years;
and*

3. *Yn croesawu camau a gymerir gan gynghorau yng Nghymru i sicrhau mwy o dryloywder ond yn cydnabod bod angen gwneud yn siŵr fod y beichiau gweinyddol a roddir ar awdurdodau lleol yn sgîl mwy o dryloywder yn gymesur â hynny.*

3. *Welcomes steps towards increased transparency taken by councils in Wales but recognises the need to ensure that administrative burdens placed on local authorities as a result of increased transparency are proportionate.*

*Cynnig NDM4946 fel y'i diwygiwyd: O blaid 37, Ymatal 0, Yn erbyn 13.
Motion NDM4946 as amended: For 37, Abstain 0, Against 13.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jenkins, Bethan
Jones, Alun Ffred
Jones, Carwyn
Jones, Elin
Lewis, Huw
Morgan, Julie
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Wood, Leanne

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Burns, Angela
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd cynnig NDM4946 fel y'i diwygiwyd.
Motion NDM4946 as amended agreed.*

*Cynnig NDM4945: O blaid 33, Ymatal 0, Yn erbyn 17.
Motion NDM4945: For 33, Abstain 0, Against 17.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Black, Peter

Chapman, Christine
 Cuthbert, Jeff
 Davies, Alun
 Davies, Jocelyn
 Davies, Keith
 Drakeford, Mark
